# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 7FED CHWEFROR, 2019**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**LowriHafEvans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 31/01/19)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Linda Morgan
Gethin Glyn Williams
Sedd Wag - Plaid Cymru

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Gruffydd Williams

Aled Wyn Jones
Catrin Wager
Simon Glyn

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Peter Antony Garlick
Kevin Morris Jones
Elwyn Jones

Keith Jones
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels

Owain Williams

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 13 Rhagfyr 2018 fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU IS-DDEDDFAU DRAENIO TIR** 12 - 21

Ystyried cymeradwyo is-ddeddfau i'w mabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

**6. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL** 22 - 84

I ystyried yr adroddiad a rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor i graffu'r Drafft Strategaeth Toiledau Lleol a chynnig unrhyw adborth cyn mynd gerbron y Cabinet.

**7. TREFNIADAU RHEOLI PARCIO** 85 - 110

I ystyried yr adroddiad sydd yn codi ymwybyddiaeth am drefniadau a chyfrifoldebau rheoli parcio'r Cyngor, allbynnau'r gwaith a'r heriau ar gyfer y dyfodol

**8. MATERION CYNLLUNIO A'R DREFN DIRPRWYO** 111 - 131

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd a Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol

**9. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD**

I enwebu aelod newydd i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad Adran yr Amgylchedd

# Pwyllgor Craffu Cymunedau
# 13 Rhagfyr 2018

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Peter Garlick, Simon Glyn (Cadeirydd), Annwen Hughes, Aled W Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams, Owain Williams a Gruffydd Williams.

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Catherine Roberts (Rheolwr Cyflawni Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Gareth Griffiths (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Steffan Jones (Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd) Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro)

Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Keith Jones, Linda Morgan a Catrin Wager

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelod canlynol fuddiant personol, yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Annwen Hughes yn eitemau 8 ar y rhaglen oherwydd bod ei mab yn denant ar 3 Morfa Mawr, Llanbedr

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 10.10.2018 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyflawni Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn yn diweddaru'r Pwyllgor ar faes gwaith y Bartneriaeth. Eglurwyd bod gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol i gyflwyno trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn ynghyd a'r gwaith comisiynu sydd yn gosod fframwaith i'r blaenoriaethau. Ategwyd bod hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006, drwy gydweithio gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Tynnwyd sylw at y prif negeseuon oedd yn deillio o weithgarwch 2017/2018 ynghyd a phrif lwyddiannau'r flwyddyn. Cyfeiriwyd at holiadur oedd wedi ei rannu gyda'r cyhoedd i ddweud eu dweud am drosedd yn eu cymunedau. Dadansoddwyd y 987 ymateb a dderbyniwyd ac amlygwyd bod Gwynedd yn un o'r Siroedd mwyaf saff yng Nghymru.

Amlygwyd y prif gerrig milltir ar gyfer 2017 – 2018 a gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu gefnogi'r blaenoriaethau oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad ynghyd â chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd o 13.3% yn y troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yng Ngwynedd, dengys y dadansoddiad mai cynnydd yn effeithlonrwydd y broses o gofnodi'r troseddau yw hyn yn hytrach na chynnydd yn y nifer troseddau. Ategwyd bod y newidiadau i'r broses o gofnodi rhai achosion, megis stelcio ac aflonyddu wedi cyfrannu at y cynnydd oherwydd bellach maent yn cael eu cofnodi fel achosion perthnasol yn hytrach nac fel un achos. Nodwyd hefyd bod cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn dod ymlaen i adrodd ar droseddau.

**PENDERFYNWYD**

- **derbyn yr adroddiad**
- **cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad gwaith y Bartneriaeth i'r dyfodol.**

## 6. TREIAL GORFODAETH STRYD

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi diweddariad ar y treial gorfodaeth stryd gan adrodd y byddai'r Gwasanaeth yn cyflwyno argymhelliad pellach ar y ffordd ymlaen er mwyn ceisio gwella'r ddarpariaeth i bwrpas sicrhau glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd.

Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Craffu i'r Gwasanaeth edrych ar opsiynau posib i newid ymddygiad y cyhoedd fyddai'n arwain at wella ansawdd yr amgylchedd lleol a glendid strydoedd, rhoddwyd adborth ar 3 opsiwn posib a'r camau yr oedd y Gwasanaeth wedi ei gymryd i geisio ffordd ymlaen.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- cosbi trefol yn llawer haws na chosbi yng nghefn gwlad
- bod angen cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac addysgu
- sbwriel traethau – creu ardaloedd gorfodaeth
- ystyried camerâu cudd ar safleoedd biniau cymunedol

Nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn derbyn y sylwadau ynglŷn â phroblemau cosbi yng nghefn gwlad ac ategodd bwysigrwydd addysgu plant ar lefel cynradd drwy amlygu parch at eu hamgylchedd.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â bod rhai gweithwyr casgliadau sbwriel yn frysiog ac yn flêr,

amlygwyd bod y Gwasanaeth yn edrych ar gyflwyno trefniadau casglu sbwriel newydd gyda threfn shifft 37 awr a chael un tîm yn gyfrifol am yr un cylchdeithiau wythnosol. Disgwylir y byddai'r gweithwyr yn cael mwy o berchnogaeth o'r gylchdaith ynghyd a gwell dealltwriaeth o anghenion trigolion. Bydd trafodaethau gyda'r Undebau yn cael eu cynnal cyn y Nadolig gyda bwriad o gyflwyno'r trefniadau yn Nwyfor Chwefror 2019, Meirionnydd Gorffennaf 2019 ac Arfon Chwefror 2020. Cytunwyd cyflwyno adroddiad / diweddariad ar yr effaith Hydref 2019

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut fydd y Gwasanaeth yn monitro defnydd camerâu gan y staff morwrol, adroddwyd byddai popeth yn cael ei gopïo i system gefn yn y swyddfa fel bod modd monitro pob sefyllfa pan fyddai'r camerâu ymlaen. Ategwyd bod canllawiau yn cael eu darparu a pholisi gweithredu ar y gweill. Nodwyd hefyd bod y camerâu yn rhoi mwy o hyder i'r swyddogion gyflwyno cosb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynlluniau'r gwasanaeth am y 6 mis nesaf, nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal am waith y gellid ei wneud ar y cyd gydag awdurdodau eraill. Ategwyd, ers i amryw o awdurdodau'r gogledd ddirwyn eu cytundebau gyda chwmnïau allanol i ben, bod cyfarfodydd rhanbarthol wedi eu cynnal i ystyried sut i gynnal y math yma o wasanaeth, rhannu adnoddau a chodi ymwybyddiaeth. Nodwyd nad oedd pob awdurdod yn cytuno gydag un drefn, ond bod y mwyafrif yn ffafrio darpariaeth fewnol. Eglurwyd bod rhai eisoes gyda chynlluniau i'w cyflwyno i'r Cabinet. Byddai cydweithio ar draws y Gogledd yn gwella cysondeb yng nghyd-destun dirwyon.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â deddfau gwahanol gan Gymru a Lloegr yn ymwneud a thaflu sbwriel allan drwy ffenest y car, nodwyd bod Lloegr gyda threfniant mai perchennog y cerbyd sydd yn derbyn cosb, ond yng Nghymru rhaid adnabod y person sydd yn taflu'r sbwriel. Ategwyd bod Cymru wedi dechrau ar y broses o gyflwyno rhywbeth tebyg i Loegr ond ar hyn o bryd wedi ei roi i un ochr.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith caled ac am y bartneriaeth dda gyda'r cyhoedd. Cydnabuwyd y gwaith da sydd yn cael ei wneud gyda threfniadau ailgylchu ac ategwyd dymuniad o weld gwelliant mewn gwaredu sbwriel ac ansawdd yr amgylchedd lleol.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**Gwnaed cais am adroddiadau cynnydd ar,**

- **ddefnydd camerâu staff morwrol awdurdodedig a**
- **effaith newidiadau trefniadau ailgylchu**

## 7. MATERION CYNLLUNIO PLAS PISTYLL, PISTYLL, PWLLHELI

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Amgylchedd yn ymateb i bryderon ynglŷn â'r broses dirprwyo yng nghyd-destun penderfyniadau oedd yn ymwneud a Phlas Pistyll. Yn gynwysedig yn yr adroddiad cafwyd hanes cynllunio manwl y cais ynghyd a Chynlluniau Dirprwyo Cynllunio cyfredol a blaenorol Gwynedd. Nododd yr Aelod Cabinet ei fod wedi comisiynu darn o waith i gasglu gwybodaeth fyddai'n ymateb i'r anhapusrwydd lleol a'r diffyg dealltwriaeth o sut cafodd y penderfyniad ei wneud gyda phwrpas mewn darganfod os oedd y drefn dirprwyo wedi ei dilyn yn briodol.

Amlygwyd y pwyntiau cychwynnol gan Aelod unigol:

- bod addasiadau a newidiadau sylweddol i'r hyn a gytunwyd yn 2012 wedi cael ei gwneud o dan y drefn ddirprwyo.
- dylai cais o'r newydd fod wedi ei gyflwyno yn 2016 oherwydd addasiadau i faint, uchder a dyluniad y cynllun

- gan fod natur y newidiadau yn fwy nag sy'n rhesymol, dylai'r penderfyniad fod wedi cael ei alw i mewn i bwyllgor Cynllunio
- bod y safle yn un sensitif ac o fewn tirweddau sydd angen eu gwarchod
- bod yr addasiadau wedi cythruddo trigolion ac aelodau lleol
- Swyddogion yn unig sydd ddim yn gweld yr effaith
- Pwy sydd â hawl i addasu a diffinio beth yw 'minor impact'?

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd nad oedd bwriad ail agor y cais cynllunio ond bod angen ceisio gwersi i'w dysgu o'r sefyllfa. Ategwyd bod angen i'r adran Cynllunio gyfiawnhau eu bod yn hapus gyda'r drefn gan gadarnhau bod y trywydd cywir wedi ei ddilyn ac os yw'r cynllun dirprwyo yn cyfarch yr heriau.

Ategodd y Swyddog Monitro'r sefyllfa gyfansoddiadol i'r aelodau gan adrodd bod y trefniadau wedi eu dilyn yn unol a'r rhiniogau yn y Cynllun Dirprwyo oedd yn berthnasol ar y pryd. Nodwyd bod y cais a gyflwynwyd yn 2016 yn gais i ddiwygio amodau oedd yn cynnwys lleihau'r nifer o unedau ac addasu'r dyluniad - nid oedd egwyddor y datblygiad felly yn cael ei ystyried wrth benderfynu'r cais ac nid oedd yn cwrdd â'r rhiniogau perthnasol ar gyfer adrodd ar y math yma o ddatblygiad i'r Pwyllgor Cynllunio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelod Lleol:

- Derbyn bod y drefn 'dechnegol' wedi ei dilyn, ond yng ngoleuni ardrawiad sylweddol i'r cynllun, oni ddylai 'clychau fod wedi canu'?
- Oni ddylai moesoldeb y sefyllfa wedi cael ei hystyried?
- Cyngor Cymuned wedi derbyn llythyr yn eu cyfeirio at y wefan yn rhoi gwybodaeth am 'fan newidiadau' i'r cais
- Yr adroddiad yn hunangyfiawn
- Onid yw rhiniog megis 'cais y mae'r Pennaeth Amgylchedd yn ei ystyried y dylid ei gyfeirio at Bwyllgor' yn berthnasol yn yr achlysur yma?

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Pennaeth yr Amgylchedd fod ganddo gydymdeimlad gyda phob barn oedd wedi ei derbyn, yr effaith ar y gymuned a hanes y cais. Ategodd bod yr adroddiad yn cyfeirio at y drefn roedd y swyddogion wedi ei ddilyn i gyrraedd eu penderfyniad. Nododd, oni bai bod negeseuon lleol yn cael eu rhannu gyda swyddogion nad oedd modd deall 'teimladau' a barn trigolion lleol. Nodwyd bod cynllunio yn faes gwrthrychol ac felly os nad oedd gwrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno rhaid derbyn bod y cais yn dderbyniol. Atgoffwyd yr aelodau bod gan Aelod Lleol yr hawl i gyflwyno'r cais i Bwyllgor Cynllunio os yw'r cais yn un cynhennus. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned ac felly roedd argymhellion a phenderfyniad y swyddogion cynllunio yn cyd-fynd a'r gofynion statudol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelodau unigol:

- Derbyn bod y cais a ganiatawyd yn 2012 yn dderbyniol
- Nid yw'r newidiadau / addasiadau a gyflwynwyd yn 2016 yn 'fan addasiadau'
- Synnwyr cyffredin yn amlygu bod cais 2016 yn 'sylweddol wahanol'
- Nid oes synnwyr i broses feddwl (*thought process*) rhai elfennau o'r drefn dirprwyo
- Beth sydd angen ei wneud i sicrhau nad oes newidiadau pellach i gynlluniau Plas Pistyll?
- Awgrym i adolygu'r Cynllun Dirprwyo fel nad yw hyn yn digwydd eto

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd yr Aelod Cabinet mai newid i amodau oedd dan sylw ac felly nid oedd y cais yn cyrraedd rhiniog cadarn. Nid cyfrifoldeb swyddogion yw adnabod materion / ceisiadau cynhennus. Aelodau lleol sydd â'r gallu i wneud hyn.

Mewn ymateb i'r sylwadau cadarnhaodd y Swyddog Monitro pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais am addasiadau i amodau, yr amodau yn unig a ddyfernir. Nodwyd bod amryw o riniogau perthnasol yn cael eu hystyried gan swyddogion cynllunio a gyda hwy mae'r cyfrifoldeb o 'alw barn'. Nid yw yn anorfod yn rhwydd creu rheolau y drefn dirprwyo o amgylch y cyfrifoldeb hyn gan fod nifer o sefyllfaoedd gwahanol tebygol.

Mewn ymateb i'r sylwadau pwysleisiodd Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd bod hanes cynllunio y cais yn hynod bwysig i'r sefyllfa gyfredol oherwydd bod hawliau cynllunio a defnyddiau twristiaeth oedd eisoes wedi eu sefydlu ar y safle yn cynnig sgôp i ddatblygwr ail ddatblygu'r safle. Ategodd nad tai oedd yn cael eu hadeiladu ar y safle ond llety gwyliau pwrpasol fyddai'n cael eu cyfyngu i ddefnydd twristiaeth. O ran cyflwyno cais i newid amodau'r cais, nododd bod ystyriaeth dwys wedi ei roi i'r cais, bod manylion cynlluniau wedi eu rhannu, bod cyfnod o ymgynghori statudol wedi ei gynnal a bod adroddiad dirprwyedig wedi ei ddarparu (fel ag y gwneir gyda pob cais). Cadarnhaodd ei fod yn gyffyrddus bod y cais wedi cael ei ymdrin a'i drafod yn briodol, bod y materion wedi eu cyfarch a'u hasesu yn gywir a bod yr argymhellion a gyflwynwyd yn rhai cadarn. Nododd nad oedd gwrthwynebiad cyhoeddus i'r addasiadau ac felly priodol oedd i'r cais gael ei benderfynu drwy'r drefn dirprwyo.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Bod y swyddogion wedi mynd tu hwnt i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig
- Bod angen i Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned cymryd mwy o gyfrifoldeb
- Rhaid cadw o fewn canllawiau

- Bod angen adolygu / newid polisïau sydd yn ymwneud â llety a tai gwyliau. A oes modd craffu hyn? I'w drafod yn y cyfarfod anffurfiol
- Roedd y cynllun gwreiddiol yn cyfeirio at fflatiau ac nid tai unigol
- Rhaid sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu gyda Cynghorau Cymuned
- Bod angen arbenigwr annibynnol i adolygu'r Cynllun Dirprwyo
- *Fundamental alteration / change* – gwahaniaeth barn / ystyr - angen diffiniad clir
- Bod angen i swyddogion gloriannu tystiolaeth wrth 'alw barn'

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr bod *'minor impact / alteration'* yn cwmpasu ystod eang o newidiadau mewn dyluniad ac mai cyfrifoldeb swyddogion cynllunio yw pwyso a mesur sgil effaith hyn.

Cynigiwyd bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn argymell derbyn cyngor cyfreithiol annibynnol gan fargyfreithiwr, o'u dewis hwy, sydd yn arbenigo ym maes amgylcheddol a maes cyfansoddiadol.

Ategodd y Swyddog Monitro, a chan fod y mater ynglŷn a dehongli a gweithredu y Cyfansoddiad bod cyngor gwrthrychol wedi ei gyflwyno ac felly nad oedd angen mynd a'r mater ymhellach. Amlygodd fod y rôl a'r cyfrifoldeb wedi ei osod arno fel Swyddog Monitro (na all Pwyllgor ei ddirprwyo na'i ddisodli) i dehongli'r Cyfansoddiad. O ran y drefn craffu, mater i'r Pwyllgor Craffu yw sut mae mynd ati i graffu, ond o ran comisiynu bar gyfreithiwr, mae'n rhaid bod yn glir beth sydd angen ei gomisiynu ac i ba pwrpas.

Mewn ymateb i'r cynnig, amlygodd y Cadeirydd nad oedd grym gan y Pwyllgor Craffu na'r adnoddau uniongyrchol i gynnal archwiliad, ond byddai hawl gofyn i'r Aelod Cabinet Amgylchedd gomisiynu adroddiad annibynnol fyddai yn cynnwys canfyddiad positif i'r cyhoedd fel bod gwersi yn cael eu dysgu.

Cynigiwyd ac eiliwyd derbyn yr adroddiad, ond bod angen gwybodaeth bellach ynglyn a diffiniadau clir o beth yw newidiadau.

Nododd y Swyddog Monitro bod modd adolygu / addasu y drefn dirwprwo ac os oes angen, edrych ymhellach i'r rhiniogau penodol drwy gloriannu'r wybodaeth.

Cynigiwyd gwelliant bod angen bargyfreithiwr i edrych ar y sefyllfa yn annibynnol.

Ail eglurodd y Swyddog Monitro, ei fod yn amhriodol i ofyn am gyngor bargyfreithiwr gan mai ei gyfrifoldeb ef yw rhoi barn ar y broses gyfansoddiadol.

Ni eiliwyd ac ni chaniatawyd y gwelliant ar y cynnig.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol. Disgynnodd y cynnig.

Derbyniodd y Cadeirydd y cynnig a eiliwyd i wneud cais am adroddiad pellach ar y Cynllun Dirprwyo fyddai'n rhoi ystyriaeth i'r materion sylfaenol, y rhiniogau ar gyfer derbyn cais newid amodau, y rhiniogau'r cynllun dirprwyo a chyflwyno i'r Pwyllgor nesaf. Awgrymwyd bod Pennaeth yr Amgylchedd, Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu adroddiad ar y cyd fyddai'n ymateb i sylwadau'r Aelodau ynghyd a ystyried gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Mewn sylw o gyfeirio y mater at yr Ombwdsman, nodwyd mai cwynwyr yn unig all fynd â'r mater at yr ombwdsman os oes annhegwch personol wedi ei wneud (ac o fewn amserlen briodol). Ategwyd ni all Cynghorwyr gwyno am eu Cyngor eu hunain.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ohirio'r drafodaeth a chael diweddariad o'r adroddiad i'r cyfarfod nesaf am ail ystyriaeth. Gwnaed cais i'r adroddiad adlewyrchu pryderon yr aelodau, sylwadau'r swyddogion, tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Gruffydd Williams ynghyd a ffordd ymlaen i herio y polisïau perthnasol.

**PENDERFYNWYD gohirio'r mater i gyfarfod Chwefror 7fed 2019 a derbyn adroddiad pellach fyddai'n cyfarch materion y drafodaeth uchod.**

## 8. STAD MANDDALIADAU CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Eiddo yn manylu ar egwyddorion rheoli stad man ddaliadau y Cyngor. Nodwyd, yn 2008, bod adolygiad cynhwysfawr wedi ei gynnal i edrych ar bwrpas y stad, ei pherfformiad ariannol a'r trefniadau rheoli. Gyda degawd wedi mynd heibio ers yr adolygiad, ystyriwyd mai amserol fyddai ail ymweld a'r maes a chadarnhau'r rhesymeg sydd yn cefnogi pwysigrwydd parhau i ddarparu man ddaliadau yn y Sir.

Adroddwyd bod swyddog o fewn yr Uned Stadau wedi ei rhyddhau i gynorthwyo gyda gwaith rheoli man ddaliadau'r Cyngor sydd wedi galluogi'r uned i roi mwy o sylw i faterion ynglŷn a chynyddu incwm rent a delio gyda nifer o faterion cytundebol oedd yn disgwyl sylw. Ategwyd mai trefniant dros dro yn unig oedd yr adnodd a'i fod ar draul perfformiad ym meysydd gwaith eraill yr Uned Stadau.

Atgoffwyd yr aelodau mai Aelod Cabinet Amgylchedd sydd ar cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau gweithredol rheoli man ddaliadau gyda phaneli ymgynghori wedi eu sefydlu i gynorthwyo gyda materion megis gosod daliadau gwag neu ddirwyn tenantiaethau i ben. Amlygwyd bod panel ar gyfer Meirionnydd a phanel ar gyfer Dwyfor.

Nodwyd bod sefyllfa ariannol y stad wedi newid yn sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf a bellach bod y stâd yn hunangynhaliol - yn creu incwm i'r Cyngor uwchlaw costau rhedeg. Ategwyd pe byddai dymuniad i ail fuddsoddi yn y stad byddai hynny yn arwain at yr angen i ddarganfod arbediad cyfwerth mewn maes arall. Pe byddai'r incwm yn

cynyddu yn y dyfodol (drwy adolygiadau rhent neu drosglwyddo i delerau newydd o dan y cytundebau modern) gellid ystyried clustnodi'r swm ychwanegol i'w ail fuddsoddi yn y stad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelodau unigol:

- Bod yr adroddiad / diweddariad hir ddisgwyliedig i'w groesawu
- Bod man ddaliadau yn cyfrannu at gadw pobl ifanc yn ein cymunedau gwledig gan roi cyfle iddynt weithio yn y byd amaeth
- Awgrym i gadw yr adnodd staff a chadw'r elw fel bod gwariant yn cael ei ail fuddsoddi ar welliannau. Rhai o'r tai mewn cyflwr difrifol.
- Ystyried targedu rhai o'r tai sydd angen llawer o waith gwella
- Awgrym i sefydlu un panel ar draws y Sir gan sicrhau arbenigedd amaethyddol
- Os oes cais i'r tenant fuddsoddi yn yr adeiladau rhaid rhoi mwy o sicrwydd na 5 mlynedd i'r tenant
- Awgrym i osod y tiroedd
- Bod angen cytuno cylch gorchwyl a chynnal trafodaethau i flaenoriaethu gwariant
- Awgrym i sefydlu cwmni hyd braich i ddenu arian cyfalaf / grant fel ffordd ymlaen i wella a moderneiddio safonau. Nid yw rheoli man ddaliadau yn ofyn statudol ac felly mae sicrhau bod y stad yn hunangynhaliol yn hanfodol.
- Gyda gosod ymddeoliad oed pendant o 65 rhaid adolygu'r cymal yma fel bod modd sicrhau bod y tenant yn cael cyfle i wneud cynllun busnes a chyd-fynd gyda gofynion cyfreithiol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a chanllawiau caeth ar gyfer gofynion statudol safonau tai, nodwyd bod cyfrifoldeb statudol ar yr adran eiddo i gwrdd âr gofynion hyn. Ategwyd mai un ffynhonnell cynnal a chadw sydd gan y Cyngor ac anodd yw blaenoriaethu'r angen. Nodwyd bod yr uned yn cwrdd a'r 'addas a phriodol' ond dim a'r adnodd i godi safonau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sicrhau olyniaeth / etifeddiaeth, amlygwyd bod polisi cefnogi olyniaeth yn cael ei ystyried

Cynigiwyd ac eiliwyd i sefydlu un panel ar draws y sir gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach gyda'r bwriad, yn y tymor hwy, i ystyried cwmni hyd braich hyfyw. Ategwyd yr angen i gadw yr adnodd staff dros dro a bod unrhyw elw, sydd tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei glustnodi, yn cael ei fuddsoddi yn y stad.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD**

- **Sefydlu un panel ar draws y Sir gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach**
- **Ystyried sefydlu cwmni hyd braich yn y tymor hwy.**
- **Cadw yr adnodd staff dros dro**
- **Unrhyw elw, tu hwnt i'r ffigwr sydd wedi ei glustnodi, yn cael eu ail fuddsoddi yn y stad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 13:50pm

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 7fed Chwefror 2019 |
| **TEITL** | Gweithredu is-ddeddfau Draenio Tir |
| **AWDUR** | Rhydian Roberts |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth Griffith |
| **PWRPAS** | Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried cymeradwyo is-ddeddfau i'w mabwysiadu gan y Cyngor Llawn. |

**1.0 Cefndir a pwrpas.**

1.3 O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, cafodd cynghorau yng Nghymru bwerau a chyfrifoldebau ychwanegol i reoli llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a dyfrffosydd cyffredin. Yn rhan o'r pwerau newydd yma, cafodd y cyfrifoldeb dros roi caniatâd ar gyfer dyfrffosydd cyffredin o dan adran 23 Deddf Draenio Tir 1991 ei drosglwyddo o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r Prif Awdurdodau Atal Llifogydd fis Ebrill 2012.

Ers cael y ddyletswydd yma i roi caniatâd a rheoli perygl llifogydd yn ehangach, mae ymarferwyr wedi nodi mai prin yw'r pwerau o dan y ddeddfwriaeth bresennol ac y gallai rhai gweithgareddau penodol nad oes angen caniatâd ar eu cyfer ar hyn o bryd gynyddu'r perygl o lifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol. Felly, aethpwyd ati i greu Cylch Gorchwyl a Gorffen yn 2013 i oruchwylio adolygiad o is-ddeddfau i geisio creu cyfres newydd i helpu'r awdurdodau atal llifogydd yng Nghymru i reoli gweithgareddau ar hyd dyfrffosydd cyffredin yn fwy effeithiol ac yn fwy cyson.

Mae'r is-ddeddfau newydd ynghlwm, ac yn cynnwys 16 o is-ddeddfau unigol wedi'u cynllunio i ategu a gweithio ochr yn ochr â'r fframwaith rheoleiddio presennol a ddarparwyd o dan Deddf Draenio Tir 1991 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mae'r gyfres gyflawn yn cynnwys 7 adran, wedi eu dosbarthu ond o dan 4 penawd penodol, sef:

- Rheoli dŵr newydd ac unrhyw gynnydd yn y llif neu'r cyfaint
- Perygl ynglŷn â rhwystro dŵr rhag llifo
- Gofalu bod glannau dyfrffos yn cael eu cynnal
- Gofynion ychwanegol

Mae'r is-ddeddfau hyn wedi'u paratoi gan ymarferwyr profiadol yn dilyn ymgynghoriad helaeth â CNC ynghyd a gwahanol adrannau awdurdodau lleol ar draws y wlad. Bwriad y Llywodraeth yw i Awdurdodau Lleol Cymru eu mabwysiadu yn eu ffurf gwreiddiol er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r wlad.

**2.0 Y drefn mabwysiadu.**

2.1 Mae Adran 66 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn caniatáu i Awdurdodau Lleol fabwysiadu is-ddeddfau lleol i reoli gweithgareddau yn ymwneud a draenio tir a llifogydd.

2.2 Fel rhan o'r broses cafwyd pedair wythnos o gyfnod ymgynhori cyhoeddus, rhwng 15fed o Dachwedd a 13eg o Ragfyr 2018, pan gafodd drafft o'r is-ddeddfau eu harddangos i'r cyhoedd ar safle we y Cyngor, a rhybuddion eu cyhoeddi yn y wasg yn cyfeirio at lle i ddod o hyd i gopiau drafft a sut i fyny ati i gynnig sylwadau ar gynnwys yr is-ddeddfau.

2.3 Ni dderbyniwyd unryw sylwadau gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori, nac ychwaith ar unryw adeg arall.

2.4 Y gobaith ydi i'r Pwyllgor Craffu asesu'r is-ddeddfau a'i pasio mlaen i'r Cyngor llawn gytuno i'w mabwysiadu'n ffurfiol. Wedi hyn bydd angen i'r Cyngor gadarnhau efo Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru fod Gwynedd wedi mabwysiadu'r is-ddeddfau.

2.5 Mae Swyddog Monitro'r Cyngor wedi cadarnhau mai'r Cyngor Llawn sydd gan yr hawl i gadarnhau mabwysiadu is-ddeddfau.

**3.0 Y budd i drigolion Gwynedd.**

3.1 Prif ddiben yr is-ddeddfau newydd yw helpu'r prif awdurdodau atal llifogydd i fynd i'r afael â'r perygl mwyaf difrifol o lifogydd lleol drwy reoli'n well. Fodd bynnag, drwy addasu sut maen nhw wedi'u geirio a pha weithgareddau sydd o dan sylw, gall yr is-ddeddfau yma fod o les i'r amgylchedd yn gyffredinol. Drwy wneud hynny, bydd o fudd i feysydd gwaith eraill ym myd llywodraeth leol ac yn helpu i wireddu amcancanion deddfau eraill gan gynnwys Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb y Cynefinoedd.

Yn y pen draw, bydd y dull cyfannol yma o reoli perygl llifogydd drwy ddefnyddio'r is-ddeddfau draenio tir yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn helpu'r prif awdurdodau atal llifogydd i gyflawni eu hamcanion, yn ogystal a hyn byddai mabwysiadau'r is-ddeddfau yn cydymffurfio efo Cynllun Strategol Cydraddoldeb y Cyngor.

**4.0 Oblygiadau staffio'r Cyngor.**

4.1 Ni fydd mabwysiadu'r is-ddeddfau yn cael effaith ar lefel staffio presennol. Yr uned Dŵr ac Amgylchedd fydd yn gweithredu'r is-ddeddfau i'r dyfodol pe bai'r Cyngor yn cytuno i'r mabwysiadu.

***Is-ddeddfau Draenio Tir (Cyngor Gwynedd) 2019***

# Cynnwys


**Pennod I – Gweinyddu** ..... 2

**1. Dyfynnu a dechrau** ..... 2

**2. Defnyddio'r is-ddeddfau** ..... 2

**3. Diffinio a dehongli** ..... 2

**4. Achosi trosedd neu adael iddo ddigwydd yn fwriadol** ..... 4

**Pennod II – Rheoli dŵr newydd neu unrhyw gynnydd yn y llif neu'r cyfaint** ..... 4

**5. Rheoli dŵr newydd, newid llif a chyfaint y dŵr** ..... 4

**6. Ymyrryd â llifddorau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r llanw** ..... 4

**7. Defnyddio dyfrffos neu weithfa rheoli'r llanw** ..... 5

**8. Arllwysfeydd llanwol** ..... 5

**Pennod III – Perygl ynglŷn â rhwystro dŵr rhag llifo** ..... 5

**9. Cynnal a chadw glannau dyfrffosydd a thir sy'n agored i lifogydd** ..... 5

**10. Gosod adeiladau, pibellau ac ati ar dir sy'n agored i lifogydd** ..... 6

**11. Atgyweirio adeiladau a phethau eraill** ..... 6

**Pennod IV – Gofalu bod glannau dyfrffos mewn cyflwr da** ..... 7

**12. Planhigion** ..... 7

**13. Gyrru anifeiliaid a cherbydau** ..... 7

**14. Difrod gan anifeiliaid sy'n pori** ..... 7

**Pennod V – Gofynion ychwanegol** ..... 7

**15. Rheoli anifeiliaid** ..... 7

**16. Ymyrryd â swyddogaethau'r awdurdod lleol neu'r bwrdd draenio mewnol** ..... 7

**Pennod VI – Eithriadau** ..... 8

**17. Gwaith mewn argyfwng** ..... 8

**18. Datblygu cyffredinol a ganiateir** ..... 8

**19. Ysgolion a thyrrau sgaffaldwaith** ..... 8

**Pennod VII – Amodau amrywiol eraill** ..... 8

**20. Dirwyon** ..... 8

## *Is-ddeddfau Draenio Tir (Cyngor Gwynedd) 2019*

**Trwy'r pwerau a'r awdurdod sydd wedi'u rhoi iddo yn ôl adran 66 Deddf Draenio Tir 1991, mae Cyngor Gwynedd yn sefydlu'r is-ddeddfau canlynol am ei fod o'r farn y bydd eu hangen ar gyfer un o'r dibenion isod neu ragor:**

**a) gofalu bod y draenio tir yn effeithlon yn ardal y cyngor;**

**b) cadw trefn ar effeithiau amgylcheddol draenio tir yn ardal y cyngor;**

**c) gofalu bod trefniadau rheoli perygl llifogydd yn effeithiol yn ôl adran 14A y ddeddf honno;**

**ch) gofalu bod gwaith sydd wedi'i wneud yn ôl adran 38 neu 39 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (llifogydd cysylltiedig neu erydu arfordirol) yn effeithiol.**

---

# Pennod I - Gweinyddu

### 1. Dyfynnu a dechrau

Mae'r is-ddeddfau hyn wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths. Is-ddeddfau Draenio Tir 2017 Cyngor Gwynedd yw eu henw. Byddan nhw'n dechrau ar 1af Ebrill 2019.

### 2. Defnyddio'r is-ddeddfau

Mae'r is-ddeddfau hyn yn berthnasol i ddyfrffosydd cyffredinol yn ardal yr awdurdod lleol sydd wedi'u llunio neu mewn ardal sydd o dan reolaeth y bwrdd draenio mewnol.

### 3. Diffinio a dehongli

Oni ddiffinnir isod neu mewn cyd-destun ar wahân, bydd ystyr geirfa'r is-ddeddfau hyn yr un fath â geirfa Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf Draenio Tir 1991, Deddf Amgylchedd Cymru 2016 a Deddf Dehongli 1978.

Yn yr is-ddeddfau hyn:

Bydd ystyr 'glan', 'draenio', 'corff draenio', 'Bwrdd Draenio Mewnol', 'tir', 'awdurdod lleol' a 'dyfrffos cyffredinol' fel sydd wedi'i diffinio yn Neddf Draenio Tir 1991.

**'y ddeddf'** = Deddf Draenio Tir 1991

**'anifail'** = unrhyw anifail megis adar, ceffylau, gwartheg, defaid, ceirw, geifr, moch, gwyddau neu ieir ond nid pysgod na phobl;

**'pellter yr is-ddeddfau'** = unrhyw dir sy'n ymestyn o lan dyfrffos (o'i fesur yn llorweddol) fel a ganlyn:

(i) lle mae mur neu glawdd, 8 medr o'r terfyn sydd tua'r tir;

(ii) mewn achosion eraill, 8 medr o ben glan y ddyfrffos;

(iii) unrhyw dir sy'n ymestyn 8 medr yn llorweddol o derfyn allanol ceuffos (i'w fesur oddi wrth ran ehangaf y geuffos honno).

**'adeilad'** = unrhyw beth sydd wedi'i adeiladu neu ei osod ac unrhyw ran ohono heb gynnwys offer neu beiriannau sydd ynddo. Mae'n cynnwys ffensys, pyst, peilonau, muriau, glanfeydd, pontydd, llwyfannau llwytho, polion, pontynau, rhagfuriau ac unrhyw beiriant neu ddyfais fecanyddol; unrhyw estyllod, ffugwaith, sgaffaldwaith neu unrhyw beth arall sydd wedi'i lunio neu'n cael ei ddefnyddio i ddibenion cynnal neu fynediad yn ystod gwaith adeiladu. Bydd unrhyw gyfeiriad at adeilad yn cynnwys rhan o adeilad, hefyd.

**'caniatâd yr awdurdod'** = caniatâd ysgrifenedig rhywun a chanddo statws i'w roi o flaen llaw ar ran yr awdurdod naill ai trwy ebost neu ddogfen ffurfiol, gan gynnwys unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod hwnnw.

**'ceuffos'** = sianel gaeëdig ar gyfer dŵr ynghyd ag unrhyw adeilad sy'n rhan ohoni megis wal y pen, gollyngfa a sgrîn hidlo sbwriel.

**'clawdd'** = twmpath naturiol/gwneud neu unrhyw amddiffynfa arall sydd wedi'i chodi.

**'gwaith amddiffyn rhag llifogydd'** = adeiladau a gwaith amddiffyn arall rhag llifogydd y môr, yr afonydd a'r glaw gan gynnwys muriau, clwydi, cloddiau neu ffosydd lliniaru a godwyd neu a ddefnyddir i'r dibenion hynny yn ogystal â thwyni tywod naturiol neu wneud, waliau cadw pridd a muriau a godwyd neu a ddefnyddir i ddiogelu'r tir rhag llifogydd o ganlyniad i lefel uwch dŵr.

**'sustem rhybuddio am lifogydd'** = unrhyw beth mae'r awdurdod yn ei ddefnyddio i hel neu gyflwyno gwybodaeth am lifogydd.

**'tir sy'n agored i lifogydd'** = tir y bydd dŵr dyfrffosydd yn llifo drosto pan fo llifogydd – gan gynnwys ardaloedd lle mae dŵr wedi'i gadw yn ystod llifogydd.

**'rhwydi'** = diffiniadau fel a ganlyn:

(a) rhwyd ffyn, rhwyd fag neu rwyd gadw;

(b) pob rhwyd sydd wedi'i rhwymo'n dynn trwy angorau a phob rhwyd a dyfais bysgota arall sydd wedi'i rhwymo i'r pridd neu'n sefyll yn ei hunfan trwy ei gosod yno;

(c) pob rhwyd mae'i pherchennog neu rywun arall a chanddo awdurdod y perchennog wedi'i gadael mewn dyfroedd arfordirol neu fewnol ar gyfer pysgota yn ogystal â phob injan, dyfais, peiriant neu declyn (boed ar wyneb y dŵr neu fel arall) ar gyfer gosod neu ddal rhwyd o'r fath, ei chadw ar waith neu ei chadw yn ei hunfan.

**'trigolyn'** = tenant, daliwr trwydded neu unrhyw un arall sydd ar dir neu sydd â hawl i fod yno.

**'pethau neu sylweddau'** = unrhyw beth naturiol neu wneud (boed hylif neu solid) megis coed, gwreiddiau coed, canghennau, pren, tuniau, poteli, bocsys, teiars, briciau, cerrig, pridd, weiren a sbwriel.

**'perchennog'** = perchennog ystâd yn ôl dehongliad y gyfraith, gan gynnwys trigolyn lle nad yw'r perchennog yno.

**'rhywun'** = gan gynnwys nifer o bobl (boed gorfforaeth neu beidio) lle bo'n briodol.

**'amddiffynfa rhag y môr'** = unrhyw amddiffynfa wneud neu naturiol rhag dyfroedd y môr megis ucheldir gwneud neu naturiol (gan gynnwys twyni tywod a chlogwyni) ac unrhyw beth a godwyd neu a ddefnyddir rhag llifogydd y môr neu ddyfroedd y llanw neu ar gyfer gwagio dyfrffosydd yn ddigonol ac eithrio amddiffynfa forwrol mae awdurdod amddiffyn arfordirol, awdurdod lleol, porthladd llywio neu awdurdod cadwraeth yn berchen arni neu'n ei rheoli.

**'gwaith rheoli'r llanw'** = fflodiart, loc, llifddor neu unrhyw beth arall sydd wedi'i osod neu'i godi ar gyfer amddiffyn tir rhag llifogydd y môr neu ddyfroedd y llanw.

**'planhigion'** = coed, helyg, llwyni, chwyn, gweiriau, cawn, hesg neu dyfiant arall.

**'llong'** = pob llong, cwch a bad sydd ar y môr gan gynnwys hofranlongau a drylliau.

**'dyfrffos'** = pob afon, ffrwd, ffos, sianel a ffordd arall mae dŵr yn llifo trwyddi gan gynnwys sianel unrhyw ddyfrffos sy'n sych am y tro ond heb gynnwys carthffosydd cyhoeddus yn ôl diffiniadau Deddf Diwydiant Dŵr 1991.

**'glan dyfrffos'** = pob glan, wal, rhagfur neu glawdd sy'n cysylltu â dyfrffos neu'n ei chau – i'w mesur rhwng pen a gwaelod y rhan lethrog neu unionsyth.

**'gwaelod dyfrffos'** = tir y bydd dŵr yn llifo drosto fel arfer am ei fod yn rhan o ddyfrffos.

**'adeilad rheoli dŵr'** = rhywbeth sy'n gadael i ddŵr lifo i ddyfrffos, yn rheoli'r llif neu'n effeithio arno megis llifddor, arafwr, fflodiart, loc, cored, pwmp neu beiriant pwmpio.

### 4. Achosi trosedd neu adael iddo ddigwydd yn fwriadol

Ynglŷn ag unrhyw weithred sydd wedi'i gwahardd neu ei chyfyngu trwy'r is-ddeddfau hyn – bydd pawb sydd wedi'i chyflawni, achosi hynny neu adael iddo ddigwydd yn fwriadol yr un mor euog o drosedd.

---

## Pennod II – Rheoli dŵr newydd ac unrhyw gynnydd yn y llif neu'r cyfaint

### 5. Rheoli dŵr newydd, newid llif a chyfaint y dŵr

**(1)** Heb effeithio ar adrannau 23 a 25 Deddf Draenio Tir 1991, chaiff neb wneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod:
- (a) cau dyfrffos;
- (b) gwyro;
- (c) rhwystro; neu
- (ch) newid;

lefel neu gyfeiriad llif y dŵr i ddyfrffos, trwyddi neu allan ohoni.

**(2)** Yn yr is-ddeddf hon, ystyr 'newid' yw creu neu estyn dyfrffos a dod â dŵr sy'n cynyddu llif neu gyfaint y dŵr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn unrhyw ddyfrffos yn ardal yr awdurdod lleol.

**(3)**Yn yr is-ddeddf hon, ystyr 'rhwystro' yw cau neu lenwi sianel dyfrffos ac achosi tagfa dŵr o dan bwa, pont neu sarn mewn unrhyw ddyfrffos neu ar dir sy'n agored i lifogydd.

### 6. Ymyrryd â llifddorau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r llanw

**(1)** Chaiff neb ddefnyddio llifddor, fflodiart, amddiffynfa rhag llifogydd/llanw neu unrhyw ffordd arall o reoli, trefnu a monitro llif y dŵr i ddyfrffos gyffredinol, trwyddi neu allan ohoni heb ganiatâd yr awdurdod.

**(2)** Yn yr is-ddeddf hon, ystyr 'ymyrryd' yw tynnu, difrodi neu symud deunyddiau sy'n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd neu'r llanw.

### 7. Defnyddio dyfrffos neu waith rheoli'r llanw

Rhaid i rywun sy'n rheoli:

(a) llifddor neu fflodiart; neu
(b) unrhyw ffordd arall o reoli, trefnu neu newid llif y dŵr i ddyfrffos, trwyddi neu allan ohoni

ddefnyddio, cynnal a chadw'r adeilad neu'r cyfarpar hwnnw mewn cyflwr priodol ac effeithlon er mwyn:

(a) osgoi llifogydd neu unrhyw brinder yn llif neu gyflenwad y dŵr; a
(b) gofalu bod sustem draenio'r tir yn ardal (yr awdurdod lleol/y bwrdd draenio mewnol) yn gweithio'n effeithlon.

### 8. Arllwysfeydd llanwol

Chaiff neb ddodi na gadael ar flaen traeth unrhyw beth, sylwedd neu blanhigyn a allai beri'r canlynol yn syth neu o ganlyniad i'r llanw:

(a) rhwystro dŵr rhag llifo trwy lifddor, fflodiart, pibellau arllwysfa, llethrau llanwol neu ddyfrffosydd blaen traeth o'r fath neu fod yn debygol o wneud hynny;
(b) rhwystro llifddorau, fflodiardau neu bibellau arllwysfa o'r fath rhag gweithio neu fod yn debygol o wneud hynny;
(c) difrodi llifddorau, fflodiardau neu bibellau arllwysfa o'r fath neu fod yn debygol o wneud hynny.

---

## Pennod III – Perygl ynglŷn â rhwystro dŵr rhag llifo

### 9. Cynnal a chadw glannau dyfrffosydd a thir sy'n agored i lifogydd

**(1)** Chaiff neb heb ganiatâd yr awdurdod blannu coeden, gadael neu gadw unrhyw beth neu sylwedd, cynnau tân nac ymyrryd â gwaelod a glannau dyfrffos o fewn pellter yr is-ddeddfau hyn mewn modd sy'n debygol o wneud y canlynol:

(a) achosi llifogydd;
(b) rhwystro dŵr rhag llifo;
(c) difrodi ceuffos, glan dyfrffos, gwaith rheoli dyfrffos, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr;
(ch) peryglu sefydlogrwydd y rheiny;
(d) effeithio ar eu ffordd o weithio.

**(2)** Yn yr is-ddeddf hon:

Ystyr 'ymyrryd yw codi, tynnu, difrodi neu symud deunyddiau sy'n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd/llanw neu waelod/glan dyfrffos yn ogystal â chloddi tir neu wneud unrhyw beth arno a/neu ynddo allai ddifrodi gwaelod/glannau dyfrffos.

Ystyr ‘cynnau tân’ yw gwneud unrhyw beth a allai achosi tân ar dir wrth ymyl dyfrffos, lle y gallai losgi mawn yng nglannau’r ddyfrffos neu losgi unrhyw blanhigion sy’n tyfu ar dir sy’n rhan o’r glannau hynny.

Ystyr ‘cadw unrhyw beth neu sylwedd’ yw gadael, pentyrru neu gadw pethau hylifol a solid gan gynnwys planhigion a thoriadau planhigion.

Mae ‘pethau’ yn cynnwys llongau a chychod, hefyd.

## 10. Gosod adeiladau, pibellau ac ati ar dir sy’n agored i lifogydd

**(1)** Chaiff neb wneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod:

(a) codi neu adeiladu unrhyw beth:

(i) mewn dyfrffos, arni, o dani neu drosti nac yng nglan/ar lan dyfrffos;

(ii) o fewn pellter yr is-ddeddfau;

(iii) ar waith rheoli dyfrffos, amddiffynfa rhag llifogydd, gwaith rheoli’r llanw neu amddiffynfa rhag y môr;

(iv) dros unrhyw ran o geuffos neu o fewn pellter yr is-ddeddfau ar bob ochr iddi;

(b) cloddi neu osod twnnel, draen, ceuffos neu unrhyw ffordd arall ar gyfer dŵr mewn dyfrffos, arni, o dani neu drosti nac yng nglan/ar lan dyfrffos;

mewn modd neu am gyfnod fydd yn difrodi gwaelod/glannau dyfrffos neu rwystro dŵr rhag llifo iddi, trwyddi neu allan ohoni.

**(2)** Fydd yr is-ddeddf hon ddim yn berthnasol i unrhyw waith dros dro yn ystod argyfwng.

**(3)** Yn yr is-ddeddf hon:

Ystyr ‘argyfwng’ yw sefyllfa sy’n peryglu bywydau neu eiddo.

## 11. Atgyweirio adeiladau a phethau eraill

Bydd rhywun a chanddo o dan ei reolaeth adeilad, ffens, mur ac ati mewn dyfrffos, ceuffos, glan dyfrffos, gwaith rheoli llifogydd, gwaith rheoli’r llanw, amddiffynfa rhag y llanw neu’r môr (yn ogystal ag arni, o dani neu drosti) yn eu cadw mewn cyflwr da fel na fydd yn achosi’r canlynol:

(a) rhwystro’r dŵr rhag llifo i ddyfrffos, trwyddi neu allan ohoni;
(b) difrodi glan dyfrffos, gwaith amddiffyn rhag llifogydd, gwaith rheoli’r llanw neu amddiffynfa rhag y môr;
(c) peryglu gweithwyr (yr awdurdod lleol/y bwrdd draenio mewnol) neu eu rhwystro rhag diogelu ardal rhag llifogydd.

---

# Pennod IV – Gofalu bod glannau dyfrffos mewn cyflwr da

## 12. Planhigion

Bydd perchennog neu drigolyn tir mae dyfrffos yn llifo trwyddo, tir lle mae amddiffynfa rhag y môr neu dir mae angen i weithwyr yr awdurdod lleol neu'r bwrdd draenio mewnol ei groesi er mwyn cyrraedd mannau o'r fath yn cadw trefn ar y planhigion yn ôl pellter yr is-ddeddfau ac yn symud y cyfryw blanhigion o'r ddyfrffos neu ei glannau yn syth ar ôl eu torri fel na fyddan nhw'n rhwystro llif y ddyfrffos.

## 13. Gyrru anifeiliaid a cherbydau

Chaiff neb ddefnyddio na gyrru trol/cerbyd ar, tros neu ar hyd gwaith rheoli dyfrffos, gwaith diogelu rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr mewn modd a allai ddifrodi'r mannau hynny.

## 14. Difrod gan anifeiliaid sy'n pori

Chaiff neb gadw anifeiliaid, rhoi dŵr iddyn nhw na gadael iddyn nhw bori ar ddyfrffos, glan neu waelod dyfrffos, gwaith diogelu rhag llifogydd neu amddiffynfa rhag y môr heb:

(a) gwneud popeth priodol i osgoi difrodi'r mannau hynny;
(b) rhoi gwybod i'r awdurdod lleol neu'r bwrdd draenio mewnol cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ddifrod o ganlyniad i gadw anifeiliaid, rhoi dŵr iddyn nhw neu adael iddyn nhw bori yno.

---

# Pennod V – Gofynion ychwanegol

## 15. Rheoli anifeiliaid

Bydd perchennog neu drigolyn tir mae dyfrffos yn llifo trwyddo, tir lle mae amddiffynfa rhag y môr neu dir mae angen i weithwyr yr awdurdod lleol neu'r bwrdd draenio mewnol ei groesi er mwyn cyrraedd mannau o'r fath yn gofalu y bydd anifeiliaid o dan reolaeth briodol yn ystod unrhyw weithio neu archwilio yno. Os nad oes modd eu cadw o dan reolaeth briodol i'r diben hwnnw, rhaid gofalu na fyddan nhw yno dros gyfnod y gweithio neu'r archwilio.

## 16. Ymyrryd â swyddogaethau'r awdurdod lleol neu'r bwrdd draenio mewnol

Chaiff neb ymyrryd â'r canlynol:

(a) mynediad i unrhyw dir y bydd angen i weithwyr neu asiantau'r awdurdod lleol neu'r bwrdd draenio mewnol ei groesi ar gyfer rheoli llifogydd;
(b) gweithwyr neu asiantau o'r fath wrth gyflawni eu gorchwylion.

---

# Pennod VI – Eithriadau

## 17. Gwaith mewn argyfwng

Fydd yr is-ddeddfau hyn ddim yn berthnasol i unrhyw waith i'w gyflawni mewn argyfwng. Fe fydd rhywun sydd wedi'i eithrio i'r perwyl hwnnw yn rhoi gwybod i'r cyngor trwy lythyr cyn gynted ag y bo modd am natur ac amgylchiadau'r gwaith, yn ogystal â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol y gallai'r cyngor eu rhoi iddo yn sgîl hynny.

## 18. Datblygu cyffredinol a ganiateir

Fydd yr is-ddeddfau hyn ddim yn berthnasol i unrhyw ddatblygu gan gorff draenio mewn, ar neu o dan ddyfrffos neu waith draenio tir ar gyfer gwella, cynnal neu atgyweirio dyfrffos neu waith o'r fath.

## 19. Ysgolion a thyrrau sgaffaldwaith

(1) Fydd yr is-ddeddfau hyn ddim yn berthnasol i waith lle y bydd angen codi ysgol neu dwr sgaffaldwaith ('cyfarpar').

(2) I ddibenion y paragraff hwn, dyma'r amodau penodol:
- (a) rhaid i'r adeiladwr asesu cyflwr yr afon bob diwrnod gwaith;
- (b) rhaid codi'r cyfarpar bob diwrnod gwaith y bydd angen ei ddefnyddio;
- (c) rhaid symud y cyfarpar ddiwedd pob diwrnod gwaith a'i gadw y tu hwnt i'r afon a'i glannau.

---

# Pennod VII – Amodau amrywiol eraill

## 20. Dirwyon

Yn ôl adran 66(6) y ddeddf, gallai fod rhaid i bawb sydd wedi'i gael yn euog o weithredu'n groes i'r is-ddeddfau hyn neu fethu â chydymffurfio â nhw dalu am bob trosedd ddirwy heb fod dros yr hyn a bennir o bryd i'w gilydd ynglŷn â lefel 5 (£5,000) ar y raddfa sydd wedi'i chrybwyll yn adran 37 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982, yn ogystal â dirwy ychwanegol heb fod dros £40 am bob diwrnod y parhaodd y troseddu neu'r methu ar ôl ei gael yn euog.

Yn ôl adran 66(7) y ddeddf, os yw rhywun wedi gweithredu'n groes i'r is-ddeddfau hyn neu fethu â chydymffurfio â nhw, caiff y cyngor (heb effeithio ar unrhyw weithdrefn sy'n mynd rhagddi yn ôl adran 66(6) y ddeddf) wneud unrhyw beth y bydd ei angen i gywiro effaith y troseddu neu'r methu yn ogystal â mynnu i'r sawl o dan sylw dalu costau rhesymol sydd wedi deillio o hynny.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **7fed Chwefror 2019** |
| **Teitl** | **Strategaeth Toiledau Lleol** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Awdur** | **Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol Dros Dro** |
| **Pwrpas** | **I godi ymwybyddiaeth ac i roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor i graffu'r Drafft Strategaeth Toiledau Lleol a cynnig unrhyw adborth cyn mynd gerbron y Cabinet.** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Pwrpas y papur yma ydi diweddaru'r Pwyllgor ar effaith y toriadau ar doiledau cyhoeddus a chynlluniau i'r dyfodol drwy codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Pwyllgor Craffu o ddatblygiad y strategaeth arfaethedig, ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei graffu a'i fabwysiadu a chyhoeddi erbyn 31 Mai 2019.

1.2 Yn dilyn penderfyniad Her Gwynedd ac ers yr adroddiad a gyflwynwyd ar y 27 Mehefin 2017 i gyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu'r cynllun Partneriaethu gyda Chynghorau Cymuned a Thref mae'r Cyngor wedi llwyddo i gadw hyd at 63 o doiledau ar agor yn y Sir. Mae 34 Cyngor Cymuned a Thref bellach wedi ymrwymo i'r Cynllun Partneriaethu sydd yn galonogol ac yn enghraifft o gydweithio er budd trigolion Gwynedd.

Yn ogystal, mae gan y sir ddarpariaeth o 35 doiledau cymunedol sydd yn rhan o Gynllun Grant Toiledau Cymunedol. Mae'n galonogol iawn bod cynifer o gynghorau cymuned a thref wedi bod yn rhan o'r Cynllun Partneriaethu am y ddwy flynedd ddiwethaf i sicrhau bod y ddarpariaeth briodol ar gael yn eu cymunedau.

1.3 O ystyried fod y cynllun wedi bod yn gadarnhaol, ac er mwyn cael sefydlogrwydd a threfniadau effeithlon, mae'r Cyngor yn gofyn i Gynghorau Cymuned a Thref ymrwymo am ddwy flynedd nesaf (2019-20 a 2020-21).

**2.0 STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL**

2.1 Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn dod ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer

gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

2.2 Nod Rhan 8 yw gwella’r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei chynllunio, drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac yna’n defnyddio dull strategol a thryloyw o ddiwallu’r angen hwnnw yn y modd gorau posibl.

2.3 Mae’r broses o ddatblygu’r strategaeth wedi’i gwneud yn bosib i ni ystyried opsiynau ehangach sydd ar gael o ran darparu toiledau i’r cyhoedd. Gallai sut a ddarperir amrywio o doiledau cyhoeddus traddodiadol i atebion newydd. Bwriad hynny yw mynd i’r afael â’r heriau presennol sy’n ymwneud â darparu’r cyfleusterau mewn cymunedau, a hynny gyda lleihad difrifol yng nghyllideb y gwasanaeth.

**3.0 AMSERLEN**

3.1 Fel y nodir uchod, mae rhan 8 o’r Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Nodir y camau allweddol ac amserlen fel y ganlyn:

| Camau | Pryd |
|---|---|
| Cynnal asesiad o angen – Gweler canlyniadau’r asesiad o angen yn Atodiad C i’r Strategaeth<br><br>Datblygu drafft o’r Strategaeth Toiledau Lleol | Tachwedd 2018 – Rhagfyr 2018<br><br>Ionawr 2019 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau – Cyflwyno’r Strategaeth Toiledau Lleol i Aelodau’r Pwyllgor Craffu | 7 Chwefror 2019 |
| Ymgynghori – Mae’r hanfodol bod y Cyngor yn ymgynghori ar y Strategaeth Toiledau Lleol drafft am gyfnod o 12 wythnos | Chwefror – Ebrill 2019 |
| Cabinet - Cyflwyno’r Strategaeth Toiledau Lleol i’r Cabinet am gymeradwyaeth | Mai 2019 |
| Cyhoeddi - Mae’n hanfodol bod y Cyngor yn cyhoeddi ei Strategaeth Toiledau Lleol erbyn 31 Mai 2019 | 31 Mai 219 |
| Datganiad cynnydd interim - Mae’r Cyngor angen llunio a chyhoeddi ‘datganiad cynnydd interim’ sy’n egluro’r camau y mae wedi eu gymryd yn unol â’i strategaeth dros y 2 flynedd blaenorol | Cyn diwedd Mai 2021 |

| | |
|---|---|
| Adolygu'r Strategaeth - cyflwyno datganiad cynnydd diwedd cyfnod - cyn pen blwyddyn ar ôl pob etholiad llywodraeth leol arferol | Tachwedd 2021 |

**3. ARGYMHELLIAD**

- Derbyn yr adroddiad ac ystyried y drafft strategaeth lleol a gyflwynwyd;
- Penderfynu os oes unrhyw sylwadau i gyflwyno i'r Cabinet;

**Cyngor Gwynedd**

**Drafft Strategaeth Toiledau Lleol**

**Mai 2019**



## 1. Cefndir

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym Mai 2017. Daw'r Ddeddf ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. O safbwynt cyfleusterau cyhoeddus, nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib.

Nid bwriad Rhan 8 y Ddeddf yw atal awdurdodau lleol rhag gwneud penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud yn ystod eu gweithgarwch, a allai gynnwys penderfyniadau i gau rhai cyfleusterau toiledau cyhoeddus traddodiadol neu adeilad pan fo hynny'n briodol. Yn hytrach, ei bwriad yw gwella'r modd y caiff darpariaeth ei chynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yng nghyd-destun cyffredinol y gwaith o ddiwallu'r anghenion y mae awdurdodau lleol wedi'u hadnabod mewn cymunedau. Bydd dull strategol hefyd o gymorth i liniaru unrhyw effeithiau negyddol newidiadau i'r ddarpariaeth.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Llunio strategaeth toiledau lleol; a
- Adolygu'r strategaeth, diweddaru a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn unol â'r argymhellion hyn yn mynd ati i fynd i'r afael gydag anghenion y gymuned ac i wella safonau cyfleusterau cyhoeddus sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

## 2. Cyflwyniad

Ein nod yn y strategaeth hon yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhau. Y pwyslais yn y strategaeth hon fydd sicrhau fod gan Wynedd ddarpariaeth ddigonol i'r dyfodol a'n bod yn gallu gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu modelau darparu amgen er mwyn llwyddo i gyflawni hyn.

Mae'r strategaeth hefyd yn cael ei pharatoi mewn cyfnod o gyni ariannol ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun hwnnw. Mae darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus yn darparu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso mwynhad o ardaloedd yng Ngwynedd gan drigolion ac ymwelwyr. Gallant fod ag effaith sylweddol ar gyfforddusrwydd unigolion a theuluoedd sy'n

ymweld â mannau cyhoeddus yn yr ardal a'u canfyddiad o Wynedd fel lle dymunol i ddod i ymweld.

Mae mynediad i gyfleusterau toiled yn bwysig i bob rhan o'r boblogaeth ac nid dim ond i bobl hŷn. Yn aml, bydd diffyg toiledau cyhoeddus yn cael ei roi fel rheswm pam fod pobl hŷn yn mynd yn ynysig yn gymdeithasol a gall hyn wedyn achosi unigrwydd. Er hynny, mae llawer o bobl (yn cynnwys pobl iau, teuluoedd a phobl o bob oedran gydag anabledd neu gyflwr iechyd) angen mynediad i gyfleusterau toiled ac yn aml gall diffyg darpariaeth arwain atynt yn cyfyngu ar eu cyswllt cymdeithasol gydag eraill.

Er bod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn canolbwyntio ar 'Ddarpariaeth Toiledau', nid yw darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus gan awdurdod lleol ar hyn o bryd yn ddyletswydd statudol.

Yn gynyddol mae'r Cyngor yn wynebu heriau i gynnal safonau cynnal a chadw darpariaeth toiledau a glanhau oherwydd yr arian cyfyngedig a'r pwysau ar adnoddau ond serch hynny, Gwynedd yw'r ail uchaf o ran nifer y toiledau gaiff eu cynnal gan gynghorau yng Nghymru.

## 3. Amcanion y strategaeth hon

Nod y strategaeth yw cwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr â Gwynedd drwy ddarparu:-

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol;
- Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeiro da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael;

## 4. Sut y cafodd y strategaeth ei datblygu?

Mae'r strategaeth yn ymgorffori'r adborth a gafwyd o ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2018. Lluniwyd yr ymgynghoriad i asesu anghenion y trigolion a'r bobl hynny sy'n ymweld neu'n gweithio yng Ngwynedd. Defnyddiwyd yr atebion a gafwyd i gyfarwyddo cynnwys y strategaeth ddrafft.

Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor gan gyfrannu at ein gwledigaeth fel Cyngor i gefnogi pobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau, mewn sir sydd yn un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i awdurdodau lleol feddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd, ceisio atal problemau, a gweithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod 'egwyddor datblygiad cynaliadwy' sy'n rhoi gwybod i sefydliadau sut i fynd o'i chwmpas hi i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd weithredu mewn modd mwy cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

## 5. Adolygu'r Strategaeth

Bob dwy flynedd bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi adroddiad cynnydd interim yn nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'i strategaeth gan ddechrau o ddyddiad y strategaeth olaf a gyhoeddwyd. Cyhoeddir adroddiad cynnydd interim cyn pen chwe mis o ddiwedd dyddiad y cyfnod o ddwy flynedd. Felly, yn dilyn cyhoeddiad ym Mai 2019, cynhelir adolygiad cyn diwedd Mai 2021 a'i gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd 2021.

DRAFT

## 6. Darpariaeth Cyngor Gwynedd

Mae gan Wynedd gymysgedd o ran darpariaeth toiledau. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 63 o doiledau cyhoeddus traddodiadol a weithredir gan y Cyngor, yn ogystal â 35 o gyfleusterau toiledau cymunedol. Mae rhan fawr o'r ardal hefyd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri sydd hefyd yn darparu cyfleusterau toiledau.

Yn Atodiad 1 ceir rhestr o'r ddarpariaeth bresennol yng Ngwynedd.

## 7. Beth mae Gwynedd yn ei wneud ar hyn o bryd?

### Cynllun Partneriaethu Cynghorau Cymuned a Thref

Yn dilyn Ymarfer Ymgysylltu Her Gwynedd yn 2016, adolygodd y Cabinet ei benderfyniad i gyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu Cynllun Partneriaethu arfaethedig gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn cadw mwyafrif toiledau presennol y Sir yn agored i'r dyfodol.

Datblygwyd y cynllun fel trefniant amgen i'r penderfyniad a gymerwyd i gau hyd at 50 o doiledau fel rhan o'r gyfundrefn o doriadau. Ymgynghorwyd gyda'r holl Gynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd i ganfod os oedd digon o ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i gadw'r toiledau yn agored. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn gweithio drwy i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn flynyddol neu'n dymhorol tuag at gostau rhedeg y toiledau.

Mae hyd at 63 o doiledau bellach wedi cael eu cadw yn agored gyda chymorth Cynghorau Tref a Chymuned ac eraill.

### Gweithio gydag eraill

Lle nad oedd hi'n bosib i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn ariannol at gadw'r cyfleusterau yn agored yn eu hardaloedd, mae'r Cyngor wedi ceisio gweithio gydag eraill, h.y. partneriaid trydydd sector, busnesau preifat a grwpiau cymuned lleol i gadw'r ddarpariaeth yn agored yn eu hardaloedd lleol.

Er enghraifft yn Fairbourne sefydlwyd grŵp cymunedol lleol ac mae gwaith yn mynd rhagddo, ac mae cymunedau eraill hefyd wedi datgan fod ganddynt ddiddordeb i ddatblygu'r ffordd yma o weithio ymhellach.



DRAFT

Astudiaeth Achos Fairbourne

Roedd pentref arfordirol Fairbourne yn wynebu colli eu darpariaeth toiled. Fe wnaeth y Cyngor gymryd pob cyfle posib i siarad gyda thrigolion a'r cyngor cymuned am yr her ariannol oedd yn eu hwynebu i gadw'r ddarpariaeth yn agored. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i wrando ar bryderon y gymuned ac i gael eu barn.

O ganlyniad, daeth grŵp o drigolion at ei gilydd a ffurfio Ymddiriedolaeth Mwynderau Fairbourne. Trwy weithio gyda'r Ymddiriedolaeth cawsom gyfle i ddod o hyd i ateb hirdymor i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth o doiled yn y pentref. Datblygwyd cynllun peilot a olygai fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd cyfrifoldeb am y toiledau. I sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r grŵp i lwyddo gyda'r fenter penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn dal i fod yn gyfrifol am yr adeilad yn y tymor byr. Roedd hyn i sicrhau y gallem gefnogi'r grŵp fel eu bod yn ddigon cydnerth i ddarparu'r gwasanaeth.

Mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol i'r Cyngor o ran gweithio gydag eraill i gael canlyniad cynaliadwy. O ran cynllunio ar gyfer yr hirdymor, mae'r Cyngor wedi cytuno i drosglwyddo'r asedau ar brydles i'r Ymddiriedolaeth o Chwefror 2019, gyda system barhaus yn ei lle i adolygu.

## Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol

Caiff y Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynllun yma yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn ystod o sefydliadau lleol cymeradwy yn ystod eu horiau agor. Darperir y cyfleusterau yn rhad ac am ddim a heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau pan fyddant yn yr eiddo. Bydd angen i bob eiddo sy'n cymryd rhan i gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch a gyda digon o nwyddau. Yr uchafswm grant yw £500 y flwyddyn i bob lleoliad. Ar hyn o bryd mae gennym 35 eiddo ar draws Gwynedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun ynghyd â rhestr aros.

Rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar ei ffenestr(i) neu ddrws (drysau) i ddangos ei fod yn aelod o'r cynllun fel bod y cyhoedd yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r toiledau. Rydym wedi cael peth adborth yn dweud nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cynllun.

## Gwella Cyfleusterau drwy Arian Grant

Hyd yma rydym wedi llwyddo i ddenu hyd at £300,000 mewn arian grant i ymgymryd â gwaith gwella ar rai cyfleusterau cyhoeddus. Bydd arian o'r Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau

Twristiaeth yn talu am waith gwella mewn tri thoiled cyhoeddus ym Methesda, Y Bala a Beddgelert.

Ymhellach, mae arian hefyd wedi ei sicrhau o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i uwchraddio’r cyfleusterau ac i wella effeithlonrwydd ynni yn y toiledau ym Mhenllyn, Caernarfon;  Marian y De, Pwllheli; Queen’s, Harlech; y Cei, Abermaw a'r Ganllwyd.  Bwriedir ymgymryd â’r gwaith yma yn ystod 2019/20.

Byddwn yn anelu i edrych am ffyrdd o ddenu rhagor o grantiau gan weithio gydag eraill i ddenu arian grant i wella safon a chynaliadwyedd y cyfleusterau.

## Mapio Lleoliadau

Mae hwn yn rhan bwysig o’n strategaeth fel bod pobl sydd angen mynd i doiled yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd am y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael.

Toiled
Toilet

Datblygodd Llywodraeth Cymru'r logo yma fel bo trigolion ac ymwelwyr yn gallu ei adnabod yn hawdd ble bynnag y byddant yng Nghymru ac fe argymhellwyd fod awdurdodau lleol yn ymgorffori'r logo fel rhan o'u hymgyrch i godi ymwybyddiaeth am y toiledau gall y cyhoedd eu defnyddio.

Un o ofynion eraill y strategaeth hon yw paratoi set ddata yn ôl manyleb benodol a'i bod ar gael fel data agored ar ein gwefan.  Unwaith y byddwn wedi adnabod y toiledau gaiff eu hysbysebu fel rhai sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol, bydd y set ddata yn cael ei defnyddio gan system Llywodraeth Cymru a'i huno gyda setiau data awdurdodau lleol eraill i lunio set ddata toiledau cenedlaethol ar gyfer map Lle.  Mae Lle yn borth-daear sy'n hyb ar gyfer data a gwybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau, ond yn bennaf ynglŷn â'r amgylchedd.   Bydd Lle yn cynhyrchu mapiau Cymru gyfan ar y setiau data a ddarparwyd a gellid eu ffurfweddu i ganolbwyntio ar un ai'r darlun cenedlaethol neu ar ardaloedd mwy lleol. Bydd y data ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac fel gwasanaeth data agored sy'n hygyrch i bawb.   Dyma’r ddolen i borth Lle:

http://lle.gov.wales/home

DRAFT

Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru data Lle Llywodraeth Cymru yn flynyddol i ganiatáu mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion ac ymwelwyr.

## 8. Beth wnaethom ni ei ddysgu o gynnal yr Asesiad o Angen?

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd ei asesiad o angen er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn medru ymgysylltu â'r broses. Cyflawnwyd hyn drwy gydlynu gwybodaeth feintiol sydd yn bodoli'n barod ac fe ymgynghorwyd â chymaint o sefydliadau a budd-ddeiliaid y gwyddys y byddai a buddiant yn narpariaeth toiledau ag oedd yn bosib.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal asesiad o angen drwy:

- Holiadur Toiledau Cyhoeddus:
- Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"
- Grwpiau Nodweddion Cydraddoldeb
- Adborth Cynghorau Cymunedau a Thref
- Proffil Gwynedd
- Asesiad Cydraddoldeb

### Proffil Gwynedd

### Anghenion Poblogaeth

Yn ôl amcangyfrifon Poblogaeth ONS mae poblogaeth Gwynedd yn 123,742. Mae 23,410 o'r boblogaeth o dan 18 oed a 27,971 yn 65 oed neu hŷn. Mae 61,335 o'r boblogaeth yn ddynion a 62,407 yn ferched.

Mae'r ONS hefyd yn darparu rhagolygon poblogaeth. Mae'r rhagolygon yma yn amcangyfrif cynnydd o tua 10,000 o bobl yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesa. Ond, nid ydym yn disgwyl i'r cynnydd yma fod yn gyson ar draws grwpiau oedran. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn y boblogaeth 0-15 oed o 5.6%, gostyngiad o 7.4% yn y boblogaeth 40-64 oed a chynnydd o 59.3% yn y boblogaeth 80 oed a hŷn. Mae hyn yn dangos cynnydd enfawr yn grwpiau mwyaf bregus cymdeithas - pobl ifanc a phobl hŷn.

### Anghenion Iechyd

Mae disgwyliad oes dyn yng Ngwynedd yn 78.8 oed, tra bod disgwyliad oes merched adeg yn 83.1 oed.

DRAFT

Yn ôl ffigyrau Daffodil Llywodraeth Cymru mae gan 17,171 o drigolion Gwynedd 18 oed a drosodd salwch hirdymor cyfyngedig. Mae gan dros 4,500 o drigolion Gwynedd 65 oed a drosodd problemau gyda'u pledren.

Yn ôl elusen crohn's & colitis uk mae gan o leiaf 300,000 o bobl yn y DU Clefyd Crohns neu Colitis Ulcerative, a adnabyddir fel 'Inflamatatory Bowel Disease' (IBD).

Yn ôl ymateb gan Crohn's & Colitis Uk i'r Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), dywedodd 96% o'r sawl a ymatebodd i arolwg gan Crohn's & Colitis UK y dylai fod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i greu a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Dywedodd 40% eu bod yn cefnogi hynny oherwydd eu hangen am fynediad ar frys ac yn rheolaidd i doiledau;

## Holiadur Toiledau Cyhoeddus

Lansiwyd Holiadur Toiledau Cyhoeddus gan y Cyngor er mwyn canfod gwybodaeth a fydd yn eu helpu i adeiladu darlun o anghenion y gymuned, ac i helpu paratoi Strategaeth Toiledau Lleol.

Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori
- Holiadur papur a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor
- Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau

Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys:


- cyhoeddi datganiad i'r wasg a ddefnyddiwyd fel sail i erthyglau yn y papurau newydd lleol a rhanbarthol (Daily Post, Herald, Bangor Mail, Cambrian News, Y Cyfnod, Chronicle, a nifer o Bapurau Bro'r sir);
- ymgyrch ragweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cynnwys cyfres gyson o negeseuon a hyrwyddwyd drwy gyfrifon Twitter, Facebook y Cyngor a drwy sawl partner;
- cyhoeddi erthygl yn newyddlen 'Rhaeadr' i aelodau etholedig Cyngor Gwynedd
- cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i sawl corff, grŵp nodwedd a grŵp anodd eu cyrraedd, ei raeadru i'w haelodau gan gynnwys aelodau:
    - Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yng Ngwynedd;
    - Cynghorau Cymuned a Thref
    - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn;
    - Ffermwyr Ifanc;
    - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor;

- Yr Urdd;
- Age Cymru Gwynedd a Môn;
- sefydliadau celfyddydol;
- sefydliadau amgylcheddol
- Grŵp Craidd Cydraddoldeb Gwynedd
- Pobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc LGBT+ (GISDA),
- Pobl Anabl - Menter Fachwen
- Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd
- Cynrychiolwyr sector busnes Gwynedd. e.e. http://www.gwyneddbusnes.net/html/singleton/228/cy-GB

Gweler canlyniadau llawn yr holiadur yn **Atodiad 2**

## Pwy atebodd yr Holiadur Toiledau Cyhoeddus?

Cafwyd 1,202 o ymatebion. Roedd rhan fwyaf o'r atebwyr yn Breswylwyr Gwynedd (67.3%) ac ymwelwyr i Wynedd (19.5%).




Roedd rhan fwyaf o'r atebwyr (47.7%) yng ngrŵp oedran 45-64 oed. Cafwyd llai na 4% o atebion gan grŵp oedran o dan 25. Mae hynny yn isel o gymharu â 21.6% o'r boblogaeth yng Ngwynedd yn o dan 25 oed.

O'r unigolion wnaeth lenwi'r holiadur roedd:

| Rhyw | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 755 | 62.8% |
| Dyn / Gwryw | 380 | 31.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 34 | 2.8% |
| Heb Ateb | 23 | 1.9% |
| Arall | 10 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl o dan Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dewisodd 100 o unigolion beidio ateb y cwestiwn neu ddewis yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 9.7% o bobl Gwynedd wedi datgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd" sy'n cymharu gyda 9% o ymatebwyr yr holiadur a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl.

| A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 994 | 82.7% |
| Ydw | 108 | 9.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 82 | 6.8% |
| Heb Ateb | 18 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

## Prif Negeseuon

## Pa mor aml caiff toiledau cyhoeddus eu defnyddio?

Ar gyfer yr holiadur, mae 'toiledau cyhoeddus' yn golygu toiledau cyhoeddus a thoiledau sy'n rhan o gynllun grant toiledau cymunedol e.e. mewn caffis neu siopau. Mae'n amlwg o'r holiadur fod toiledau yn ddarpariaeth bwysig i'r atebwyr yn gyffredinol, gyda 54.4% yn dweud eu bod yn eu defnyddio'n ddyddiol neu'n wythnosol. Er hynny, nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt 'Byth' yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu â 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio'r toiledau yn 'Ddyddiol' o gymharu â 17.3% yn gyffredinol.

## Ydi'r oriau agor yn addas?

Dywedodd 70.6% fod yr oriau agor y ddarpariaeth yn addas, ond roedd negeseuon clir o’r sylwadau fod darpariaeth dymhorol yn amhoblogaidd yn enwedig mewn lleoliadau gwledig. Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at yr angen i ymestyn oriau agor, gan nodi fod nifer yn cau llawer rhy gynnar gyda'r nos neu heb agor ddigon cynnar yn y bore.

Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu â 26% yn gyffredinol.

## Ydi'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant?

Nododd 73.6% o ymatebwyr nad yw’r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant. Nododd nifer o’r sylwadau nad oedd digon o unedau newid ar gael, a bod y rhai sydd yn bodoli eisoes angen eu moderneiddio.

## Ydi'r cyfleusterau yn hygyrch?

Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw’r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu â 6.7% yn gyffredinol.

## A oedd yna unrhyw nodwedd cydraddoldeb yn effeithio'n benodol ar ba mor addas yw'r toiledau?

Gweler o’r tabl isod mai’r 3 prif nodwedd cydraddoldeb sy’n effeithio ar ba mor addas yw’r toiledau yw Anabledd, Oed, a Rhyw.


| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Anabledd | 124 | 10.3% |
| Oed | 119 | 9.9% |
| Rhyw | 77 | 6.4% |
| Beichiogrwydd / Mamolaeth | 22 | 1.8% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 9 | 0.7% |
| Trawsrywiol | 8 | 0.7% |
| Crefydd | 7 | 0.6% |
| Hil | 3 | 0.2% |

*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

Derbyniwyd sylwadau nad yw'r cyfleusterau yn addas i drigolion gydag anableddau, a chyflyrau meddygol penodol e.e. cyflwr bowel/pledren.

## Beth ydi safon y cyfleusterau sydd ar gael?

Yn gyffredinol, nododd 44.6% sgôr o 3 ar gyfer safon y cyfleusterau. Roedd 29.4% yn nodi sgôr o 4 neu 5, sef Gwael/Gwael iawn.




## Beth sy'n dda am y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

Roedd 26.5% o sylwadau yn nodi fod argaeledd y cyfleusterau yn dda, a 9.9% yn nodi eu bod mewn lleoliadau da. Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi fod y toiledau yn hanfodol i wahanol bobl:

- Trigolion Gwynedd (6.6%),
- Ymwelwyr (4.6%),
- Teuluoedd a phlant (3.0%)
- sydd â chyflwr iechyd penodol (2.1%)
- henoed (1.3%)

Gweler sylwadau llawn yn Atodiad 2

## Beth ellir ei wella o ran y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

Y prif sylw o ran beth ellir ei wella o ran y ddarpariaeth oedd hylendid y cyfleusterau. Roedd 24.1% o'r sylwadau yn nodi bod angen sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi addas ac angen gwella neu foderneiddio cyfleusterau a'u goleuo'n well.

Roedd 16.1% o'r sylwadau yn nodi'r angen i gynyddu neu amddiffyn nifer y toiledau cyhoeddus sy'n agored. Roedd 12.5% o'r sylwadau yn nodi bod angen adolygu cyfnodau neu oriau agor a chau.

Gweler sylwadau llawn yn Atodiad 2

## Ydi pobl yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun grant toiledau cymunedol?

Yng Ngwynedd, mae 35 o fusnesau a sefydliadau lleol yn rhan o gynllun toiledau cymunedol. Golygai hyn y gallai unrhyw un o'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau. Nododd 76.9% o atebwyr nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun.

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heb Ateb | 38 | 3.2% |
| Nac ydw | 925 | 77.9% |
| Ydw | 239 | 19<br>.9% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

## Pa mor hawdd ydi darganfod toiled cyhoeddus pan mae angen?

Nododd 36.5% fod hi'n 'Anodd' neu'n 'Anodd iawn' darganfod toiled cyhoeddus, a dim ond 19.7% a nododd ei bod yn 'Hawdd' neu'n 'Hawdd iawn'. Roedd gweddill yr atebion yn 'Ddim yn hawdd nac yn anodd' neu heb ateb y cwestiwn.

Nododd 78.5% o atebwyr hoffent ddarganfod ble mae'r toiledau cyhoeddus agosaf drwy ddefnydd o arwyddion.

## Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"

Cynhaliwyd ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" gan Gyngor Gwynedd yn ystod Hydref 2018. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd egluro'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i



DRAFT

bobl a sefydliadau Gwynedd; Yn ogystal â chynnig cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd i ddweud eu dweud ar pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu sydd fwyaf pwysig iddynt.

Ymgynghorwyd â dros 2,400, ac yn gyffredinol dros y sir, nid oedd toiledau cyhoeddus ddim yn flaenoriaeth uchel (safle 44 allan o 59). Er hynny, roedd toiledau cyhoeddus yn safle 11 (o 59) gyda phobl dros 65 oed, a safle 25 (o 59) gyda phobl gydag anableddau.

Roedd ardal Tywyn yn cynnwys 'Toiledau cyhoeddus' (safle 5), yn eu deng blaenoriaeth uchaf. Mae 'Toiledau Cyhoeddus' yn cael eu gosod yn uwch o lawer (20 safle neu fwy) na chanlyniadau Gwynedd yn ei gyfanrwydd.

O safbwynt y 10 gwasanaeth a osodwyd isaf o'r 59, gweler ambell i wahaniaeth ym mhob ardal lleol o gymharu â Gwynedd gyfan. Roedd ardal Bangor, Caernarfon a Dyffryn Nantlle yn gosod 'Toiledau cyhoeddus' yn ymysg y 10 isaf;

Roedd toiledau cyhoeddus yn safle 51 gan grŵp oedran o dan 25 o gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd. I'r gwrthwyneb, roeddent yn safle 11 gan yr ymatebwyr dros 65 oed, sydd yn llawer iawn uwch (20 safle neu uwch) o ran pwysigrwydd na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

## Grŵp Hunan Adfocatiaeth

Nododd y grŵp bod angen edrych ar eu hôl ac nid oeddent eisiau gorfod talu i'w defnyddio er yn gwybod y byddai'n helpu efo'r costau.

## Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd

Mae toiledau cyhoeddus yn un o'r gwasanaethau pwysicaf i'r grŵp yma. Nododd y grŵp fod angen digon o doiledau mewn mannau cyhoeddus er mwyn galluogi pobl hŷn i fynd allan a theithio â hyder.

## Grŵp Craidd Cydraddoldeb

Ymgynghorwyd â Grŵp Craidd Cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r grwpiau canlynol:

- Grŵp Ffoaduriaid;
- Cytûn;
- Grŵp Mynediad Meirionnydd;
- Cyngor Pobl Hŷn;
- Men's Sheds Caernarfon;
- Hunaniaith;
- Bangor Indians and Friends Association;

- Unique Transgender Network;
- Council of Sign Sight Sound;
- Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru;
- Canolfan Cymorth Dioddefwyr;
- Canolfan Islamaidd Bangor

Roedd y Grŵp yn gweld toiledau cyhoeddus yn hynod bwysig i bobl hŷn, teuluoedd ifanc a phobl anabl. Roedd y grŵp yn ffafrio grant i fusnesau lleol ond bod angen hysbysebu mwy arnynt ac ehangu'r nifer a fyddai'n caniatáu gwell cyfleusterau a lle newid mwy addas i bobl gydag anghenion ychwanegol. Roedd y Grŵp yn nodi ei fod yn iawn i bobl dalu am ddefnyddio'r cyfleusterau.

## Grŵp LGBT+ GISDA

Ymgynghorwyd â Grŵp LGBT+ GISDA. Nododd rhai bod angen i'r Cyngor ddarparu toiledau 'gender neutral' a bod y cyfleusterau ar hyn o bryd yn anaddas, yn fudr ac yn cau yn rhy gynnar.

## Cynghorau Tref a Chymuned

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned, mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth am anghenion eu cymunedau. Mae'r Cyngor wedi derbyn sylwadau fod cyfleusterau mewn rhai o'r cymunedau mewn cyflwr gwael, a bod angen eu huwchraddio. Mae'r sylwadau eraill yn nodi fod angen ymestyn oriau agor, a bod y ddarpariaeth ar gael drwy'r flwyddyn.

## Twristiaeth

Yn yr Holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd sefydliadau twristiaeth fod toiledau'n hanfodol ar gyfer ymwelwyr, a bod angen iddynt fod ar agor drwy'r flwyddyn. Mae'r sector twristiaeth yn un bwysig iawn i Wynedd. Dangosodd yr adroddiad STEAM bod dros 7.25 miliwn o dwristiaid wedi ymweld â Gwynedd yn 2017, nifer sydd wedi cynyddu yn flynyddol ers 2012.

DRAFT

## 9. Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Rhaid i ni gydnabod nad oes unrhyw atebion sydyn a bod mesurau cyni yn golygu bydd y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol ond mae'r Cyngor yn ymrwymo i'r isod i liniaru'r bylchau rhwng y ddarpariaeth toiledau sydd ar gael a'r angen a nodwyd:

### Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol

Bydd y Cyngor yn adolygu ei waith glanhau a safonau yn gyfnodol i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithlon ac effeithiol o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd gan hefyd adolygu oriau agor cyfleusterau mewn lleoliadau allweddol. Yn ogystal, bydd yn cynnal archwiliad o'r cyfleusterau newid i fabanod sydd ar gael ac yn ymdrechu i gynyddu argaeledd ble fo hynny'n bosib ac yn ymarferol. Fe fydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib.

### Uchafu argaeledd toiledau drwy bartneriaeth a darpariaeth arall

Parhau i weithio gyda chymunedau i gynnal y cynllun partneriaeth cyfredol a pharhau i weithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo defnyddio eu cyfleusterau toiled yn well dan y Cynllun Grant Cymunedol yn enwedig mewn ardaloedd ble y gall fod bwlch mewn darpariaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gwefan a chyfryngau cymdeithasol
- Gwell arwyddion i'r busnesau fydd yn cynnwys y logo a bennwyd gan Lywodraeth Cymru
- Rhestr o'r eiddo ar safleoedd twristiaeth

### Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill

Mae mapio lleoliadau yn rhan bwysig o'n Strategaeth. Rydym eisiau i'r bobl hynny sydd am ymweld â'r toiled i fedru cael mynediad hawdd i wybodaeth am y lleoliad, amseroedd agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael. Croesawn yn gynnes benderfyniad Llywodraeth Cymru i greu, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, map ar-lein o'r holl gyfleusterau toiled presennol sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yng Nghymru. Bydd y map yma nid yn unig yn helpu pobl i ddod o hyd i doiledau lleol ond hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gynllunio ar gyfer teithiau pellach. Bydd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i sicrhau fod yr holl doiledau yng Ngwynedd wedi eu cynnwys yn y map cenedlaethol hwn.

Byddwn hefyd yn darparu dolen uniongyrchol i'r map cenedlaethol ar ein gwefan, pan fydd ar gael. Y ddolen i borth Lle, ble gellir gweld y map yw: http://lle.gov.wales/home?lang=cy

Byddwn yn adolygu'r cyfleusterau sydd wedi eu cynnwys yn rheolaidd o leiaf bob dwy flynedd, yn unol â'n hadroddiadau cynnydd a'r cyfnodau adolygu Strategaeth, fel y manylir isod. Os ydym yn clywed am newidiadau i argaeledd cyfleusterau, fel rhai'n cau neu newid amser agor, neu yn wir fusnesau newydd ble caniateir defnyddio'r cyfleusterau, byddwn yn diweddaru'r wybodaeth yn amserol yn hytrach nag aros tan y dyddiad adolygu.

## Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeiro da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol

Bydd sticer y logo toiled yn cael ei arddangos ar y busnesau hynny sydd ar hyn o bryd yn gweithredu dan y cynllun grant cymunedol ac ar adeiladau Cyngor perthnasol sydd wedi eu mapio. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i wella'r pyst arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd i'r toiledau sydd ar gael mewn lleoliadau allweddol fel hybiau trafnidiaeth yn y Sir.

## Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw

Yn ddelfrydol, dylid trefnu dosbarthiad adnoddau a chyfleusterau yng Ngwynedd i ymdrin yn effeithiol â phroffil y galw. Gall adolygiad cyfnodol o'r Strategaeth ganolbwyntio ar broffil y galw i nodi newidiadau a allai uchafu effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

## Darpariaeth gynaliadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gynaliadwyedd drwy ei gynllun rheoli carbon ac o fewn ei weithrediadau sy'n cynnwys darpariaeth cyfleusterau toiledau. Trwy'r arian grant y derbyniwyd hyd yma rydym wedi sicrhau a byddwn yn parhau i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i faterion amgylcheddol wrth wella neu ailwampio cyfleusterau, er enghraifft y cyfleusterau diweddar a ailwampiwyd oedd pan gafodd y goleuadau eu gwella yn y cyfleusterau hyn drwy osod goleuadau LED.

## 10. Adolygu, Adrodd a Diwygio

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r Strategaeth leol a darparu adroddiadau cynnydd. Dylid gwneud y rhain bob dwy flynedd, ac eithrio pan fo etholiadau awdurdodau lleol ac ar yr adegau hynny dylid cynnal adolygiad cyn pen blwyddyn o'r etholiad gan un ai ail-ddrafftio'r Strategaeth neu ddarparu adroddiad cynnydd interim.

Yn y tabl isod, nodir yr amserlen ar gyfer y gwaith adolygu a fwriedir a'r cylch adrodd:

| | |
|---|---|
| Adolygiad statudol ac adroddiad cynnydd interim am y cyfnod 30ain Mai 2019 i'r 30ain Mai 2021. | Mehefin i Awst 2021 |
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet | Hydref a Thachwedd 2021 |
| Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd interim ar ein gwefan | 30ain Tachwedd 2021 |
| Adolygu cyn pen blwyddyn o etholiadau llywodraeth leol (5ed Mai 2022). | Erbyn 4ydd Mai 2023 |
| Os oes newidiadau i'r Strategaeth, ail-gyhoeddi'r ddogfen lawn a gymeradwywyd. | Erbyn 3ydd Tachwedd 2023 |
| Os nad oes newidiadau i'r Strategaeth, paratoi adroddiad cynnydd interim am 22ain Tachwedd 2022 i'r 22ain Tachwedd 2024. | Rhagfyr 2024 i Ebrill 2025 |
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet | Ebrill / Mai 2025 |
| Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd interim ar ein gwefan | Erbyn 22ain Mai 2025 |
| Ailadrodd y broses o adolygu a llunio datganiadau cynnydd interim bob dwy flynedd neu cyn pen blwyddyn i etholiadau awdurdodau lleol | |

## 11. Camau Nesaf

Byddwn yn ymgynghori ar y strategaeth ddrafft am 12 wythnos (o'r 11eg Chwefror 2019 i'r 3ydd Mai 2019). Yn ystod y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos byddwn yn diweddaru'r cynnwys o ran y cynnydd a wnaed gyda mapio cenedlaethol ac unrhyw wybodaeth bellach ar gyfleusterau toiledau lleol. Byddwn yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus i gyfarwyddo'r cynnwys terfynol.

Cyflwynir y strategaeth derfynol i'r Cabinet ym Mai 2019.

**Awduron:** Amanda Murray **–** Rheolwr Prosiect, Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Bethan Roberts - Cydlynydd Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad:
Ar lein: www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori

Cais am gopi caled gan:
Bethan Roberts – Cydlynydd Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol
Cyngor Gwynedd Council
Sryd y Jel
Caernarfon
LL55 1SH
Neu mentraucymdeithasol@gwynedd.llyw.cymru

DRAFT



Toiledau Parc
Toiledau Gwynedd
Gwynedd
Amlwch
Anglesey
ANGLESEY
Llangefni
Benllech
Beaumaris
Menai Bridge
Rhosneigr
Holy Island
Llandudno
Conwy
Colwyn Bay
Abergele
Llanfair Talhaiarn
Llanrwst
Bangor
Bethesda
Caernarfon
Caernarfon Bay
Llanberis
Snowdon
1085m
Betws-y-Coed
Pentrefoelas
Blaenau Ffestiniog
Llan Ffestiniog
Llanaelhaearn
Nefyn
Porthmadog
Criccieth
Pwllheli
Lleyn
Abersoch
Harlech
Trawsfynydd
SNOWDONIA
Y Bala
Llyn Celyn
Llyn Tegid
Dolgellau
Cadair Idris
892m
Barmouth
Mallwyd
Afon Dyfi
Tywyn
Machynlleth
CARDIGAN BAY/
BAE CEREDIGION
Afon Conwy
A55
A5
A5025
A545
A4080
A4086
A487
A4085
A498
A470
A548
A544
A543
A499
A497
A4212
A494
A496
A493
A489

## Rhestr Toiledau Cyngor Gwynedd / List of Gwynedd Council Toilets

| Tref neu Bentref / Town or Village | Lleoliad / Location |
|---|---|
| **Ardal ARFON Area** | |
| Bangor | Glanrafon |
| Bangor | Tanyfynwent |
| Bangor | Y Pier |
| Bethesda | Stryd Fawr |
| Caernarfon | Allt y Castell |
| Caernarfon | Empire |
| Caernarfon | Penllyn |
| Dinas Dinlle | Marine |
| Llanberis | Ger y Llyn |
| Llanberis | Maes Padarn |
| Llanberis | Y Glyn |
| Y Felinheli | |
| **Ardal DWYFOR Area** | |
| Aberdaron | Traeth |
| Abersoch (Llanengan) | Ger y bont |
| Abersoch (Llanengan) | Golff |
| Abersoch (Llanengan) | Machroes |
| Mynytho (Llanengan) | |
| Beddgelert | |
| Criccieth | Esplanade |
| Criccieth | Maes Parcio |
| Llanbedrog | Traeth |
| Llanystumdwy | |
| Morfa Bychan (Porthmadog) | Traeth |
| Morfa Bychan (Porthmadog) | Gwydryn |
| Borth y Gest (Porthmadog) | Maes Parcio |

| | |
|---|---|
| Porthmadog | Y Parc |
| Morfa Nefyn (Nefyn) | Cae Coch |
| Morfa Nefyn (Nefyn) | Traeth |
| Nefyn | Cefn Twr |
| Nefyn | Lon Gam |
| Pwllheli | South Beach |
| Pwllheli | Stryd Penlan |
| Pwllheli | West End |
| Pwllheli | Y Maes |
| **Ardal MEIRIONNYDD Area** | |
| Aberdyfi | Neuadd Dyfi |
| Aberdyfi | Y Cei |
| Abergynolwyn (Llanfihangel) | |
| Abermaw | Llys Cambrian |
| Abermaw | Promenad y Gogledd |
| Abermaw | Y Cei |
| Bala | Plase |
| Bala | Y Grin |
| Blaenau Ffestiniog | Diffwys |
| Bryncrug | |
| Corris Isaf | |
| Dinas Mawddwy | |
| Dolgellau | Maes Parcio'r Marian |
| Talybont (Dyffryn Ardurdwy) | Pentre |
| Fairbourne (Arthog) | Ffordd yr Orsaf |
| Fairbourne (Arthog) | Penrhyn Drive South |
| Ganllwyd | |
| Harlech | Bron y Graig |
| Harlech | Min y Don |
| Harlech | Queen's |
| Llanbedr | |
| Llandanwg (Llanfair) | |

| | |
|---|---|
| Llwyngwril (Llangelynin) | |
| Maentwrog | Newydd |
| Pennal | |
| Penrhyndeudraeth | Maes Parcio |
| Trawsfynydd | |
| Tywyn | Maes Adloniant |
| Tywyn | Sinema |

**Cynllun grant toiledau cymunedol / Community Toilet Grant Scheme**

**Ardal Arfon Area**

**Caffi Caban**, Caban Cyf., Brynrefail, Caernarfon LL55 3NR, 01286 685462
www.caban-cyf.org

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.00 – 16.00 (pob dydd / Everyday) |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn, ac eithrio 4 diwrnod dros y Nadolig / Throughout the year excluding 4 days over Christmas |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Caffi EB (Menter Fachwen),** High Street, Deiniolen LL55 3NF, 01286 872791
www.menterfachwen.org.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.00 – 16.00 (Llun/Monday – Gwener/ Friday) |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All Year |
| Cyfleusterau / Facilities | Toiledau Unisex Toilets |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes/ No |

**Caffi Caban y Cwm** (Menter Fachwen), London House, Cwm y Glo, Caernarfon LL55 4DT, 01286 872017 www.menterfachwen.org.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.00 – 17.00 (Llun/Monday – Gwener/ Friday) |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All Year |
| Cyfleusterau / Facilities | Toiledau Unisex Toilets |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes yn yr unisex / Yes in the unisex |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes / No |

**Caffi'r Hen Felin**, Abergwyngregyn, LL33 0LP, 01248 689454

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.00 – 17.00 (Llun/Monday – Sul / Sunday) |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All Year |
| Cyfleusterau / Facilities | Toiledau unisex Toilets |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes yn yr unisex / Yes in the unisex |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Fron Goch Garden Centre Ltd.**, Pant Road, Caernarfon LL54 5RL, 01286 672212
info@frongoch-gardencentre.co.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | Llun/Mon – Sad/Sat: 9.00 – 17.00<br>Sul/Sun 10.00 – 16.00 |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn/ All Year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes/ Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Inigo Jones & Co. Ltd.,** Groeslon LL54 7UE, 01286 830242
slate@inigojones.co.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.00 – 17.00 Llun/Mon – Sul/Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes/ Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Palas Print**, 10 Stryd y Plas, Caernarfon LL55 1RR, 01286 674631

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.30 – 18.00 (Llun/Mon – Gwener/Friday) (Dydd Mercher / Wednesday 9:30– 18:30) 9.00 – 17.30 (Sad/ Sat) |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |

| | |
|---|---|
| Cyfleusterau / Facilities | Toiledau unisex Toilet |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes yn yr unisex / Yes in the unisex |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes yn yr unisex / Yes in the unisex |

**Y Ganolfan,** Ffordd yr Orsaf, Talysarn, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6HL, 01286 881569
post@canolfan-talysarn.org.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 7:30 – 19:30 Pob dydd/Everyday |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Beacon Climbing Centre,** Cibyn Industrial Estate, Lon Cae Derbi, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD. 01286 677322 info@beaconclimbing.com

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 10:00 – 22:00yh Llun/ Mon – Gwener/ Friday<br>10:00– 20:00 Sad/ Sat – Sul/ Sun<br>31 Rhagfyr/ December 10-00 – 18:00<br>1 Ionawr/ January 12:00 – 20:00<br>Ar gau / Closed Rhagfyr 24-26 December |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn/ All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Oes / Yes |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Te a Cofi (GISDA),** 22-23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NA
01286 671153 **teacofi@gisda.co.uk**

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:00 – 16:00 Llun/ Mon – Sad/ Sat |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Toiledau unisex Toilet |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes yn yr unisex / Yes in the unisex |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes yn yr unisex / Yes in the unisex |

**Garej Povey**, Ffordd Llanllyfni Penygroes Gwynedd, LL54 6DA, 01286 880282, poveysgarage@yahoo.com

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:00 – 18:00 Llun/ Mon – Gwe/ Fri<br>9:00 – 13:30 Sad/ Sat |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes / No |

## Ardal Dwyfor Area

Towyn, Tudweiliog, Pwllheli LL53 8PD, 01758 770600

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 8.00 – 20.00 |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes / No |

**Garej Clynnog**, Clynnog, Caernarfon LL54 5PF. 01286 660860

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 7:00 – 21:00yh Llun/Mon – Gwener/ Friday<br>8:00 – 20:00yh Sad/ Sat – Sul/ Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes / No |

**Glyn y Weddw Arms**, Llanbedrog, Pwllheli LL53 7TH, 01758 740212

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 12:00 – 21:00 Gaeaf/ Winter<br>12:00 – 23:00 Haf / Summer |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |

| | |
|---|---|
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes yn y toiledau marched / Yes in the female toilets |

**Lion Hotel**, Tudweiliog, Pwllheli LL53 8ND, 01758 770244

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | Gaeaf / Winter 12:00 – 14:00<br>a/and 18:00 – 23:00<br>Haf/Summer 11:00 – 23:00 |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn /All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**The Sun Inn**, Llanengan, Pwllheli LL53 7LG, 01758 712660, yrhaul@hotmail.com

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 10.00 – 23.00 |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn /All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Neuadd Gymuned Garndolbenmaen,** Garndolbenmaen LL51 9TX

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:00 – 18.00 Llun/Mon – Sad/Sat |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn /All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes /No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes /No |

**Canolfan Menter Congl Meinciau,** Botwnog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8RA
post@cinglmeinciau.org.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:00 – 17:00 Llun/ Mon – Sul/ Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Caffi'r Tyddyn,** Canolfan arddio Tyddyn Sachau, Y Ffor, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6UB

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:30 – 16:30 Llun/Mon – Sad/ Sat<br>10:00 – 15:30yh Sul/ Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Station Inn,** Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HT. 01766 512929

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 11:00 – 23:00 Llun/Mon – Sul/ Sul |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes /No |

**Y Tŵr, Trefor,** Caernarfon, Gwynedd, LL54 5LH, 01286 660436

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 8:30 – 14:00 Llun/ Mon – Sul/Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female |

| | |
|---|---|
| | Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Ffestiniog Railway,** Harbour station, Porthmadog, 01766 516031

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:00 – 23:00 Llun/Mon – Sul/Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Ardal Meirionnydd Area**

**Café at Dyffryn Ardudwy & Talybont Village Hall**, Dyffryn Ardudwy Near Barmouth, LL44 2BG.

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:00 – 16:00 Pob Dydd / Everyday |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Corris Craft Centre**, Corris, SY20 9RF, 01650 761584

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | Haf/Summer 10:00 -17:00<br>Gaeaf/ Winter 10:00 – 16:30yh |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**The Bryntirion Inn**, Llandderfel, Bala, LL23 7RA. 01678 530205 thebryntirioninn@aol.com

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 11.00 – 23.00 |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes /No |

**Railway Inn**, Abergynolwyn, Tywyn LL36 9YW, 01654 782279

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 12.00- 12.00 Hanner nos/ Midnight |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Royal Ship Hotel,** Queens Square, Dolgellau LL40 1AR 01341 422209

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 8.00 – 12:00 Hanner nos/Midnight |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Peniarth Arms,** Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9PH. 01654 288096

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 12.00 prynhawn/afternoon – 12:30yb/am |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Pieces for Places**, Caersalem Chapel, High Street, Abermaw, Barmouth, Gwynedd LL42 1DS, info@piecesforplaces.co.uk

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9:30 - 18:00 Llun/Mon – Sad/Sat<br>10:00 -16:00 Sul/ Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Toiledau Unisex Toilets |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Plas Coch Hotel,** 52 – 54 Stryd Fawr / High Street, Bala. Gwynedd. LL23 7AB

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 9.00– 23:00 Llun/Mon – Sul/ Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes /No |

**Y Badell Aur,** 35 Stryd Fawr, Bala, Gwynedd LL23 7AF

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | 8:00 – 20:00 Llun/Mon – Sul/Sun |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn /All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Nagoes /No |

**Gwesty Pengwern Cymunedol,** Llan Ffestiniog, Gwynedd LL41 4PB

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | Llun/Mon – Iau/Thur 18:00- 12:00 Hanner nos /Midnight<br>Gwener 17:30 – 12:00 Hanner nos/Midnight Sad/Sat – Sul/Sun 12:00 – 12:00 Hanner nos/Midnight |

| | |
|---|---|
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Nagoes / No |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Meirion Mill,** Dinas Mawddwy, Gwynedd SY20 9LS

| | |
|---|---|
| Oriau Agor / Opening Times | Llun/ Mon – Sad/ Sat 10:00 – 17:00<br>Sul/Sul 10:30– 17:00<br>Mawrth/March -<br>Tachwedd/ November<br>Llun/Mon – Sad/Sat 10:00 – 16:30<br>Sul/Sun 10:30 – 16:30<br>Rhagfyr/December a<br>Chwefror/Feburary<br>Ionawr ar gau / Closed January |
| Agor / Open | Trwy'r flwyddyn / All year |
| Cyfleusterau / Facilities | Merched / Female<br>Dynion/ Male |
| Toiled Anabl / Disabled Toilet | Oes / Yes |
| Cyfleusterau newid babanod / Baby Changing Facilities | Oes / Yes |

**Toiledau Cyhoeddus sydd yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

* Mae angen goriad RADAR i agor y toiledau cyhoeddus hygyrch hyn.
A RADAR key is required to open these accessible toilets.

| Lleoliad/ Location | Hygyrch? Accessible | Cyfeirnod Grid Grid Reference |
|---|---|---|
| Dôl Idris | Ydi / Yes | SH 732 115 |
| Llanfihangel y Pennant (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 675 085 |
| Llangywer | Ydi / Yes | SH 905 325 |
| Morfa Dyffryn (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 628 614 |
| Morfa Mawddach (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 572 224 |
| Nant Peris* (Tymhorol) | Ydi / Yes | SH 605 585 |
| Penmaenpool | Ydi / Yes | SH 695 185 |
| Pont Bethania | Ydi / Yes | SH 627 507 |
| Rhyd Ddu* | Ydi / Yes | SH 565 525 |
| Saith Groesffordd | Ydi / Yes | SH 746 213 |
| Ty Nant | Ydi / Yes | SH 995 444 |
| Canolfan Wardeiniaid Llyn Tegid | Ydi / Yes | SH 923 357 |
| Canolfan Wardeiniaid Ogwen | Ydi / Yes | SH 648 603 |
| Canolfan Wardeiniaid Pen y Pass | Ydi / Yes | SH 647 556 |
| Pencadlys A.P.C.E., Penrhyndeudraeth | Ydi / Yes | SH 615 395 |
| Plas Tan y Bwlch | Ydi / Yes | SH 657 407 |
| Cae Garnedd | Ydi / Yes | SH 845 403 |

**Atodiad 2**

**Asesiad o Angen**

**Ionawr 2019**



## Canlyniadau Holiadur Toiledau Cyhoeddus

### Methodoleg

Lansiwyd Holiadur Toiledau Cyhoeddus gan y Cyngor er mwyn canfod gwybodaeth a fydd yn eu helpu i adeiladu darlun o anghenion y gymuned, ac i helpu paratoi Strategaeth Toiledau Lleol. Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan mewn drwy:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan www.gwynedd.llyw.cymru
- Holiadur papur a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor
- Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau

Roedd yr holiadur ar gael ar ein gwefan yn www.gwynedd.llyw.cymru/ToiledauCyhoeddus o'r 6ed o Dachwedd hyd yr 17eg o Ragfyr 2018. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys, cyhoeddi datganiad i'r wasg ar y 13eg o Dachwedd ac ymgyrch ragweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ychwanegol, cylchredeg manylion yr ymgynghoriad i sawl corff, grŵp nodwedd a grŵp anodd eu cyrraedd. Ar ddiwedd y cyfnod, roeddem wedi derbyn cyfanswm o 1,202 o atebion drwy ein ffurflen ateb.

### Trosolwg o'r ymatebwyr i'r Holiadur Toiledau Cyhoeddus

Fe cafwyd 1,202 o ymatebwyr i'r Holiadur Toiledau Cyhoeddus.

| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 755 | 62.8% |
| Dyn / Gwryw | 380 | 31.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 34 | 2.8% |
| Heb Ateb | 23 | 1.9% |
| Arall | 10 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Grŵp oedran | Nifer | % |
|---|---|---|
| 15 oed neu iau | 5 | 0.4% |
| 16 - 24 oed | 40 | 3.3% |
| 25 - 44 oed | 345 | 28.7% |
| 45 - 64 oed | 573 | 47.7% |
| 65 - 84 oed | 216 | 18.0% |

| | | |
|---|---|---|
| 85+ oed | 6 | 0.5% |
| Heb Ateb | 17 | 1.4% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 994 | 82.7% |
| Ydw | 108 | 9.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 82 | 6.8% |
| Heb Ateb | 18 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymro / Cymraes | 541 | 45.0% |
| Sais / Saesnes | 311 | 25.9% |
| Prydeinwr / Prydeines | 260 | 21.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 3.7% |
| Albanwr / Albanes | 7 | 0.6% |
| Gwyddel(es) o Ogledd Iwerddon | 2 | 0.2% |
| Arall | 22 | 1.8% |
| Heb Ateb | 15 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Hil | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 1078 | 89.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 76 | 6.3% |
| Heb Ateb | 26 | 2.2% |
| Arall | 16 | 1.3% |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 4 | 0.3% |
| Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig | 1 | 0.1% |
| Asiaidd | 1 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| Rhywioldeb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hetrorywiol / Strêt | 966 | 80.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 144 | 12.0% |
| Heb Ateb | 40 | 3.3% |
| Arall | 21 | 1.7% |
| Dyn hoyw | 14 | 1.2% |
| Deurywiol (bisexual) | 12 | 1.0% |
| Dynes hoyw / lesbian | 5 | 0.4% |


| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

| **Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid ers eich genedigaeth?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 1057 | 87.94% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 93 | 7.74% |
| Heb Ateb | 46 | 3.83% |
| Ydi | 6 | 0.50% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.00%** |

**Canlyniadau'r holiadur**

1.Ydych chi'n ateb yr holiadur yma fel:


| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Preswylydd yng Ngwynedd | 809 | 67.3% |
| Ymwelydd i Wynedd | 234 | 19.5% |
| Rhywun sydd yn gweithio yng Ngwynedd | 39 | 3.3% |
| Person busnes lleol yng Ngwynedd | 33 | 2.7% |
| Aelod etholedig lleol | 20 | 1.7% |
| Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Chymuned | 9 | 0.7% |
| Cynrychiolydd grŵp neu sefydliad lleol | 7 | 0.6% |
| Arall | 31 | 2.6% |
| Heb Ateb | 20 | 1.7% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |



2. Pa mor aml ydych yn defnyddio toiledau cyhoeddus?
(Mae 'toiledau cyhoeddus' yn golygu toiledau cyhoeddus ac toiledau sy'n rhan o cynllun grant toiledau cymunedol e.e. mewn caffis neu siopau.)


| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Wythnosol | 446 | 37.1% |
| Achlysurol | 338 | 28.1% |
| Dyddiol | 208 | 17.3% |
| Misol | 160 | 13.3% |
| Byth | 28 | 2.3% |
| Heb Ateb | 22 | 1.8% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

Nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt 'Byth' yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu a 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio'r toiledau yn 'Ddyddiol' o gymharu a 17.3% yn gyffredinol.



3. Ydi'r oriau agor yn addas i chi?

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Nac ydi | 317 | 26.4% |
| Ydi | 849 | 70.6% |
| Heb Ateb | 36 | 3.0% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu a 26% yn gyffredinol.


| Nodwch Pam | Nifer |
|---|---|
| Angen ymestyn oriau agor. Maent wedi cau llawer rhy gynner gyda'r nos neu heb agor ddigon cynner yn y bore | 169 |
| Angen eu hagor drwy'r flwyddyn, nid tymhorol. Nifer yn cau yn ystod y Gaeaf | 62 |
| Anodd ffeindio rhai sydd ar agor, prin eu bod ar agor. Nifer o doiledau y sir wedi cau | 45 |
| Angen i'w hagor 24 awr | 35 |
| Angen eu hagor yn ystod oriau teithio e.e. amseroedd teithio cludiant cyhoeddus | 17 |
| Ddim yn ymwybodol o'r oriau agor/ Oriau agor yn amrywio / angen cysondeb | 14 |
| Rhai wedi'u cloi / toiledau anabl wedi cloi | 10 |
| Angen mwy o doiledau/ mewn ardaloedd gwledig / dim toiledau ar gael | 7 |
| Arall | 6 |

| | |
|---|---|
| Angen ystyried rhai sydd â cyflwr iechyd / anableddau | 6 |
| Gorfod defnyddio toiledau mewn busnesau, gorfod prynu rhywbeth i ddefnyddio'u toiledau / rheiny weithiau ddim ar agor ac felly dim darpariaeth ar gael | 6 |
| Angen eu goleuo'n well, gwella glendid a darpariaeth ymolch e.e. papur toiled | 5 |
| Angen ystyried y bosibilrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth ystyried oriau agor | 4 |
| Codi ffi i'w defnyddio yn anghyfleus o ran cael newid/ ystyried system talu modern | 4 |
| Darpariaeth hanfodol | 1 |

4. Ydi'r cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant?

| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 351 | 73.6% |
| Ydi | 98 | 20.5% |
| Heb Ateb | 28 | 5.9% |
| **Cyfanswm** | **477** | **100.0%** |

Nododd 725 o bobl nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt. Noder nad yw'r graff yn cynnwys atebion 'Ddim yn berthnasol'.





| **Os ddim, nodwch pam:** | **Nifer** |
|---|---|
| Dim digon o unedau newid ar gael | 152 |
| Hylendid gwael unedau newid | 93 |
| Unedau newid sydd yn bodoli eisoes angen ei moderneiddio / gwella | 25 |

| | |
|---|---|
| Dim digon o le i newid plant | 18 |
| Angen darparu cyfleusterau newid plant mewn toiledau dynion a merched | 12 |
| Ddim yn gwybod | 9 |
| Adeiladau yn aml rhy oer i newid plant | 8 |
| Unedau newid ddim yn hygyrch i bawb | 7 |
| Cyfleusterau ddim yn addas e.e. dim preifatrwydd | 7 |
| Sicrhau bod y cyfleusterau yn saff i'r cyhoedd | 6 |
| Angen sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi a dŵr poeth | 3 |
| Dim digon o doiledau cyhoeddus yn agored yn gyffredinol | 2 |
| Ddim yn fodlon talu am gyfleusterau newid plant | 2 |
| Angen gwella'r cyfleusterau ymolchi sydd gyda'r unedau newid | 2 |
| **Cyfanswm** | **346** |

5. Ydi'r cyfleusterau yn hygyrch i chi?

| | **Nifer o atebion** | **%** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 80 | 6.7% |
| Ydi | 1079 | 89.8% |
| Heb Ateb | 43 | 3.6% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu a 6.7% yn gyffredinol.

| Os ddim, nodwch pam: | Nifer |
|---|---|
| Cyfleusterau ddim yn hygyrch i drigolion gyda anableddau | 13 |
| Ddim yn gwybod | 12 |
| Cyfleusterau yn aml ar gau | 11 |
| Dim digon o ddarpariaeth yn y Sir | 11 |
| Oriau agor a cau anaddas yn gwneud yn anhygyrch | 7 |
| Cyfleusterau ddim yn cael ei darparu heb ffi | 5 |
| Cyfleusterau ddim mewn lleoliadau addas | 5 |
| Cyfleusterau ddim yn addas i rieni gyda plant | 3 |
| Cyfleusterau ddim yn addas i rheini gyda nam golwg | 3 |
| Cyfleusterau ddim yn hygyrch oherwydd diffyg mannau parcio | 1 |
| **Cyfanswm** | **71** |

6. Oes yna unrhyw nodwedd cydraddoldeb sy'n effeithio'n benodol ar pa mor addas yw'r toiledau i chi?

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| Anabledd | 124 | 10.3% |
| Oed | 119 | 9.9% |
| Rhyw | 77 | 6.4% |
| Beichiogrwydd / Mamolaeth | 22 | 1.8% |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 9 | 0.7% |
| Trawsrywiol | 8 | 0.7% |
| Crefydd | 7 | 0.6% |
| Hil | 3 | 0.2% |


*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

| Os oes, nodwch pam: | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd angen mynd i'r toiled yn aml | 32 | 19.0% |
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion gyda anableddau | 27 | 16.1% |
| Nid yw maint a math y cyfleusterau ddim yn addas e.e. Ciwbicl rhy gul i allu symud, grisiau yn anaddas i rai sydd a trafferthion symudedd, diffyg biniau/cyfleuster iechydol, diffyg bachyn ar gyfer ffon gerdded, | 23 | 13.7% |
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd â cyflwr meddygol penodol e.e. bowel/pledren | 22 | 13.1% |
| Ddim yn berthnasol | 17 | 10.1% |
| Teimlo’n anghyffyrddus gyda rhannu toiledau gyda phobl o ryw wahanol | 17 | 10.1% |
| Dim darpariaeth addas o fannau newid | 10 | 6.0% |
| Dylai unrhyw un allu defnyddio unrhyw doilet | 7 | 4.2% |
| Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd â nam golwg / golwg gwael | 4 | 2.4% |

| | | |
|---|---|---|
| Angen preifatrwydd | 3 | 1.8% |
| Arall | 2 | 1.2% |
| Cyfleusterau ble mae angen talu ffi ddim yn addas | 2 | 1.2% |
| Diffyg darpariaeth toiledau "gender neutral" | 2 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **143** | **100.0%** |

7. O'ch profiad chi, beth ydi safon y cyfleusterau sydd ar gael?

| | Nifer o atebion | % |
|---|---|---|
| 1 - Da iawn | 68 | 5.7% |
| 2 | 211 | 17.6% |
| 3 | 536 | 44.6% |
| 4 | 245 | 20.4% |
| 5 - Gwael iawn | 112 | 9.3% |
| Heb Ateb | 30 | 2.5% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |



8. Beth sy'n dda am y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

| **Be sy'n dda?** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Argaeledd y cyfleusterau | 236 | 26.5% |
| Cyfleusterau glân | 152 | 17.1% |
| Lleoliad da | 88 | 9.9% |
| Hygyrch / Hawdd i'w darganfod / Cyfleus | 61 | 6.9% |
| Hanfodol i drigolion Gwynedd | 59 | 6.6% |
| Cyfleusterau wedi'i cynnal yn dda | 44 | 4.9% |
| Hanfodol i ymwelwyr | 41 | 4.6% |
| Cyflenwad teg o nwyddau ymolchi e.e. sebon / papur toiled | 35 | 3.9% |
| Bodlon efo'r tymhorau neu oriau agor / cau presennol | 33 | 3.7% |
| Rhad ac am ddim | 29 | 3.3% |
| Hanfodol i deuluoedd gyda plant | 27 | 3.0% |
| Digon o doiledau cyhoeddus ar agored | 21 | 2.4% |
| Hanfodol i bobl sydd â cyflwr iechyd penodol | 19 | 2.1% |
| Hanfodol i'r henoed | 12 | 1.3% |
| Addasrwydd cyfleusterau i'r henoed / pobl anabl | 9 | 1.0% |
| Parcio cyfleus o amgylch y cyfleusterau | 6 | 0.7% |
| Hawdd i'w defnyddio | 6 | 0.7% |
| Ddim yn gwybod | 6 | 0.7% |
| Awyrgylch saff | 5 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **889** | **100.0%** |


9. Beth gellir ei wella o ran y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus?

| **Be ellir ei wella?** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Hylendid y cyfleusterau | 307 | 21.1% |
| Cynyddu / amddiffyn nifer Toiledau Cyhoeddus sydd yn agored | 226 | 15.6% |
| Angen gwella / moderneiddio cyfleusterau e.e. mannau golchi | 192 | 13.2% |
| Adolygu cyfnodau / oriau agor a chau | 175 | 12.0% |
| Sicrhau cyflenwad o nwyddau ymolchi addas e.e. sebon / papur toiled | 91 | 6.3% |
| Gwella / sicrhau safon yr offer sydd yn y cyfleusterau e.e. peiriannau sychu. clo drysau | 77 | 5.3% |
| Angen i'r cyfleusterau gael ei goleuo'n well | 55 | 3.8% |
| Darparu Toiledau Cyhoeddus am ddim trwy'r Sir | 49 | 3.4% |
| Dim byd | 39 | 2.7% |
| Digon parod i dalu ffi am ddefnyddio Toiledau Cyhoeddus, neu ffyrdd amgen o ddenu arian | 36 | 2.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Gwneud yn haws i ddarganfod toiledau e.e. arwyddion / ‘Ap’ ayb | 33 | 2.3% |
| Angen mwy o gyfleusterau sydd yn addas ar gyfer newid plant | 32 | 2.2% |
| Sicrhau fod pob safle yn saff i'r cyhoedd | 28 | 1.9% |
| Gwella addasrwydd darpariaeth i bobl sydd gyda chyflwr iechyd / anabledd | 26 | 1.8% |
| Sicrhau bod y cyfleusterau yn hygyrch i bawb | 24 | 1.7% |
| Angen hybu / ehangu cynllun toiledau busnesau lleol | 21 | 1.4% |
| Mwy o finiau tu mewn / o amgylch y toiledau | 13 | 0.9% |
| Gwresogi'r adeiladau Toiledau Cyhoeddus | 8 | 0.6% |
| Sicrhau llefydd parcio o amgylch Toiledau Cyhoeddus | 6 | 0.4% |
| Datblygu cyfleusterau ‘gender neutral’ | 3 | 0.2% |
| Trosglwyddo mwy o gyfleusterau i reolaeth y gymuned | 3 | 0.2% |
| Gwybodaeth gyswllt ar gael os oes problemau gyda'r ddarpariaeth | 2 | 0.1% |
| Darparu cawodydd | 2 | 0.1% |
| Darparu ystafelloedd newid | 2 | 0.1% |
| Arall | 2 | 0.1% |
| Darpariaeth system CCTV i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | **1453** | **100.0%** |

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fusnesau lleol sydd yn rhan o'r cynllun grant toiledau cymunedol?


| | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Heb Ateb | 38 | 3.2% |
| Nac ydw | 925 | 77.9% |
| Ydw | 239 | 19.9% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |




11. Pa mor hawdd ydi ffeindio toiled cyhoeddus pan mae angen?

| | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Anodd | 363 | 30.2% |
| Anodd iawn | 76 | 6.3% |
| Ddim yn hawdd nac yn anodd | 501 | 41.7% |
| Hawdd | 196 | 16.3% |
| Hawdd iawn | 41 | 3.4% |
| Heb Ateb | 25 | 2.1% |
| **Cyfanswm** | **1202** | **100.0%** |

Pa mor hawdd ydi ffeindio toiled cyhoeddus pan mae angen?




12. Pa ffordd hoffech chi darganfod/ ffeindio allan lle mae'r toiledau cyhoeddus agosaf?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ap rhyngweithiol | 399 | 33.2% |
| Gwefan Cyngor Gwynedd | 290 | 24.1% |
| Map rhyngweithiol | 327 | 27.2% |
| Arwyddion | 943 | 78.5% |
| Arall | 82 | 6.4% |

*Roedd modd dewis mwy nag un ateb

| Arall | Nifer |
|---|---|
| Gofyn i eraill e.e. pobl leol, mewn siopau | 21 |
| Google/ Google Maps | 9 |
| Arall | 27 |
| Mapiau Papur / Hysbysfyrddau/ Gorsafoedd Bws | 11 |
| Cyfryngau Cymdeithasol/Gwefannau Allanol | 6 |

**Proffil Gwynedd -** Linc i ffynonellau data:

**Anghenion Poblogaeth**

amcangyfrifon Poblogaeth ONS - Stats Wales

rhagolygon poblogaeth - Stats Wales

**Anghenion Iechyd**

disgwyliad oes - Stats Wales

Daffodil - Llywodraeth Cymru

Ymateb Crohn's & Colitis Uk i Bil Iechyd Cymru

[Crohn's & colitis uk](#) Gwefan yr elusen

**Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"**
[Canlyniadau Ymgynghoriad](#) - Cyngor Gwynedd

**Twristiaeth**
Mae'r sector twristiaeth yn un bwysig iawn i Gwynedd. Mae'r adroddiad STEAM yn dangos bod dros 7.25 miliwn o dwristiaid wedi ymweld a Gwynedd yn 2017, nifer sydd wedi cynyddu yn flynyddol ers 2012. Mae twristiaid yn treulio 3 diwrnod y flwyddyn yn Ngwynedd ar gyfartaledd. Mae rhan o Barc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli yng Ngwynedd gan gynnwys Yr Wyddfa. Mae ardal Arfordir Llŷn wedi ei nodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Cestyll Brenin Edward yn Caernarfon a Harlech, a muriau tref Caernarfon wedi eu dynodi fel Safleoedd Treftadaeth y Byd gan UNESCO. Mae nifer o draethau fflag glas yn Ngwynedd gan gynnwys

- Abermaw
- Abersoch
- Cricieth
- Dinas Dinlle
- Morfa Bychan
- Pwllheli
- Tywyn

(Cadw Cymru'n Daclus 2017)



Mae atyniadau poblogaidd eraill yn cynnwys Zip World yn Bethesda a Gelli Gyffwrdd ger Y Felinheli.

**Atodiad 3**

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Strategaeth Toiledau Lleol |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

**Strategaeth Toiledau Lleol**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn dod ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

Nod Rhan 8 yw gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei chynllunio, drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw o ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl.

Bwriedir y broses o ddatblygu'r strategaeth ei gwneud yn bosib i ni ystyried opsiynau ehangach sydd ar gael o ran darparu toiledau i'r cyhoedd, a mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n ymwneud â darparu'r cyfleusterau mewn cymunedau, a hynny gyda lleihad difrifol yng nghyllideb y gwasanaeth.

Wrth ddatblygu Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Gwynedd, rydym yn ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n debygol y bydd y strategaeth yn cael fwy o effaith ar rhai nodweddion gwarchodedig nac eraill, ond hyderwn ein

| |
|---|
| bod wedi rhoi ystyriaeth i hynny, a cheisio lliniaru effaith negyddol yn ein amcanion. |

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Amanda Murray – Rheolwr Prosiect, Priffyrdd a Bwrdeistrefol |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| Tachwedd 2018 |

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Swyddogion Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol<br>Y Cyhoedd<br>Grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig<br>Cynghorau Cymuned a Thref<br>Sefydliadau Trydydd Sector perthnasol<br>Sefydliadau Twristiaeth |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig?**

| |
|---|
| Fel rhan o Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" a Holiadur Toiledau Cyhoeddus ymgysylltwyd â:<br><br>Grŵp Hunan Adfocatiaeth<br>Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd<br>Grŵp Craidd Cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r grwpiau canlynol:<br>• Grŵp Ffoaduriaid;<br>• Cytûn;<br>• Grŵp Mynediad Meirionnydd;<br>• Cyngor Pobl Hŷn;<br>• Men's Sheds Caernarfon;<br>• Hunaniaith; |

- Bangor Indians and Friends Association;
- Unique Transgender Network;
- Council of Sign Sight Sound;
- Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru;
- Canolfan Cymorth Dioddefwyr;
- Canolfan Islamaidd Bangor

Grŵp LGBT+ GISDA

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

**Anabledd**
Roedd 38% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r oriau agor toiledau cyhoeddus yn addas iddynt, o gymharu â 26% yn gyffredinol.

Roedd 16.7% o bobl sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd o dan adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nad yw'r cyfleusterau yn hygyrch iddynt, o gymharu â 6.7% yn gyffredinol

Prif sylwadau o ran anabledd oedd:
Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd angen mynd i'r toiled yn aml.
Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion gydag anableddau
Cyfleusterau ddim yn addas i drigolion sydd â chyflwr meddygol penodol e.e. bowel/pledren

**Oedran**
Yn holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd 8.9% o bobl o dan 25 oed nad ydynt 'Byth' yn defnyddio toiledau cyhoeddus o gymharu â 2.3% yn gyffredinol. Hefyd, nododd 13.3% o bobl o dan 25 oed eu bod yn defnyddio'r toiledau yn 'Ddyddiol' o gymharu â 17.3% yn gyffredinol.

Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd
Mae Toiledau cyhoeddus yn un o wasanaethau mwyaf pwysig i'r grŵp yma. Nodwyd gan y grŵp fod angen digon o doiledau mewn mannau cyhoeddus er mwyn galluogi pobl hŷn i fynd allan a theithio â hyder.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**
Yn holiadur Toiledau Cyhoeddus, nododd 78% o ymatebwyr (gan eithrio'r rhai a oedd heb ateb ac wedi nodi nad oedd y cwestiwn yn berthnasol) nad yw cyfleusterau yn addas ar gyfer newid plant.

Mae'r asesiad o angen wedi adnabod nad oes gan nifer o doiledau cyhoeddus cyfleusterau newid babanod. Noder fod y rhaid sydd gyda chyfleusterau yn aml iawn yn fudr ac anaddas, yn o gystal â bod y tymheredd yn oer iawn ar gyfer newid babanod. Mae eraill yn nodi nad oes digon o le, enwedig wrth ystyried bod nifer fawr gyda phramiau. Hoffai eraill fwy o breifatrwydd wrth newid babanod, yn hytrach na mewn golwg  defnyddwyr eraill.

**Cyfeiriadedd Rhywiol, Ailbennu Rhywedd**
Ymgynghorwyd â Grŵp LGBT+ GISDA. Nododd rhai bod angen i'r Cyngor ddarparu toiledau 'gender neutral' a bod y cyfleusterau ar hyn o bryd yn anaddas, yn fudr ac yn cau yn rhy gynnar.

**Crefydd neu Gred (neu ddiffyg Cred)**
Er nad oedd canlyniadau Holiadur Toiledau Cyhoeddus yn amlygu y byddai unrhyw effaith ar y nodwedd yma, mae'n werth nodi ein bod wedi ystyried bod rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

**Anabledd**
Mae elusennau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl o'r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu'n ofnus o fentro o'u cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. Gall rhai anhwylderau neu amhariadau wneud yr effaith yn waeth.

Yn ôl elusen crohn's & colitis uk mae gan o leiaf 300,000 o bobl yn y DU Clefyd Crohns neu Colitis Ulcerative, a adnabyddir fel 'Inflamatatory Bowel Disease' (IBD).

**Oedran**
Papur "Help the Aged": Ddim Unlle i fynd: Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhrydain (Mai 2007) yn amlygu'r gost gymdeithasol i bobl hyn ar y lleihad mewn cyfleusterau cyhoeddus:

12% o bobl hyn (1.2 miliwn) yn teimlo yn gaeth i'w cartref, mae 13% o bobl hyn (1.26 miliwn) ddim yn mynd allan mwy nag unwaith yr wythnos ac o gwmpas 100,000 byth yn mynd allan.

Mae ei thystiolaeth yn awgrymu bod y diffyg mewn cyfleusterau cyhoeddus yn ffactor cyfrannol sylweddol i'r unigedd o bobl hyn, gyda mwy na hanner o bobl hyn yn teimlo bod diffyg cyfleusterau cyhoeddus lleol yn nadu iddynt fynd allan mor aml a dymunent.

## 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid oes gwybodaeth benodol i Wynedd neu lefel daearyddol is am gyflyrau iechyd megis Crohns a Colitis, na am tueddiadau na galw ymwelwyr.

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith |
| **Anabledd** | Positif / negyddol / dim | Positif<br>Fel rhan o'r Strategaeth Toiledau Lleol, bydd y Cyngor yn:<br><br>Cynnal adolygiad o drefniadau glanhau, oriau agor, sy'n rhan o amcan o ddarpariaeth gyfleusterau glan, diogel a gynhelir yn briodol. Bydd hyn yn ymateb i bryderon safon glendid ac oriau agor anaddas.<br><br>Byddwn yn gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo fel rhan o amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'.<br><br>Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysebu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'. |
| **Rhyw** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli.<br><br>Roedd rhai sylwadau yn Holiadur Toiledau Cyhoeddus yn nodi y byddai rhai yn gallu teimlo'n anghyffyrddus gyda rhannu toiledau gyda phobl o ryw wahanol. |
| **Oedran** | Positif / negyddol / dim | Fel rhan o'r Strategaeth Toiledau Lleol, bydd y Cyngor yn:<br><br>gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'.<br><br>Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'.<br><br>Bydd amcan 'Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol' yn rhoi ystyriaeth i sut allwn wella arwyddion a chyfeirio pobl tuag at y toiledau a'u gwneud yn haws i ddarganfod. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif / negyddol / dim | Gyda rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred. Er mwyn diwallu'r angen yma bydd y Strategaeth Toiledau Lleol yn:<br><br>Parhau i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref a grwpiau a sefydliadau er mwyn sicrhau dewis eang o ddarpariaeth a chadw cynifer o doiledau cyhoeddus traddodiadol ar agor yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli.<br><br>Mae'r Cyngor wrth gwrs yn cefnogi person trawsryweddol i ddefnyddio'r toiled y mae'n teimlo'r mwyaf cyffyrddus yn ei ddefnyddio, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Mae rhieni a gwarcheidwad o fabanod a phlant ifanc angen gallu defnyddio cyfleusterau addas mewn cyfleusterau cyhoeddus merched a dynion wrth ymweld â mannau cyhoeddus ac yn aml ar fyr rybudd.<br><br>Mewn ymateb i bryder fod prinder o ran cyfleusterau a'u bod yn safon glanweithdra yn isel, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o drefniadau glanhau, a chynnal awdit o'r nifer o fannau newid babanod yn amcan 'Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol'. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Nac ydi |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Oherwydd yr amcanion:<br>• Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill.<br>• Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol; |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae'r amcan hyrwyddo yn cefnogi a meithrin perthnasau da wrth hysbysu yn well y cyfleusterau a'i lleoliadau ac oriau agor i alluogi pobl hyn fod yn fwy hyderus o fynd allan. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Yn gyffredinol mae'r Strategaeth Toiledau Lleol am gael effaith bositif ar nodweddion cydraddoldeb a nodwyd yn rhan 3.1.

Bwriad y strategaeth yw ceisio gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei ddarparu. Wrth ddatblygu'r strategaeth, mae'r Cyngor wedi asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac wedi defnyddio'r wybodaeth i gynnig 6 amcanion er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl o fewn y gyllideb, a ble mae'n

| |
|---|
| briodol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Na |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

## 5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?


| |
|---|
| Fel rhan o'r Strategaeth bydd y Cyngor yn llunio ac yn cyhoeddi 'datganiad cynnydd interim' sy'n egluro'r camau y mae wedi eu cymryd yn unol â'i strategaeth.<br><br>Bydd y Cyngor yn adolygu'r strategaeth ac yn llunio datganiad cynnydd diwedd cyfnod cyn pen blwyddyn ar ôl pob etholiad llywodraeth leol arferol. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **7fed Chwefror 2019** |
| **TEITL** | **TREFNIADAU RHEOLI PARCIO** |
| **AWDUR** | **Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dafydd Meurig** |
| **PWRPAS** | **Codi ymwybyddiaeth am drefniadau a chyfrifoldebau rheoli parcio'r Cyngor, allbynnau'r gwaith a'r heriau ar gyfer y dyfodol** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhannu gwybodaeth am drefniadau a chyfrifoldebau'r Cyngor yn y maes rheoli Parcio. Bydd yn esbonio natur y gwaith a gyflawnir ar hyn o bryd, y newidiadau sydd wedi bod dros y blynyddoedd diweddar a'r heriau sydd o'n blaenau.

1.2 Mae'r gwaith o reoli parcio yn gorwedd gyda'r Uned Parcio sydd yn rhan o'r Gwasanaeth Eiddo yn Adran yr Amgylchedd.





1.3 Mae dwy brif elfen i waith yr uned hon, sef

- rheoli 117 o feysydd parcio ledled y sir
- gweithredu trefniadau gorfodaeth parcio

1.4 Fe drosglwyddwyd yr elfen gorfodaeth oddi wrth yr Heddlu i'r Awdurdodau Lleol o dan y drefn Dadgriminaleiddio Parcio yn 2007. Roedd hwn yn wasanaeth a dyletswydd cwbl newydd i Awdurdodau Lleol ar y pryd ac roeddem yn cychwyn gyda dalen lân. Ar y pryd, oedd yn anodd iawn gwybod beth fyddai hyd a lled y gwaith a dros y blynyddoedd rydym wedi addasu'n adnoddau a threfniadau wrth i ni ddod i ddeall y gwir sefyllfa.

1.5 Fel y dengys y diagram isod, hyd at oddeutu 2012 roedd yr Uned Parcio yn cynnwys 12 o Swyddogion Gorfodaeth, 2 Uwch Swyddog Gorfodaeth a dau swyddog ar lefel rheolaethol. Bellach, mae'r nifer Swyddogion Gorfodaeth wedi lleihau i 7, gydag un Uwch Swyddog Gorfodaeth ac un Rheolwr. Wrth gyflwyno technoleg symudol, mae'r swyddfa gefn o 3 swyddog hefyd wedi diflannu'n llwyr erbyn hyn. Mae hyn wedi arwain at arbediad refeniw blynyddol o £225,000 yng nghostau darparu'r gwasanaeth rheoli parcio.




## 2. CYFRIFOLDEBAU

2.1 Mae dau brif faes gwaith dan ofalaeth yr Uned Parcio, sef


- gweithredu trefniadau Gorfodaeth Parcio
- rheoli darpariaeth o ofod parcio addas yn unol â Strategaeth Parcio'r Cyngor

**<u>Gorfodaeth Parcio</u>**

2.2 Gosodir gwahanol gyfyngiadau a hawliau defnydd (ar ffurf Gorchmynion Statudol) ar ein rhwydwaith ffyrdd gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth gyda'r nod o'u gwneud yn ddiogel ar gyfer modurwyr a cherddwyr. Prif ddyletswydd y Swyddogion Gorfodaeth Parcio yw gorfodi'r Gorchmynion Statudol yma er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

2.3 Er nad oes neb yn hoff o dderbyn dirwy parcio, mae galw mawr gan gymunedau ledled y sir am bresenoldeb gan y Swyddogion Gorfodaeth Parcio, yn arbennig felly mewn ardaloedd trefol, lleoliadau gwyliau, ger ysgolion, mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o dai, lle mae plant yn chwarae ayb.

2.4 Mae sicrhau gorfodaeth deg a thryloyw yn rhan o bwrpas yr Uned hon. Mae'r trefniadau i weinyddu'r drefn yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth o Awdurdodau Cymru. Cynigir trefn apêl syml a'r hawl i apelio i feirniad annibynnol os yn anfodlon. Fel y dengys y graff isod, erbyn heddiw, eithriadau prin yw achos lle gwelir dyfarniad gan feirniad annibynnol yn dod i gasgliad fod y Cyngor wedi cymryd camau gorfodi yn annheg. Mae pob dyfarniad o'r fath yn rhoi'r cyfle i ni adolygu ein trefniadau a gwneud gwelliannau lle bo angen.




**<u>Rheoli darpariaeth o ofod parcio addas yn unol â Strategaeth Parcio'r Cyngor</u>**

2.5 Mae gan y Cyngor 117 o feysydd parcio ledled y sir. Mae 60 o'r rhain yn rhai talu ac arddangos a'r gweddill yn ddi-dâl yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu sefydlu yn y Strategaeth Parcio.

2.6 Mabwysiadwyd y Strategaeth, sy'n cynnwys y trefniadau rheoli parcio a'r strwythur ffioedd parcio presennol gan Gabinet y Cyngor ar 19 Chwefror 2015 (copi o'r adroddiad yn Atodiad A). Mae'n werth nodi bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y pryd wedi craffu'r cynnwys mewn manylder yn eu cyfarfodydd ar y 10 Rhagfyr 2013 a 1af Hydref 2014 fel rhan o'r broses o lunio'r Strategaeth yma.

2.7 Mae parcio yn gallu bod yn faes cynhennus, ac fe roedd yr adolygiad ar drefniadau yn gyfle i sicrhau bod pob rhan o reolaeth parcio yn derbyn sylw, bod cysondeb ar draws y Sir, a bod yr holl faterion a ystyrir yn plethu gyda'i gilydd. Mae felly yn werthfawr i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fod yn ymwybodol o'r holl drefniadau wrth ystyried y maes hwn, yn arbennig wrth ystyried yr heriau sy'n debygol o godi yn y blynyddoedd nesaf. Yn gryno iawn mae'r Strategaeth yn rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol:

- <u>Strwythur ffioedd parcio- y brif egwyddor yma, heblaw am sicrhau cysondeb a thegwch, ydi fod costau o aros mewn canolfannau am gyfnodau hirach yn costio llai pro rata er mwyn annog aros yn hirach er budd yr economi leol. Mae yna hefyd gyfyngiad ar faint o amser a ellir parcio mewn maes parcio arhosiad byr er mwyn sicrhau trosiant a bod llecynnau ar gael i'r sawl sydd angen 'picio' i ganolfannau.</u>

- Sefydlu meini prawf ar gyfer gwahanol fatha o leoliadau - sicrhau bod maint a chymeriad canolfannau yn cael ystyriaeth gyson, a bod ffioedd ar gyfer canolfannau tebyg yr un fath.

- Sefydlu meini prawf ar gyfer dynodiadau arhosiad hir a byr- i sicrhau cysondeb a thegwch.

- Parcio Nadolig- ceisiwyd sefydlu canllaw clir ar gyfer parcio Nadolig, gan amlygu'r golled incwm fyddai'n deillio o ddarparu cyfnod o barcio di-dâl.

- Parcio ar gyfer deiliad bathodynnau glas- ystyriwyd opsiynau gyda llygaid ar sut mae awdurdodau cyfagos y rheoli parcio gan ddeiliad bathodyn glas.

- Parcio ar y Stryd- adnabuwyd lleoliadau lle mae angen buddsoddiad cyfalaf i wella darpariaeth parcio a chyfle i godi ffi am barcio yno er mwyn sicrhau rheolaeth a defnydd da.

- Parcio blynyddol- adolygwyd y ffioedd ar gyfer tocyn parcio blynyddol a diddymwyd y ffi uwch oedd yn cael ei godi ar rai oedd yn byw y tu allan i'r sir.

- Parcio i Breswylwyr- teimlwyd bod y trefniadau parcio i breswylwyr yn addas fel ag yr oedd.

- Rheoli meysydd parcio preifat- cydnabuwyd bod cyfle a llwyddiant mewn rheoli asedau eraill, a phenderfynwyd parhau a chadw llygaid ar wir gostau.

- Talu heb arian parod- rhoddwyd hyn ymlaen fel cynllun peilot i gael peiriannau sy'n derbyn taliadau gyda cherdyn. Mae hyn wedi ei wireddu mewn 6 lleoliad yn ddiweddar ac erbyn hyn mae'r costau o sefydlu'r fath drefniant wedi gostwng i lefel lle mae yn debygol y gwelwn gynnydd pellach yn y nifer beiriannau yn ein meysydd parcio lle mae opsiwn i dalu gyda cherdyn.

- Materion heb eu datblygu ymhellach:

    - **Talu wrth adael-** oherwydd yr oblygiadau ariannol cyfalaf a chynnal a chadw, staffio ar alw a chymhlethdodau ymarferol penderfynwyd nad oedd hwn yn opsiwn doeth i'w ddatblygu
    - **Adnabod rhif platiau yn awtomatig**- oherwydd y buddsoddiad cyfalaf, y ddelwedd a roddir i ymwelwyr a'r cymhlethdodau all ddeillio ni ddatblygwyd hyn fel opsiwn
    - **Gorfodaeth TCC**- oherwydd oblygiadau ariannol, cymhlethdod a delwedd ni ddatblygwyd hyn fel opsiwn.

2.8 Gellir gweld o'r holl ystyriaethau uchod fod trefniadaeth parcio wedi cael adolygiad manwl iawn yn 2015, ac mae un neu ddau o newidiadau pellach wedi eu cyflawni ers sefydlu'r trefniadau sef:

2.9 **Parcio am ddim dros gyfnod y Nadolig -** Wrth fabwysiadu'r Strategaeth Parcio nodwyd dymuniad i barhau i gynnig cyfnod o barcio di-dâl er mwyn ceisio denu mwy o siopwyr i ganol dinas a threfi siopa Gwynedd. Ar y pryd roedd bwriad i gynnig parcio am ddim o'r penwythnos cyn yr wythnos lawn olaf yn arwain at wythnos y Nadolig, hyd at Ragfyr y 27ain. Er bod y bwriad wedi derbyn croeso, roedd hyd y cyfnod oedd yn cael ei gynnig ar gyfer parcio am ddim yn newid yn flynyddol yn ddibynnol ar ba ddiwrnod o'r wythnos oedd dydd Nadolig. Er mwyn ceisio cynnig eglurder i siopwyr a chwsmeriaid, ail ddiffiniwyd y cyfnod fel bo modd defnyddio'r meysydd parcio yn ddi-dâl o Ragfyr y 15fed pob blwyddyn.

2.10 **Sefydlu "Tocyn Parcio Lleol"** - Yn ystod y broses o ymgynghori ar gyflwyno trefniadau talu ac arddangos mewn meysydd parcio ychwanegol, daeth i'r amlwg fod angen rhoi ystyriaeth i un maes oedd yn creu cryn bryder mewn sawl cymuned, sef sefyllfa preswylwyr oedd yn arfer parcio eu ceir mewn meysydd parcio ger eu cartrefi, a'r pryder na fyddant yn gallu gwneud hynny yn y dyfodol. Roedd sawl sylw yn cyfeirio at y ffaith nad oes lle parcio ger eu tai a'u bod yn llwyr ddibynnol ar allu parcio eu car yn y maes parcio agosaf at eu cartref.


2.11 Nid oes unrhyw ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu llecyn parcio am ddim i berchnogion tai wrth gwrs. Fodd bynnag, yn dilyn derbyn y sylwadau hyn, credwyd fod lle i'r Cyngor geisio cynorthwyo gyda sefyllfaoedd o'r fath ac i'r perwyl hwnnw sefydlwyd Tocyn Parcio Lleol newydd a fyddai'n rhoi cynnig i breswylwyr tai i gael yr hawl i brynu tocyn parcio ar gyfer y maes parcio tymor hir agosaf at eu cartref. Byddai felly wedi ei dargedu'n benodol at y rhai hynny sydd fel arall heb le i barcio ger eu cartrefi. Byddai cost y Tocyn parcio Lleol newydd yn £60 am y flwyddyn neu ychydig dros £1.00 yr wythnos.

2.12 Cyflwynwyd y tocyn hwn yn Ebrill 2017, ac mae 177 o bobl wedi manteisio ar y tocyn hyd yma eleni. Mae argaeledd y tocyn hefyd wedi codi ymwybyddiaeth trigolion o'r Tocyn Parcio Blynyddol (sy'n caniatáu parcio mewn unrhyw faes parcio tymor hir yn y Sir). O ganlyniad mae sawl un wedi gweld y tocyn hwnnw'n atyniadol, ac mae 2125 Tocyn wedi ei werthu hyd yma eleni.

2.13 **Meysydd Parcio Tymor Gwyliau yn unig -** Hefyd yn ystod y broses o ymgynghori ar gyflwyno trefniadau talu ac arddangos mewn meysydd parcio ychwanegol, bu i sawl un nodi eu bod rhai meysydd parcio wedi eu dynodi fel rhai talu ac arddangos oherwydd eu bod yn cael eu heffeithio gan y tymor gwyliau ac os felly nid oedd yn synhwyrol codi tâl ym misoedd y gaeaf. Derbyniodd y Cabinet y rhesymeg honno ac o ganlyniad dim ond yn ystod y tymor gwyliau mae angen talu am barcio yn y meysydd parcio hyn.

## 3. INCWM PARCIO

3.1 Dengys y graff isod fod y trefniadau talu ac arddangos sydd mewn bodolaeth mewn 60 o'n meysydd parcio, ynghyd â'r Tocynnau Parcio Blynyddol a'r taliadau a ddaw o orfodaeth parcio, wedi arwain at incwm fel a ganlyn dros y 4 blynedd ddiwethaf:




3.2 Mae'r cyfanswm incwm felly wedi cynyddu o £1.92M yn 2014/15 i £2.65M erbyn 2017/18, cynnydd o 38%.

3.3 Fe welir o'r graff fod yr incwm o Orfodaeth wedi aros yn eithaf cyson ar hyd y blynyddoedd. Mae'r incwm o docynnau parcio wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn cyflwyno'r Tocyn Parcio Lleol newydd yn 2017. Mae'r prif gynnydd yn yr incwm o feysydd parcio, yn bennaf yn dilyn cyflwyno trefniadau talu arddangos mewn 10 o feysydd parcio ychwanegol.

3.4 Mae'r incwm bellach yn rhan allweddol o incwm refeniw blynyddol y Cyngor ac yn gyfraniad gwerthfawr tuag at gynnal gwasanaethau. Mae deddfwriaeth yn mynnu ei bod yn ofynnol fod unrhyw incwm a gynhyrchir o reoli parcio yn cael ei ail-fuddsoddi yn y rhwydwaith priffyrdd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwario dros £6M y flwyddyn ar reoli a chynnal y rhwydwaith Priffyrdd, mae'r incwm Parcio yn cyfrannu bron i hanner y swm yma felly.

3.5 Pe na fyddai'r incwm yma yn bodoli, byddai angen i'r Cyngor ymdopi gyda'r golled refeniw blynyddol sylweddol hwn yn yr un modd ac mae'n ceisio ymdopi'r gyda thoriadau eraill i'r gyllideb refeniw.

**4. HERIAU AR GYFER Y BLYNYDDOEDD I DDOD**

4.1 Mae'r brif her yn y maes yma yn debygol o ddod o'r angen i barhau i geisio cynyddu'r incwm refeniw blynyddol fel cyfraniad tuag at geisio gwarchod y Cyngor rhag gorfod gwneud mwy o arbedion mewn meysydd eraill. Mae unrhyw incwm newydd a ellir ei gynhyrchu ar gael fel cyfraniad tuag at y diffyg yng nghyllideb refeniw'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac ar hyn o bryd rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer ceisio cynydd o £180,000 o incwm ychwanegol o feysydd parcio. Rydym hefyd yn ceisio sefydlu cynllun gwefru ceir trydanol gyda'r nod o greu incwm ychwanegol pellach o £50,000 y flwyddyn.

4.2 Yn ogystal, mae gofyn hefyd ceisio ymdopi gydag effaith chwyddiant yn flynyddol h.y. mae effaith chwyddiant yn golygu fod y targed incwm parcio yn cynyddu bob blwyddyn (£197,000 dros y 5 mlynedd ddiwethaf a £47,000 ychwanegol yn y flwyddyn ariannol nesaf) ac felly mae angen ymdrech sylweddol i geisio darganfod ffyrdd i gynyddu'r incwm i gwrdd ag effaith chwyddiant cyn y gellir ystyried cyfrannu unrhyw beth tuag at darged arbedion y Cyngor.

4.3 Os am gyfarch effaith chwyddiant a chyfrannu swm o £180,000 tuag at y targed arbedion, gellir amcanu erbyn 2022/23 y bydd angen i'r incwm blynyddol fod oddeutu £450,000 yn uwch nag yw heddiw.

4.4 O ystyried hyn oll, mae'r opsiynau cynhyrchu incwm newydd sydd ar gael i'r Cyngor eu hystyried yn debygol o gynnwys y canlynol:

4.5 **Cynyddu'r ffioedd parcio** - gellir amcanu effaith cynyddu'r ffioedd parcio fel â ganlyn:

| **Cyfnod parcio** | | **Presennol** | **Cynnydd 10%** | **Cynnydd 15%** | **Cynnydd 20%** |
|---|---|---|---|---|---|
| Tymor Byr | 1 awr | £1.00 | £1.10 | £1.15 | £1.20 |
| | 2 awr | £2.00 | £2.20 | £2.30 | £2.40 |
| | 3 awr | £3.00 | £3.30 | £3.45 | £3.60 |
| Tymor hir (cyfartaledd gan fod amrywiad mewn ffioedd gwahanol fandiau) | Hyd at 4 awr | £2.00 | £2.20 | £2.30 | £2.40 |
| | Hyd at 8 awr | £3.00 | £3.30 | £3.45 | £3.60 |
| | Hyd at 12 awr | £4.00 | £4.40 | £4.60 | £4.80 |
| **Amcan o'r cynnydd incwm** | | | £195,765 | £293,648 | £391,531 |

4.6 **Parcio am ddim dros y Nadolig** – ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnig parcio am ddim yn ei holl feysydd parcio rhwng Rhagfyr y 15fed a'r 27ain. Mae'r golled incwm yn deillio o hyn oddeutu £45,000 y flwyddyn.

4.7 Y bwriad tu ôl i'r cynllun hwn oedd ceisio rhoi hwb i'r economi leol wrth geisio gwneud y stryd fawr yn atyniadol ar adeg prysuraf y flwyddyn o ran gwariant mewn siopau. Fodd bynnag, mae'n aneglur os yw'r strategaeth hon yn cyflawni ei phwrpas. Mae rhan helaeth o'r meysydd parcio sy'n agos at y Stryd Fawr yn rhai tymor byr (parcio am hyd at 3 awr yn unig) a hynny er mwyn hybu trosiant gydol y dydd a sicrhau y gall mwy o bobl gael mynediad at le parcio yn ystod y dydd. Ar yr union adeg brysur y byddai trosiant o'r fath yn hwyluso gallu pobl i ymweld â chanol trefi, mae ein polisi o beidio â chodi tâl yn golygu fod llai o drosiant ac felly llai o siawns o allu darganfod lle hwylus i barcio.

4.8 Rydym hefyd wedi cynnal arolwg mewn 8 maes parcio prysur dros gyfnod Nadolig 2018. Mae'r arolwg yn dangos fod y meysydd parcio hyn yn llenwi'n fuan iawn yn y bore (erbyn 9 o'r gloch) a bod hyd at 35% o'r llefydd parcio yn llawn am isafswm o 6 awr cyn ymadael. Mae hefyd yn dangos fod y nifer o lefydd sy'n cael eu defnyddio fel hyn yn cynyddu'n ddyddiol yn ystod yr wythnos waith.

4.9 Mae'r arolwg yn awgrymu'n gryf fod rhai sy'n gweithio yng nghanol y dref yn gwneud defnydd o'r meysydd parcio tymor byr yn ystod y cyfnod yma gan leihau'r nifer o lefydd parcio sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno ymweld i wario yn y siopau. Mae adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 ar oblygiadau cynnig llefydd parcio am ddim yn dod i gasgliadau tebyg hefyd gan nodi fod ymwelwyr i drefi o'r farn fod lleoliad y meysydd parcio, fod digon o lefydd parcio ar gael, fod y maes parcio yn daclus a chroesawgar a bod y lleoliad siopa yn fywiog a deniadol yn bwysicach na darpariaeth parcio di-dâl.

4.10 **Newid criteria ar gyfer cyflwyno trefniadau talu ac arddangos -** ar hyn o bryd mae'r Strategaeth Parcio yn nodi nad ydym yn cyflwyno trefniadau tal ac arddangos mewn meysydd parcio lle mae llai na 20 o siopau neu fusnesau. Byddai lleihau'r trothwy yma'n golygu y byddai modd codi tâl mewn mwy o feysydd parcio ond ar hyn o bryd mae amheuaeth os fyddai hyn yn arwain at incwm newydd mewn gwirionedd gan fod profiad diweddar yn dangos mai nifer bychan o geir sy'n debygol o ddefnyddio'r meysydd parcio hyn ar unrhyw un adeg benodol. Un canlyniad posib yw i'r ceir hyn symud i barcio ar y briffordd a hynny mewn lleoliadau anodd eu rheoli'n effeithiol gan greu risgiau diogelwch y ffyrdd. Byddwn angen bod yn wyliadwrus iawn o hyn o gofio mai ein pwrpas yw ceisio sicrhau fod ein priffyrdd yn ddiogel i'w defnyddio gan fodurwyr a cherddwyr.

4.11 **Meysydd parcio dan reolaeth Adrannau eraill** - ar hyn o bryd mae rhai meysydd parcio sydd ddim o dan reolaeth yr Uned Parcio yn cael eu rheoli'n wahanol i'r hyn sydd wedi ei amlinellu yn ein Strategaeth Parcio. Yn bennaf mae'r rhain yn feysydd parcio mewn lleoliadau twristiaeth ac mae'r ffioedd a threfniadau rheoli yn amrywio o leoliad i leoliad sy'n arwain at ddiffyg cysondeb ar draws y sir. Mae trafodaethau eisoes ar y gweill gydag Adrannau eraill i edrych ar gysoni'n trefniadau a sicrhau fod pob rhan o'r sir yn cael ei drin yn deg a chyson. Bydd hyn yn debygol o arwain at gyflwyno trefniadau talu ac arddangos o'r newydd mewn hyd at 10 o leoliadau.

4.12 **Gwefru Ceir Trydan -** mae hwn yn faes sy'n tyfu'n gyflym iawn ac yn debygol o newid cryn dipyn dros y 5 mlynedd nesa wrth i reolau allyriadau carbon a dymuniad modurwyr i deithio'n wahanol arwain at fwy o geir trydan yn chwilio am gyfleusterau gwefru ar hyd eu taith neu ymweliad i'r ardal. Mae angen i ni fod yn effro i'r her honna cheisio sicrhau fod Gwynedd yn hwyluso'r profiad o ymweld â'r ardal mewn car o'r fath. Rydym eisoes wedi sefydlu prosiect fydd yn ceisio adnabod y ffordd orau o gynnig y ddarpariaeth yma mewn lleoliadau rhesymegol.

4.13 **Darparu gwasanaeth gorfodaeth i sefydliadau a chwmnïau -** yn gynyddol rydym yn derbyn ceisiadau gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol yn gofyn am gymorth i reoli eu meysydd parcio hwythau. Yn aml maent eisoes mewn trafodaethau gyda chwmnïau preifat sy'n cynnig gwasanaeth gorfodaeth parcio ond yn gweld y Cyngor fel partner addas ar gyfer y math o reolaeth sydd ganddynt mewn golwg. Os ydym yn ceisio sicrhau fod ymwelwyr a phreswylwyr yn cael profiad cadarnhaol wrth barcio ar hyd a lled Gwynedd, credwn fod hwn yn wasanaeth y dylem geisio ei ddarparu lle bo hynny'n ymarferol ac yn hyfyw yn arianol.

4.14 **Cwrdd â'r gofyn am orfodaeth gan drigolion -** rydym yn parhau i dderbyn ceisiadau cyson am fwy o wasanaeth gorfodaeth parcio mewn lleoliadau megis ysgolion, caeau chwarae, stadau tai, lleoliadau twristiaeth ayb. Rydym yn ceisio sicrhau cysondeb a thegwch ar draws y sir a hynny gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni. Rydym yn adolygu ein trefniadau yn gyson er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r galw hwn.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno i dderbyn diweddariad maes o law ar yr amrediad opsiynau ar gyfer sicrhau cynnydd yn yr incwm parcio.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 CHWEFROR 2015

**Aelod Cabinet:** **Cyng. Dafydd Meurig**

**Pwnc:** **Adolygiad Parcio**

**Swyddog cyswllt:** **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio**

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad:** I gyflwyno argymhellion i newid trefniadau rheoli parcio a strwythur ffioedd parcio yng Ngwynedd i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2015.

**Barn yr aelod lleol** Mater sy'n berthnasol i bob Aelod

**Cyflwyniad**

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae polisïau a gweithdrefnau parcio Cyngor Gwynedd wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2007. Mae hi felly yn hen bryd iddynt gael eu hadolygu er mwyn asesu p'un a yw'r trefniadau rheoli cyfredol yn cwrdd ag anghenion y Cyngor ac anghenion y Cymunedau y mae'n eu cynrychioli.

1.2 Roedd gofyn hefyd adolygu priodoldeb y strwythur ffioedd presennol gan nad yw'r ffioedd wedi newid ers 2007 hyd yn oed i adlewyrchu cyfraddau chwyddiant a newidiadau Treth ar Werth. Byddai'r ffioedd wedi codi dros 15% ar gyfartaledd pe byddent wedi eu haddasu yn rheolaidd i adlewyrchu effaith chwyddiant a newidiadau Treth ar Werth dros y cyfnod ers 2007.

1.3 Mae'r trefniadau rheoli parcio cyfredol, a syniadau ac opsiynau ar gyfer y dyfodol wedi eu trafod yn anffurfiol mewn nifer o gyfarfodydd dros y ddwy flynedd diwethaf. Bu i'r trafodaethau hynny gael eu harwain gan yr Aelod Cabinet er mwyn sefydlu blaenoriaethau, cyfeiriad ac ystyried gwaith ymchwil a wnaed. Roedd y gwaith hefyd yn asesu sut gaiff parcio ei reoli mewn Siroedd eraill

1.4 Bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau drafod y mater yn eu cyfarfod 10 Rhagfyr, 2013. Adroddwyd i'r Pwyllgor Craffu eto ar 1 Hydref, 2014 lle trafodwyd yr argymhellion a'r effaith posib ar drigolion a chymunedau'r Sir. Penderfynodd y Pwyllgor;

**PENDERFYNWYD datgan bodlonrwydd gyda chynigion yr adolygiad yn amodol ar y pwyntiau canlynol;**
**i) Bod angen annog cydweithio gweithredol gyda chymunedau lleol ar reolaeth meysydd parcio**
**ii) Y dylid craffu nifer o feysydd parcio am ddim yn lleol wedi trafod y mater gydag aelodau lleol.**

**iii) Croesawu'r syniad o godi tal am barcio mewn 'llecynnau bathodynnau glas' ond bod yn rhaid sicrhau bod unrhyw incwm yn cael ei ddefnyddio i wella'r cyfleusterau i ddefnyddwyr. Y dylai'r Cabinet, pan yn ystyried y cynigion yn ffurfiol dderbyn gwybodaeth gymharol yn arbennig o gynghorau cyfagos.**

**2. PWRPAS YR ADRODDIAD**

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno argymhellion ar sut i reoli parcio yn y dyfodol. Cyflwynir argymhellion ar bob agwedd y rhoddwyd ystyriaeth iddi, gan roi rhesymeg pam y dylid mabwysiadu'r opsiwn dewisedig. Amlinelli'r effeithiau ariannol ac amgylcheddol posib, a'r effaith bosib ar yr economi leol. Wrth baratoi'r adroddiad rhoddwyd hefyd ystyriaeth i faterion cydraddoldeb.

2.2 Rhaid cydnabod bod parcio yn medru bod yn fater cynhennus ac fod cynigion ar gyfer rheoli parcio yn medru ysgogi teimladau cryf o bersbectif personol a lleol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y darlun sirol ac mae adolygu'r trefniadau yn anorfod o ran cynaliadwyedd ariannol yn y cyfnod heriol hwn o ran cyllidebau'r awdurdod er sicrhau bod ein trefniadau rheoli ymarferol yn effeithiol ac yn effeithlon.

2.3 Ni fydd rhai o'r cynigion at ddant pawb, ond credaf fod yr hyn sydd yn cael ei gyflwyno yn gosod cyfeiriad a chyd-destun ar gyfer rheoli parcio yn gytbwys ac effeithiol yng Ngwynedd yn y dyfodol.

2.4 Mae'r argymhellion hefyd yn cael eu cynnig er sicrhau bod balans teg yng nghyllideb y Cyngor. Mae effaith chwyddiant a Threth ar Werth yn unig dros y cyfnod ers 2007 tua 15%. Rhaid oedd sicrhau nad yw'r gyllideb parcio yn parhau i beidio ac ymateb i chwyddiant a thrwy hynny yn ychwanegu at y pwysau ariannol ar gyllidebau a gwasanaethau eraill.

2.5 Mae'r prif benawdau a ystyriwyd fel a ganlyn:

- Meini prawf ar gyfer bandio Dinasoedd, Trefi a Phentrefi
- Meini prawf ar gyfer Dynodiadau Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir, a pharcio am ddim ym meysydd parcio oddi ar y stryd y Cyngor.
- Cynigion ar gyfer y strwythur ffioedd parcio ceir
- Cynigion i feysydd parcio ychwanegol ddod yn feysydd parcio talu ac arddangos
- Cynigion / opsiynau ar gyfer parcio yn ystod cyfnod y Nadolig
- Cynnig / opsiynau ar gyfer deiliaid y Bathodyn Glas
- Cynnig ar gyfer ffioedd parcio ar y stryd
- Cynnig ar gyfer parcio Bysus / Bysus Gwyliau
- Tocynnau parcio blynyddol
- Cynnig ar gyfer parcio i Breswylwyr
- Rheoli meysydd parcio preifat
- Cynlluniau peilot arfaethedig
- Materion heb eu datblygu a'r rhesymau
- Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

## 3. MEINI PRAWF AR GYFER BANDIO DINASOEDD, TREFI A PHENTREFI

3.1 Mae bandio canolfannau Gwynedd yn ffordd synhwyrol a theg o bennu ffioedd parcio ceir ac fe ymgymerwyd ag ymchwil i'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hyn mewn awdurdodau eraill. Mae maint yr ardal fanwerthu, p'un a yw'r ganolfan o fewn i ardal dwristiaid ac ati, hefyd yn cael eu cynnwys wrth ystyried bandio. Mae natur y ganolfan y lleolir darpariaeth parcio ynddi yn bwysig o ran cyflawni rheolaeth parcio da.

3.2 Mae'r meini prawf bandio arfaethedig ar gyfer canolfannau Gwynedd fel a ganlyn:

| Bandio | Meini Prawf |
|---|---|
| Band 1 | Dros 350 o siopau manwerthu. |
| Band 2 | Rhwng 100 a 350 o siopau manwerthu + prif drefi marchnad. |
| Band 3 | Dros 50 o siopau manwerthu a busnesau eraill a trefi a phentrefi sy'n cael eu heffeithio gan y tymor gwyliau, canolfannau arfordirol, hanesyddol a hamdden/adloniant. |
| Band 4 | Dros 20 o siopau manwerthu a busnesau eraill **NEU** trefi a phentrefi sy'n cael eu heffeithio gan y tymor gwyliau, canolfannau arfordirol, hanesyddol a hamdden/adloniant. |
| Band 5 | Llai nag 20 o siopau manwerthu a busnesau eraill a dim effaith tymhorol sylweddol. |

**Nodyn: Busnesau eraill yn cynnwys Tai Tafarn, Sefydliadau Gwely a Brecwast, Tai Bwytau ayb**

## 4. MEINI PRAWF AR GYFER DYNODIADAU ARHOSIAD BYR AC ARHOSIAD HIR, A PHARCIO AM DDIM YM MEYSYDD PARCIO ODDI AR Y STRYD Y CYNGOR.

4.1 Ar hyn o bryd o'r 114 meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor ac sy'n cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth, mae 17 wedi eu dynodi fel meysydd parcio Arhosiad Byr, 29 fel Arhosiad Hir ac mae 68 yn feysydd parcio am ddim. Y sefyllfa gyfredol yw nad oes meini prawf pendant wrth gategoreiddio'r meysydd parcio hyn i gefnogi dynodiad arhosiad byr neu arhosiad hir ac yn aml iawn mae'n ddibynnol ar amgylchiadau hanesyddol. Yn gyffredinol fodd bynnag, y meysydd parcio Arhosiad Byr yw'r rheini sydd wedi eu lleoli'n agosach at ganol trefi, ac mae'r rhai Arhosiad Hir ymhellach i ffwrdd.

4.2 Mae ymchwil yn dangos bod gosod meini prawf ar gyfer dynodi meysydd parcio yn sicrhau cysondeb a thegwch ac yn cynnig eglurder o ran beth yw amcanion yr Awdurdod o ddarparu parcio arhosiad byr a hir.

4.3 Argymhellir y maen prawf canlynol er mwyn dynodi meysydd parcio arhosiad byr a hir:

**Bydd meysydd parcio sydd o fewn oddeutu 100 metr i Ganol Trefi yn cael eu dynodi'n feysydd parcio Arhosiad Byr tra bydd eraill yn y categori Arhosiad Hir.**

4.4 Mae mwyafrif y meysydd parcio di-dâl wedi ei dynodi felly ar y sail eu bod yn disgyn i gategorïau Band 5 gweler 3.2

**5. CYNIGION AR GYFER Y STRWYTHUR FFIOEDD PARCIO CEIR**

5.1 Gall rheolaeth barcio effeithiol wneud cyfraniad cadarnhaol ar gyfer cynnal yr economi leol. Yn amlwg, mae cefnogi'r economi leol yn ddyhead sylfaenol gan Gyngor Gwynedd, ac o'r herwydd mae'r strwythur ffioedd parcio wedi'i ddylunio gan gadw'r agweddau allweddol a ganlyn mewn cof:

- Cyfleusterau Arhosiad Byr i fod am gyfnod aros byr yn unig gydag uchafswm amser aros i annog trosiant. Cyfleusterau Arhosiad Hir i fod yn fforddiadwy am gyfnodau hirach i annog y rheini nad ydynt ar unrhyw frys i aros yn y ganolfan am gyfnodau hirach o amser.
- Strwythur ffioedd sy'n hawdd i bawb ei ddeall.
- Pennu ffioedd sy'n rhesymol ac yn hawdd i'w talu
- Pennu ffioedd am gyfnodau o 24 awr i osgoi dryswch
- Cynnig peth cyfle am barcio am ddim yn ystod cyfnodau tawel i hybu llawer o fasnachu ar y stryd
- Sicrhau parcio am ddim am gyfnod cyfyngedig ar y stryd ar gyfer pobl sydd eisiau delio ag ychydig o faterion ac angen gwneud hynny yn gyflym.

5.2 Gweler isod y tablau strwythur ffioedd a ddyluniwyd i fodloni'r meini prawf hyn [wedi ei seilio ar ffi o £1 am awr]:

**<u>Band 1</u>**

**Meysydd Parcio Arhosiad Byr:** Dim aros am fwy na 3 awr

| | | |
|---|---|---|
| 1 awr | £1.00 | Oriau Gorfodaeth:<br>08:00 – 18:00 |
| 2 awr | £2.00 | |
| 3 awr | £3.00 | |

Meysydd Parcio Arhosiad Hir: Hefyd ar gael i ddeiliaid tocyn blynyddol.

*Nid yw'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn wahanol i'n cyfnod tâl cyfredol ac nid ydynt yn effeithio ar delerau ac amodau i ddeiliaid tocynnau parcio blynyddol o ran y ddarpariaeth arhosiad hir.*

Dim amrywiaethau tymhorol

| | | |
|---|---|---|
| Hyd at 4 awr | £2.00 | Cyfnod gorfodaeth: 24 awr y dydd |
| Hyd at 8 awr | £3.00 | |
| Hyd at 12 awr | £4.00 | |
| Hyd at 24 awr (yn cario o un dydd i'r nesaf) | £5.00 | |

**Band 2**

Meysydd Parcio Arhosiad Byr: Dim aros am fwy na 3 awr

| | | |
|---|---|---|
| 1 awr | £1.00 | Oriau Gorfodaeth: 10:00 – 16:30 |
| 2 awr | £2.00 | |
| 3 awr | £3.00 | |

Meysydd Parcio Arhosiad Hir: Hefyd ar gael i ddeiliaid tocyn blynyddol.

*Nid yw'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn wahanol i'n cyfnod tâl cyfredol ac nid ydynt yn effeithio ar delerau ac amodau i ddeiliaid tocynnau parcio blynyddol o ran y ddarpariaeth arhosiad hir.*

Dim amrywiaethau tymhorol

| | | |
|---|---|---|
| Hyd at 4 awr | £2.00 | Cyfnod gorfodaeth: 24 awr y dydd |
| Hyd at 8 awr | £3.00 | |
| Hyd at 12 awr | £4.00 | |
| Hyd at 24 awr (yn cario o un dydd i'r nesaf) | £5.00 | |

**Band 3**

Arhosiad Byr: Dim aros am fwy na 3 awr

| Haf | | |
|---|---|---|
| 1 awr | £1.00 | Oriau Gorfodaeth 8:00 – 18:00 |
| 2 awr | £2.00 | |
| 3 awr | £3.00 | |

| Gaeaf | | |
|---|---|---|
| 1 awr | £1.00 | Oriau Gorfodaeth 10:00: – 16:30: |
| 2 awr | £2.00 | |
| 3 awr | £3.00 | |

Arhosiad Hir: Hefyd ar gael i ddeiliad tocyn blynyddol a bydd yn destun gorfodaeth 24 awr.

| Haf | | |
|---|---|---|
| Hyd at 4 awr | £3.00 | Oriau Gorfodaeth: 24 awr |
| Hyd at 8 awr | £4.50 | |
| Hyd at 12 awr | £6.00 | |
| Hyd at 24 awr | £7.50 | |

| Gaeaf | | |
|---|---|---|
| Hyd at 4 awr | £2.00 | Oriau Gorfodaeth: 24 awr |
| Hyd at 8 awr | £3.00 | |
| Hyd at 12 awr | £4.00 | |
| Hyd at 24 awr | £5.00 | |

**Band 4**

Arhosiad Byr: dim darpariaeth
Arhosiad Hir: Hefyd ar gael i ddeiliaid tocyn blynyddol.

| | | |
|---|---|---|
| Hyd at 4 awr | £1.00 | Cyfnod gorfodaeth: 24 awr |
| Hyd at 8 awr | £2.00 | |
| Hyd at 12 awr | £3.00 | |
| Hyd at 24 awr (yn cario o un dydd i'r nesaf) | £4.00 | |

**Band 5**

| Parcio Am Ddim |
|---|

5.3 Pwysleisir mai ffigwr dangosol yw'r ffioedd arfaethedig a nodir ymhob band a nodir uchod yn paragraff 5.2. Rhaid rhoi ystyriaeth benodol i'r ffi i'w gosod yng nghyd-destun yr angen i ddal fyny gyda effaith chwyddiant a TAW ers 2007 a chyd-destun ariannol heriol a wynebir gan yr awdurdod.

5.4 Mae gwaith wedi ei wneud ar y cyd rhwng swyddogion yr Adran Rheoleiddio a'r Adran Cyllid i fodelu incwm tebygol ar sail ffioedd amrywiol. Nid yw hyn yn dasg hawdd gan fod cymaint o ffactorau yn dylanwadu ar lefelau incwm gyda llawer ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac na ellid rhagamcanu maint eu dylanwad. Wedi dweud hyn ac ar sail y wybodaeth sydd ar gael, mae swyddogion y ddwy Adran yn weddol hyderus y gall y newidiadau i'r strwythur ffioedd ac i'r drefn rheolaeth parcio gynhyrchu incwm ychwanegol o oddeutu £52,000 i'r Cyngor o'r meysydd parcio talu ac arddangos presennol..

**Tabl 1**

Tabl yn dangos amcangyfrif o incwm ar feysydd parcio talu ac arddangos presennol ar sail strwythur ffioedd newydd.

| Graddfa (seiliedig ar bris awr mewn arhosiad byr) | Tafluniad Incwm (net) | Gwahaniaeth Incwm Presennol a Thafluniad Strwythur Newydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Strwythur ffi parcio presennol | £1,136,817.50 | dim | |
| £0.80 | £1,003,082.18 | -£133,735.32 | |
| £1.00 | £1,188,976.34 | £52.158.84 | Senario a argymhellir |
| £1.20 | £1,411,972.34 | £275,154.84 | |
| £1.40 | £1,548,866.35 | £412,048.85 | |

5.5 Roedd y Pwyllgor Craffu yn awyddus i gynnig opsiwn i gymunedau i unai lleihau ffi parcio lleol trwy sybsideiddio'r ffioedd craidd sydd yn cael eu cymeradwyo neu i roi premiwm uwch ar ben y ffioedd er mwyn codi arian ar gyfer defnydd cymunedol. Er enghraifft, gallai Cyngor Tref benderfynu codi ffioedd o ddyweder 20% ar ben ffioedd sylfaenol ac fe fyddai'r refeniw ychwanegol fyddai yn deillio o hynny yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref gan Cyngor Gwynedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mater i'r Cyngor Tref fyddai dewis sut i ddefnyddio'r arian ychwanegol yma.

**6. CYNNIG AR GYFER PARCIO YN YSTOD CYFNOD Y NADOLIG**

6.1 Mae nifer o opsiynau wedi eu hystyried ar gyfer ymdrin â pharcio'n ystod y Nadolig, sy'n amrywio o wneud dim byd o gwbl i gynnig cynllun parcio am ddim fyddai'n costio tua £100,000 y flwyddyn i'r Cyngor. Yr hyn sy'n bwysig wrth ystyried y mater hwn yw bod rhaid i'r cynnig wirioneddol fodloni'r hyn yr ymdrechir i'w gyflawni, sef denu siopwyr i Ddinas a Threfi Gwynedd i siopa yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig.

6.2 Eto, rhaid i'r cynnig fod yn glir ac yn hawdd i'w deall. Ar ôl y trefniadau a roddwyd ar waith yn ystod Nadolig 2013, dosbarthwyd holiaduron. Nododd y rhan fwyaf o fusnesau a siopwyr wnaeth ymateb eu bod yn credu fod y trefniadau wedi bod yn fuddiol, ac felly'n llwyddiannus. Cynigir felly bod trefniadau i ddarparu parcio am ddim yn ystod y cyfnod sydd yn arwain at y Nadolig yn cael eu gwneud yn barhaol. Gall union natur y Cynllun amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Bydd y penderfyniad ar y trefniadau gweithredol yma i'w cytuno rhwng y Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet. Bydd y trefniadau yn cael eu monitro o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r trefniant sylfaenol a gynigir ar gyfer cynllun parcio am ddim yn ystod y cyfnod sydd yn arwain at y Nadolig fel a ganlyn:

| Cynnig | Amcangyfrif o'r Gost (£) |
|---|---|
| Am ddim o'r penwythnos cyn yr wythnos lawn gyntaf yn arwain at wythnos y Nadolig. Ffioedd yn cael eu codi eto o 27 Rhagfyr ymlaen. | Hyd at £40,000.00 |

**7. CYNNIG I FEYSYDD PARCIO YCHWANEGOL DDOD YN FEYSYDD PARCIO TALU AC ARDDANGOS**

7.1 Trwy ddefnyddio'r meini prawf a argymhellir ar gyfer dynodi meysydd parcio Arhosiad Byr, Arhosiad Hir a pharcio am ddim (Adran 4), a'r meini prawf a argymhellir ar gyfer bandio (Adran 3), byddai hyn yn golygu bod 1,163 o gyfleusterau parcio ychwanegol yn dod yn feysydd parcio talu ac arddangos. Dylai hyn greu refeniw ychwanegol i'r Cyngor yn flynyddol.

7.2 Defnyddir amcangyfrifon incwm yn seiliedig ar ddadansoddiad sensitifrwydd i sefydlu'r refeniw ychwanegol mwyaf tebygol y gellid ei greu o'r meysydd parcio hyn wrth ddatblygu'r achos busnes:

| Arfon | Dyn. | Bandio | Nifer |
|---|---|---|---|
| Safle Shell, Caernarfon | Hir | 2 | 160 |
| Dau faes parcio ar Lôn Glan Môr, Hirael, Bangor | Hir | 4 | 20 + 50 |
| Cae Star, Bethesda | Hir | 4 | 55 |
| Pant Dreiniog, Bethesda | Hir | 4 | 70 |
| Dwyfor | Dyn. | Bandio | Nifer |
| Maes parcio ger tafarn y Black Lion, Pwllheli | Hir | 2 | 63 |
| Penmount, Pwllheli | Hir | 2 | 59 |
| Traeth y De, Pwllheli | Hir | 2 | 15 |
| Cefn Stryd Lombard, Porthmadog | Byr | 2 | 30 |
| Borth y Gest, Porthmadog | Hir | 2 | 60 |
| Cei Bach, Porthmadog | Byr | 2 | 18 |
| Abereistedd, Cricieth | Hir | 3 | 20 |
| Maes Parcio, Porth Neigwl | Hir | 4 | 25 |
| Afonfawr, Penllech, Pen Llŷn | Hir | 4 | 40 |
| Glan Pwll, Nefyn | Hir | 4 | 50 |
| Y Ddôl, Nefyn | Hir | 4 | 50 |
| Colwyn Banc, Beddgelert | Hir | 4 | 50 |
| Meirionnydd | Dyn. | Bandio | Nifer |
| Sgwâr Talbot, Barmouth | Byr | 3 | 40 |
| Neuadd Dyfi, Aberdyfi | Hir | 3 | 30 |
| Castle Hotel, Harlech | Byr | 3 | 25 |
| Rhodfa'r Môr, Tywyn | Hir | 3 | 114 |
| Cae Bach, Tywyn | Hir | 3 | 60 |
| Prif Faes Parcio, Penrhyndeudraeth | Hir | 4 | 40 |
| Prif Faes Parcio, Trawsfynydd | Hir | 4 | 19 |

7.3 Dylid nodi bod angen buddsoddiad cyfalaf i gyflwyno cyfleusterau talu ac arddangos yn y meysydd parcio ychwanegol hyn er mwyn gosod y cyflenwad trydan angenrheidiol, y peiriannau a'r arwyddion. Byddai rhaid defnyddio cyllidebau presennol a refeniw a godir i ariannu'r buddsoddiad yma. Mae'r amcangyfrifir o gost eitemau unigol i addasu meysydd parcio fel a ganlyn:

| Disgrifiad | £ |
|---|---|
| Cyflenwi a gosod un peiriant talu ac arddangos (fesul 50 o lefydd) | 3,200 |
| Arwyddion a llinellau | 1,700 |
| Costau Cyfreithiol (Gorchmynion Traffig, Ymgynghori a Hysbysebu) | 1,500 |

7.4 Gallai'r gost o addasu rhai o'r meysydd parcio unigol fod hyd at £20,000. Mae amcangyfrif dechreuol o'r cyfalaf angenrheidiol i gyflawni'r holl newidiadau tua £300,000. Mae refeniw cynnal a rheoli blynyddol hefyd yn ystyriaeth yn yr achos busnes a bydd rhaid addasu'r gyllideb i adlewyrchu hyn. Os gweithredir hyn byddai'r gwaith yn cael ei raglennu dros 2 neu 3 blwyddyn ariannol . Rhagwelir y byddai'r gwaith i ddod a pob maes parcio ar y rhestr i safon priodol i'w gwneud yn faes parcio talu ac arddangos.

7.5 Ar sail y gwaith modelu a wnaed gan yr Adran Rheoleiddio a’r Adran Cyllid rhag amcanir y dylai ychwanegu'r meysydd parcio a nodwyd yn 7.2 at y rhestr meysydd parcio talu ac arddangos greu incwm o tua £179,000 yn ychwanegol i’r Cyngor.

**Tabl 2**

Tabl yn dangos amcangyfrif o incwm o feysydd parcio talu ac arddangos ychwanegol ar sail strwythur ffioedd newydd.

| Graddfa [seiliedig ar bris awr mewn arhosiad byr) | Tafluniad Incwm [net]T | Sylwadau |
|---|---|---|
| £0.80 | £158,971 | |
| £1.00 | £179,267 | Senario Argymhellir |
| £1.20 | £207,154 | |
| £1.40 | £224,325 | |

**8. CYNNIG / OPSIYNAU AR GYFER DEILIAID Y BATHODYN GLAS**

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ar yr opsiynau sydd ar gael i ddelio â'r ddarpariaeth barcio ar gyfer deiliaid y bathodyn glas rhyw dair blynedd yn ôl. Mae’r opsiynau fel a ganlyn:

- Parcio am ddim i ddeiliaid bathodyn glas mewn meysydd parcio talu ac arddangos (fel y sefyllfa bresennol)
- Parcio am ddim mewn cyfleusterau Arhosiad Hir yn unig
- Parcio am ddim am gyfnod cyfyngedig
- Cyflwyno system docynnau blynyddol
- Codi’r un ffi â defnyddwyr eraill ar ddeiliaid bathodyn glas

8.2 Yr argymhelliad o’r ymgynghoriad cychwynnol oedd mabwysiadu system docynnau blynyddol. Roedd hyn yn ddibynnol ar y ffaith y dylai'r refeniw a gynhyrchir o'r tocynnau a gyflwynir gael ei 'ddiogelu' a'i ddefnyddio i wella cyfleusterau mynediad yn gyffredinol o fewn meysydd parcio ac ar strydoedd trefi a phentrefi'r Sir. Credir bod hyn yn ddyhead teg sydd yn cyfarch anghenion deiliaid bathodynnau glas.

8.3 Amcangyfrifwyd y byddai’n cymryd o leiaf chwe mis i ddatblygu cynllun o’r fath, a byddai’r refeniw blynyddol a gynhyrchir (yn seiliedig ar docyn yn costio £30 y flwyddyn bryd hynny) hyd at £30,000 y flwyddyn. Byddai rhaid ail edrych ar bris tocyn blynyddol fel rhan o’r achos busnes os penderfynir symud ymlaen gyda’r opsiwn yma.

8.4 Fel rhan o’r gwaith i ddatblygu’r cynllun manwl, dylid nodi y bydd angen cymal asesiad effaith cydraddoldeb llawn ac ymgynghoriad pellach cyn gwneud penderfyniad terfynol ar fanylion gweithredu cynllun o’r fath. Gallai hyn gymryd rhwng 9 a 12 mis i’w gwblhau ar gyfer y Sir gyfan. Rhagwelir mai'r cynharaf y gellid gweithredu'r cynnig hwn felly fyddai 1af Ebrill 2016.

8.5 Mae trefniadau cyfredol Cyngor Gwynedd yn golygu nad yw deiliaid Bathodyn Glas yn cael eu cosbi'n ariannol am eu trosedd gyntaf os ydynt yn torri gweithdrefnau parcio'r Cyngor. Mae hyn yn golygu colled incwm o tua £22,000.00 y flwyddyn sydd yn cael ei ysgwyddo gan yr Awdurdod.

8.6 I gyd-fynd a llawer o awdurdodau eraill ac o ystyried bod gweithdrefnau parcio wedi bod yn ei lle ers 8 mlynedd cynigir na ddylid cael trefniant o'r fath, ac y dylid ymdrin ag achosion pan fo deiliaid bathodyn glas yn mynd yn groes i'r gweithdrefnau parcio yn yr un modd ag achosion eraill.

**9. CYNNIG AR GYFER FFIOEDD PARCIO AR Y STRYD**

9.1 Mae sgôp yn bendant am godi tâl am barcio ar y stryd mewn dinasoedd, trefi a chanolfannau eraill. Gall hyn greu refeniw, ond mewn rhai achosion, gallai hefyd beri effaith andwyol ar yr economi leol, yn enwedig i'r rheini sydd eisiau galw mewn i siop wrth fynd heibio ar gyfer ymdrin ac un neu ddau o faterion e.e. galw yn y banc, prynu papur neu dorth.

9.2 Mae'r ymchwil a ymgymerwyd yn amlinellu'n glir bod rheolaeth barcio effeithiol yn cynnwys cymysgedd dda o barcio tymor byr am ddim, ynghyd â chyfleusterau a reolir ar gyfer y rheini sy'n dymuno treulio cyfnodau hwy yn y canolfannau h.y. trwy feysydd parcio talu ac arddangos. Felly, mae baeau aros cyfyngedig sy'n darparu cyfleuster parcio am ddim am gyfnodau byr mewn canolfannau, yn ddarpariaeth hanfodol ar gyfer y bobl hynny sy'n dymuno galw mewn yn sydyn i siopa neu ar fusnes, ac mae'n cefnogi'r economi leol. Mae'r strwythur ffioedd parcio sydd yn cynnig parcio am ddim mewn meysydd parcio arhosiad hir cyn 10.00 y bore ac ar ôl 11.30 y prynhawn hefyd yn cyfrannu at hyn.

9.3 Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd fyddai'n elwa o ffioedd parcio ar y stryd neu brifforddd fel modd o reoli'r stryd/ffordd yn effeithiol. Mae gan Wynedd ddarpariaethau o'r fath eisoes ar y Promenâd yn Abermaw ac ym Mhen-y-Gwryd. Mae ardaloedd o'r fath yn ategu'r cyfleusterau parcio oddi ar y stryd sydd ar gael ac maent yn helpu i sicrhau cydbwysedd da o barcio ar y stryd ac oddi ar y stryd lle nad oes angen unrhyw barcio tymor byr. Maent hefyd yn medru gwneud cyfraniad pwysig at ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd.

9.4 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r lleoliadau a argymhellir amcangyfrifir ar gyfer darparu cyfleusterau parcio talu ac arddangos ar y stryd ynghyd a'r nifer o lefydd parcio dan sylw nifer y baeau a'r refeniw ac amcangyfrif. Bydd angen addasu'r gyllideb refeniw yn flynyddol i adlewyrchu unrhyw gostau cynnal ychwanegol yn deillio o'r newidiadau yma.

| Lleoliad | Llefydd | Cost Cyfalaf |
|---|---|---|
| Ffordd y Cob, Pwllheli [Band 2] | 37 | £10k |
| Promenâd, Pwllheli [Band 4] | 168 | £15k |
| Promenâd, Tywyn [Band 4] | 102 | £10k |
| Cynllun Y Fach Abersoch [Band 4] | 40 | £80k |

| Cyfanswm Llefydd |
|---|
| 347 |

**10. CYNNIG AR GYFER PARCIO BYSUS / BYSUS GWYLIAU**

10.1 Mae denu Bysus Teithiau Gwyliau i ganolfannau twristiaeth Gwynedd yn bwysig iawn i'r economi leol. Mae'n bwysig hefyd cefnogi'r bysus hynny wrth ddarparu cyfleusterau parcio digonol, sydd â digon o arwyddion, a byddai mannau parcio arbennig i fysus gwyliau yn sicrhau bod llefydd ar gael i'r rheini sy'n dymuno ymweld â'r cyrchfannau twristiaeth allweddol.

10.2 Mae darparu a neilltuo llefydd i fysus gwyliau mewn meysydd parcio yn golygu y byddai angen aberthu rhai llefydd parcio ceir, ac felly byddai'n arwain at golli rhywfaint o incwm. Credir ei bod yn rhesymol codi ffi barcio ar fysus sy'n ymweld â threfi'r ardal.

10.3 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r ffioedd a argymhellir ar gyfer parcio bysus gwyliau mewn cyfleusterau Arhosiad Hir yn unig oddi mewn i'r pedwar band a argymhellir:

| Ffioedd |
|---|
| £3.00 Hanner Diwrnod - £4.00 Diwrnod Llawn |

| Lleoliad | Llefydd |
|---|---|
| Safle Shell, Caernarfon | 8 |
| Maes parcio Y Maes, Cricieth | 2 |
| Iard yr Orsaf, Porthmadog | 7 |
| Y Grin, Bala | 9 |
| Maes parcio Black Patch, Abermaw | 10 |
| Sgwâr Diffwys, Blaenau Ffestiniog | 2 |
| Maes parcio Min y Don, Harlech | 6 |
| Maes parcio'r Marian, Dolgellau | 2 |

| Cyfanswm Llefydd |
|---|
| 46 |

10.4 Amcangyfrif y gallai'r refeniw a gynhyrchir o'r drefn hon fod hyd at £8,500 y flwyddyn.

**11. CYNNIG AR GYFER TOCYNNAU PARCIO BLYNYDDOL**

11.1 Mae'r polisi a'r ffioedd cyfredol ar gyfer tocynnau parcio blynyddol wedi bod mewn lle ers yr adolygiad parcio yn 2007. Mae'r nifer sy'n prynu tocyn blynyddol yn syfrdanol o isel o ystyried y gwerth am arian mae'r tocyn yn ei gynnig, gyda tua 1200 o drigolion Gwynedd yn prynu tocyn yn flynyddol am £100 [£2 yr wythnos]. Mae'r pris am docyn i'r rheini sy'n byw tu allan i Wynedd yn £200 [£4 yr wythnos], ac mae'r nifer yn ofnadwy o isel, tua 29 o docynnau'n flynyddol. Mae'n debyg nad yw'r ffioedd gwahanol i'r rheini sy'n byw tu allan i Wynedd yn annog pobl i brynu'r tocynnau blynyddol, a hwyrach ei fod yn cael ei weld yn rhywbeth plwyfol.

11.2 Nid yw'r nifer isel o docynnau blynyddol a brynir yn broblem o ran gweithrediad a rheolaeth parcio yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae'n gynnig da, ond gallai'r cynnig elwa o well marchnata fel opsiwn sydd yn cynnig gwerth am arian. Efallai y byddai hynny yn cynyddu ei apêl i drigolion y Sir ac i'r rhai sy'n gweithio yng Ngwynedd neu yn ymweld ar Sir yn aml.

11.3 Mae tair elfen i'r cynnig o ran tocynnau blynyddol:

- 11.3.1 Gwella'r marchnata ar gyfer y tocynnau blynyddol i annog mwy o bobl i'w prynu;
- 11.3.2 Gwneud i ffwrdd â'r ffioedd gwahanol i drigolion Gwynedd a phobl nad ydynt yn drigolion Gwynedd;
- 11.3.3 Gosod ffi flynyddol o £125 [£2.50 yr wythnos] i bawb.

**12. CYNNIG AR GYFER PARCIO I BRESWYLWYR**

12.1 Roedd y polisi parcio preswylwyr cyfredol yn angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor allu adennill ei gostau wrth fabwysiadu cynllun parcio i breswylwyr mewn unrhyw leoliad. Yn fras mae'r cynllun hwn yn caniatáu i breswylydd gael tocyn am hyd at ddau gar. Cost presennol hyn yw £50 am y car cyntaf a £80 am yr ail gar. Cafwyd rhai cynlluniau parcio llwyddiannus i breswylwyr yng Ngwynedd, ac mae rhai ardaloedd wedi gwrthod cyflwyno'r cynllun ar ôl ymgynghoriad lleol.

12.2 Cynigir cadw'r polisi hwn fel y mae oherwydd bod y cydbwysedd i'w weld yn gywir ar hyn o bryd rhwng y niferoedd a'r ffioedd. Nid yw'r ffi wedi codi ers sefydlu'r cynlluniau ac er nad oes cynnig i gynyddu'r ffi ar hyn o bryd, bydd rhaid adolygu'r ffi yn rheolaidd yn unol â rheoliadau sefydlog y Cyngor.

**13. RHEOLI MEYSYDD PARCIO PREIFAT**

13.1 Mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu ac ymgymryd â gweithrediadau rheoli gan gynnwys gorfodaeth, archwiliadau, cynnal a chadw a chasglu arian o nifer o feysydd parcio preifat. Mae manylion y safleoedd cyfredol a reolir ynghyd a'r nifer o faeau fel a ganlyn:

| Lleoliad | Comisiwn | Llefydd |
|---|---|---|
| Ysbyty Gwynedd, Bangor | Rheoli a Gorfodaeth | 1,867 |
| Y Galeri, Caernarfon | Rheoli a Gorfodaeth | 20 |
| Ysbyty Alltwen, Tremadog | Gorfodaeth | 140 |
| Lon y Felin, Felinheli | Gorfodaeth | 41 |
| Maes parcio CADW, Harlech | Gorfodaeth | 25 |
| Y Clinig, Pwllheli | Gorfodaeth | 25 |

13.2 Mae amrywiadau yn sgôp y gweithgareddau a threfniadau ariannol y cyrff sydd wedi comisiynu Cyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn anorfod ar gyfer diwallu costau gorfodaeth a gweinyddol i ymateb i anghenion y tirfeddianwyr dan sylw mewn cytundebau unigol.

13.3 Mae contractio gyda chyrff preifat / cyhoeddus i reoli parcio ceir yn amlwg yn gyfle i greu incwm, ond dylai'r trefniadau a'r ffioedd gael eu hadolygu'n rheolaidd a'u monitro yn erbyn gwir gostau rheoli'r asedau. Bydd hyn yn sicrhau nad yw darparu gweithgareddau yn costio mwy i'r Awdurdod na'r hyn mae'r ffi rheoli yn ei gynhyrchu.

13.4 Y cynnig yw parhau gyda'r trefniadau cyfredol ond monitro'r gwir gostau i'r Cyngor o gynnal y gweithgareddau hyn ar ran cyrff/cwmnïau allanol a gweithredu ar unrhyw sefyllfa sy'n creu colled ariannol trwy ail drafod neu derfynu'r cytundeb.

**14. CYNLLUN PEILOT ARFAETHEDIG**

**Talu heb arian parod**

14.1 Mae peiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n eu defnyddio i dalu gydag arian mân, ac nid ydynt yn rhoi newid os na chaiff y swm cywir ei roi yn y peiriant. Mae hyn wedi bod yn destun sylw negyddol yn y wasg. Nifer fychan o gwynion gan aelodau a'r cyhoedd. Mae'r drefn talu ag arian hefyd yn golygu cyfyngiadau ar y Cyngor o ran caniatáu cynnydd graddol pellach mewn ffioedd parcio yn y dyfodol yn unol â chwyddiant ac ati.

14.2 Mae costau blynyddol o tua £36,450 i gwmni preifat wagio'r arian mân mewn peiriannau talu ac arddangos yn flynyddol.

14.3 Cafwyd rhai achosion lle mae pobl wedi torri i mewn i beiriannau talu ac arddangos a dwyn yr arian, gan felly greu colled ariannol uniongyrchol, a cholled refeniw am gyfnod wedi hynny oherwydd bod y peiriannau wedi torri ac felly'n methu cael eu defnyddio.

14.4 Y cynnig yw treialu rhai opsiynau di-arian drwy gyflwyno peiriannau talu ac arddangos lle gall pobl dalu gyda chardiau credyd / debyd neu hyd yn oed trwy ddefnyddio eu ffôn symudol. Ar ôl treialu ac ymchwilio'n bellach i'r dechnoleg sydd ar gael a'r costau cysylltiedig, gellid cyflwyno'r peirannau newydd yn raddol dros gyfnod o amser wrth i'r peiriannau talu ac arddangos cyfredol ddod i ddiwedd eu hoes weithredol.

**15. MATERION HEB EU DATBLYGU YMHELLACH**

**Talu wrth adael**

15.1 Derbynnir y gall trefniant talu wrth adael rhoi hyblygrwydd i'r rheini sy'n parcio i aros mewn canolfannau am gyfnodau hirach na'r disgwyl heb fod ofn derbyn tocyn cosb parcio.

15.2 Mae costau gosod a chynnal a chadw (ar alw) sylweddol ynghlwm â threfniadau talu wrth adael ac, oherwydd y galw am amser staff ac adnoddau ariannol, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru ac nid yw wedi'i ddatblygu ymhellach fel rhan o'r adolygiad hwn. Hefyd, byddai gosod a gweithredu system talu wrth adael yn effeithio ar gerbydau yn mynd i mewn ac allan o feysydd parcio ble bo "trosiant" llefydd parcio yn sylweddol. Yn ogystal, byddem yn colli llefydd parcio er mwyn gwneud lle i osod a gweithredu system o'r fath.

**Adnabod platiau rhif yn awtomatig**

15.3 Mae'r dechnoleg hon yn gadael i Swyddogion Gorfodaeth Sifil ddefnyddio technoleg camera i sefydlu p'un a yw cerbydau penodol wedi talu ac arddangos ym meysydd parcio oddi ar y stryd y Cyngor.

15.4 Byddai angen buddsoddiad sylweddol er mwyn sicrhau bod system o'r fath yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Byddai'n rhaid newid y peiriannau talu ac arddangos i fath lle byddai'n rhaid rhoi plât rhif y cerbyd i mewn. Byddai angen cadw cronfa ddata ganolog hefyd i wirio'r data a gasglwyd mewn meysydd parcio.

15.5 Oherwydd costau cyfalaf sylweddol yn gysylltiedig â sefydlu'r system gymhleth hon, diystyriwyd yr opsiwn hwn ac ni chafodd ei ddatblygu ymhellach fel rhan o'r adolygiad hwn.

**Gorfodaeth TCC**

15.6 Gellir defnyddio gorfodaeth TCC i orfodi tramgwyddau parcio mewn ardaloedd lle mae TCC yn weithredol e.e. amgylchedd Stryd Fawr. Byddai'r rheini sy'n mynd yn groes i'r gorchymyn parcio yn derbyn hysbysiad o ddirwy trwy'r post.

15.7 Mae'r system hon wedi cael ei mabwysiadu mewn rhai canolfannau ond caiff ei gweld fel system amhersonol. Mae costau sefydlu uchel ynghlwm â'r trefniant hefyd, a chymhlethdodau gydag ansawdd y camerâu TCC fyddai eu hangen.

15.8 Oherwydd costau, y cymhlethdod a’r ddelwedd negyddol ac amhersonol, diystyriwyd yr opsiwn hwn ac ni chafodd ei ddatblygu ymhellach fel rhan o’r adolygiad hwn.

**16. YSTYRIAETHAU AR GYFER Y 6 MIS NESAF**

**Asedau meysydd parcio mewn adrannau eraill:**

16.1 Mae’n amlwg fod y Cyngor yn berchen ar nifer o feysydd parcio mewn Parciau Gwledig, Canolfannau Hamdden ac ati. Ac yn amlwg mae gweithdrefnau rheoli gwahanol Adrannau yn y Cyngor yn wahanol i’w gilydd o ran sut maent yn ymdrin â’r asedau.

16.2 Gan fod y Cyngor yn cael ei weld gan y cyhoedd fel un corff unffurf, ystyrir y byddai’n werth mabwysiadu’r cynigion a amlinellir yn yr adolygiad hwn ar gyfer yr holl asedau parcio sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.

16.3 Ar ôl yr adolygiad hwn, cynigir bod cynllun busnes yn cael ei baratoi i adnabod asedau parcio eraill yn y Sir a sefydlu pa refeniw a ellid ei gynhyrchu o’r asedau hyn petai’r cynigion a amlinellir yn yr adolygiad hwn yn cael eu mabwysiadu.

**17. ASESIAD EFFAITH**

17.1 Fel rhan o’r adolygiad mae ystyriaeth wedi ei roi i effaith y gallai rhai opsiynau i newid y trefniadau parcio ei gael. Mae’r gwaith yma wedi cynnwys arolwg o berchnogion busnes ac aelodau o’r cyhoedd trwy holiadur. Tra derbynnir nad yw cynnydd mewn ffioedd parcio yn boblogaidd mae cydnabyddiaeth eu bod yn fodd priodol ac angenrheidiol i reoli traffic ac i gefnogi'r economi leol.

17.2 Yn ogystal, ystyriwyd perthnasedd cynigion i’r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o’r grwpiau cydraddoldeb [nodweddion gwarchodedig]. Ystyrir mae'r prif fater i’w asesu yw effaith posib y newidiadau ar ddeiliaid bathodynnau glas. Yr argymhelliad allai gael effaith mwff yw'r cynnig i sefydlu trefn lle codi’r ffi parcio ar ddeiliaid bathodynnau glas ond bod trefn tocyn blynyddol am bris rhesymol yn cael ei mabwysiadu. Byddai'r incwm o’r tocynnau blynyddol yn cael ei ail fuddsoddi mewn gwelliannau i feysydd parcio [baeau llydan wedi eu dynodi, peiriannau hygyrch, mynediad hwylus i’r stryd].

17.3 Nid wy yn fwriad sefydlu'r cynllun hyd nes y bydd rhaglen ymgysylltu gyda’r grwpiau all gael eu heffeithio wedi ei dilyn a bod asesiad effaith llawn wedi cael ei ymgymryd.

17.4 Ni ystyrir bod y cynnig hwn i ail strwythuro ffioedd parcio yng Ngwynedd yn andwyol nac yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp o drigolion.

**18. ARGYMHELLIAD**

18.1 Bod y Cabinet yn rhoi sêl bendith i argymhellion yr adroddiad.

18.2 Bod y strwythur ffioedd newydd yn dod yn weithredol o 1af Ebrill 2015.

18.3 Bod cynllun tocyn blynyddol lle mae'r incwm yn cael ei ail fuddsoddi mewn gwelliannau hwyluso mynediad ar gyfer deiliaid bathodynnau glas yn cael ei ddatblygu dros y 12 mis nesaf a bod ymgynghoriad ac asesiad effaith ar y cynllun yn cael eu hymgymered yn ystod y cyfnod hwnnw.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

"Mae'r rhesymeg y tu ol i'r argymhellion yn glir o'r sdroddiad a, fel y mae'r adroddiad wedi nodi, mae'r mater wedi derbyn sylw gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

### Y Swyddog Monitro:

Bydd angen dilyn trefniadau statudol ar gyfer addasu'r gorchmynion perthnasol a nodir yn yr adroddiad y bwriad i gynnal asesiadau ardrawiad cydraddoldeb ble'n berthnasol ar yr elfennau unigol cyn penderfynu yn derfynol ar eu gweithredu.

### Y Pennaeth Cyllid:

"Rwyf yn cefnogi'r ymdrech i adolygu'r trefniadau rheoli parcio; fel mae'r adroddiad yn cydnabod, mae cryn amser ers gwneud hyn ddiwethaf ac felly mae'r adolygiad cyfredol yn amserol. Gallaf gadarnhau fod swyddogion o'r Adran Cyllid wedi cynorthwyo'r awdur i baratoi'r adroddiad ac rwyf yn fodlon gyda cywirdeb y ffigyrau.

Fel mae'r adroddiad yn nodi, petai effaith chwyddiant a newid yng nghyfraddau TAW wedi cael ei weithredu'n llawn, byddai costau parcio oddeutu 15% yn uwch nag y maent ar hyn o bryd. Mae arferion cyllidebu – a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor – yn disgwyl fod chwyddiant yn cael ei osod yn flynyddol ar ein cyllidebau, a pan nad yw'r cynnydd mewn gwir incwm yn gyson â'r cynnydd yn y gyllideb ceir diffyg. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn cymorth yn y gorffennol er mwyn delio â hyn.

Bydd cynyddu ffioedd i'r hyn sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad yn mynd peth o'r ffordd i gyflawni'r lefel incwm y byddai'r gwasanaeth wedi ei dderbyn petai chwyddiant wedi cael ei osod yn flynyddol yn unol â threfniadau cyllidebu arferol. Mater i'r Cabinet yw penderfynu lle dylai'r lefel incwm gael ei osod yng nghyd-destun hyn, yn ogystal a'i ddyheadau i gefnogi economi canol ein dinas, trefi a phentrefi. Er fod hwn, felly, yn fater sydd angen penderfyniad gwleidyddol, mae angen i aelodau gymryd y penderfyniad gyda'r holl wybodaeth ariannol i law.

---

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **7 Chwefror 2019** |
| **TEITL** | **Materion cynllunio a'r Cynllun Dirprwyo** |
| **AWDUR** | **DAFYDD WILLIAMS, PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD AC IWAN EVANS, PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG** |
| **PWRPAS** | **EGLURO'R GOFYNION GYDA CHAIS CYNLLUNIO I NEWID AMOD A GWEITHREDIAD Y CYNLLUN DIRPRWYO** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn sgil trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018, ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Dirprwyo Cynllunio yng nghyd-destun Plas Pistyll, Pistyll, Pwllheli, penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r mater ac i dderbyn adroddiad pellach fyddai'n cyfarch y cynnig a dderbyniwyd gan y Cadeirydd sef:

"*Derbyniodd y Cadeirydd y cynnig a eiliwyd i wneud cais am adroddiad pellach ar y Cynllun Dirprwyo fyddai'n rhoi ystyriaeth i'r materion sylfaenol, y rhiniogau ar gyfer derbyn cais newid amodau, y rhiniogau'r cynllun dirprwyo a chyflwyno i'r Pwyllgor nesaf. Awgrymwyd bod Pennaeth yr Amgylchedd, Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu adroddiad ar y cyd fyddai'n ymateb i sylwadau'r Aelodau ynghyd ac ystyried gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.*"

1.2 Cyflwynir yr adroddiad yma felly i ymateb i'r uchod ac i gyfarch y ddau brif fater sef:

- Y rhiniogau ar gyfer derbyn cais cynllunio i newid amodau
- Y rhiniogau yn y cynllun dirprwyo cynllunio

**2. CAIS I NEWID AMOD CYNLLUNIO**

2.1 Mae'r ddeddfwriaeth cynllunio'n yn crybwyll mathau gwahanol o geisiadau cynllunio y gellir ei gyflwyno er mwyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio, sydd yn cynnwys cais llawn, cais amlinellol a chais newid neu ddiddymu amod(au) sydd ar ganiatâd cynllunio presennol.

2.2 Gyda datblygiad sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio sydd dal yn ganiatâd byw, os yw datblygwr angen newid rhannau o'r datblygiad, mae opsiynau gwahanol yn agored sydd yn ddibynnol ar beth sydd dan sylw. Mae modd gwneud newidiadau bychain di-faterol drwy drefn syml o dan adran 96A o'r ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990. Gellir gwneud newidiadau eraill drwy drefn o dan adran 73 o'r ddeddf, i newid neu ddiddymu amod cynllunio, neu wrth gwrs gellir gwneud cais am ganiatâd gwbl newydd.

2.3 Mae'r drefn o dan adran 73 o'r ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 wedi ei lunio i hwyluso prosesau ac osgoi cyfundrefn lem o dan geisiadau am ganiatâd llawn, lle ystyrir nad oes newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud. Mae'r drefn yn galluogi datblygwyr wneud cais i addasu amodau (gan gynnwys cynlluniau penodol) ar ganiatâd penodol.

2.4 Mae gofyn i'r awdurdod cynllunio ystyried priodoldeb cais o'r fath ym mhob achlysur, ond yn benodol mae angen ystyried a yw'r addasiad yn golygu newid creiddiol i'r cynllun gwreiddiol. Mae sail gyfreithiol hyn i'w ganfod yn achos R v Coventry City council (ex parte Arrowsmith Group plc) (2001). Mae newid creiddiol yn golygu gwedd newid effeithiau'r datblygiad yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae modd defnyddio'r broses er mwyn tynnu graddfa datblygiad i lawr.

2.5 Os ystyrir fod y newid i ganiatâd yn un creiddiol, bydd gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno cais llawn newydd.

2.6 Mae achos Uchel Lys diweddar wedi dod ac ychydig mwy o eglurder o ran beth sydd yn bosib o dan adran 73. Yn achos R (Vue Entertainment Limited) v City of York Council (2017), daeth cwmni sinema genedlaethol Vue a chais am arolwg barnwrol o benderfyniad Cyngor Efrog i ganiatáu addasiad i ganiatâd o dan adran 73. Roedd y cais yn cynyddu (ymysg pethau eraill) nifer o sgriniau sinema o 12 i 13, gan gynyddu capasiti seddau o fewn y sinema o 2000 i 2400. Roedd hyn yn gynnydd o 20% mewn niferoedd. Roedd cwmni Vue yn dadlau fod hyn yn newid creiddiol i'r caniatâd gwreiddiol. Fodd bynnag, penderfynodd y Llys yn yr achos yma nad oedd hwn yn newid creiddiol, a bod angen edrych ar y caniatâd yn ei gyfanrwydd wrth ystyried y cwestiwn. Nid oedd y newid i'r amod yn golygu newid y caniatâd yn ei gyfanrwydd. Roedd disgrifiad y caniatâd yn cyfeirio at "multi-screen cinema", a byddai'r newid dan sylw dal yn golygu bod disgrifiad y caniatâd yn aros yr un fath.

2.7 Mae'r achos yn rhoi cefnogaeth gref i'r ddadl y gall datblygwyr ddefnyddio adran 73 i newid amodau sydd yn mynd tu draw i newidiadau bychain. Mater i'r awdurdod cynllunio, trwy ei swyddogion, fydd ystyried priodoldeb y math o geisiadau ym mhob achlysur yn unigol. Fodd bynnag, ni all yr awdurdod cynllunio fynnu ar gais llawn pam mae ymgeisydd yn gwneud cais priodol o dan adran 73. Nodir fod swyddogion cynllunio'n gorfod gwneud penderfyniadau sydd yn golygu'r angen i asesu'r math o gais sydd yn briodol, fel rhan annatod o'u gwaith o ddydd i ddydd.

2.8 O safbwynt hanes cynllunio safle Plas Pistyll yn benodol, mae'r pryder ynglŷn â phriodoldeb y math o gais a gyflwynwyd yn cael ei godi yng nghyd-destun cais cynllunio i newid amodau, sef cais rhif C16/0976/43/LL oedd ar gyfer:

*"Diwygio amodau 2 (unol a'r cynlluniau) a 7 (nifer o unedau) ar ganiatâd cynllunio C11/0661/43/LL er mwyn diwygio dyluniad y datblygiad a lleihau nifer o unedau gwyliau i 19, ynghyd a diddymu amodau 8, 9, 10 (Cod Cartrefi Cynaliadwy)"*

2.9 Nodir fod y cais uchod yn parhau i fod yn gais oedd yn ymwneud a darparu unedau gwyliau yn unol â'r caniatâd cynllunio gwreiddiol, ond bod y cais yn lleihau nifer yr unedau gwyliau. Nid oedd newid yr amodau felly yn newid y caniatâd yn ei gyfanrwydd. Effaith newid yr amodau oedd newid y dyluniad oedd yn newid materol oedd angen caniatâd cynllunio, a cyflwynwyd cais newid amod i'r perwyl yma. Gan ystyried y cais yma felly o safbwynt cyfreithiol, credir fod cyflwyno cais i ddiwygio amodau wedi bod yn briodol yn yr achos yma.

**3. CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO**

3.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 101 caniateir i'r Cyngor ddirprwyo ei swyddogaethau i Bwyllgorau, Cyd Bwyllgorau, Is Bwyllgorau a Swyddogion. Mae darpariaethau hefyd ar gyfer dirprwyo swyddogaethau gan y Cabinet. Fodd bynnag, nid yw dyfarnu ceisiadau cynllunio yn fater Cabinet ac felly drwy'r Cyngor Llawn daw'r drefn dirprwyo.

3.4 Mae eglurdeb ynglŷn â phwy sydd gan yr hawl i ddyfarnu'r cais yn hanfodol er rhoi sicrwydd i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr ynglŷn â'r penderfyniad. Oherwydd hyn mae cynllun dirprwyo penodol a manwl ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

3.5 Fe adolygwyd y cynllun dirprwyo ym Mai 2018 ar ôl ymchwiliad craffu ac atodir yr adroddiad Craffu a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn i'w derbyn. Amcan yr adroddiad oedd addasu'r drefn er ceisio tynnu balans priodol ynglŷn â materion oedd rhaid mynd gerbron y Pwyllgor. Un o'r prif newidiadau o safbwynt hyn, oedd symud y pwyslais oddi wrth gyfeirio i'r Pwyllgor yn sgil nifer cymharol isel a meintiol o wrthwynebiadau, oedd yn cynyddu gwaith y Pwyllgor er bod y cais yn gymharol syml ei natur. Rhoddwyd pwyslais penodol felly ar rôl aelodau lleol ac ehangach fel y baromedr o farn leol ac i ddefnyddio eu hawl galw mewn petai pryder lleol gwirioneddol.

3.6 O safbwynt Plas Pistyll mae Aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cwestiynu pam na adroddwyd cais rhif C16/0976/43/LL i newid amodau cynllunio (gweler paragraff 10) i'r Pwyllgor Cynllunio. Dyfarnwyd y cais yma ar gyfer Plas Pistyll yn unol â'r drefn flaenorol. Fodd bynnag, yn absenoldeb cais galw mewn gan aelod a dim gwrthwynebiadau, nid oedd un o'r rhiniogau ar gyfer dyfarnu'r cais amodau wedi eu croesi. Gan ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriadau cyhoeddus a'r hanes o ganiatadau cynllunio ar gyfer unedau gwyliau ar y safle, roedd seiliau rhesymol i'r Pennaeth Adran benderfynu peidio defnyddio ei hawl i gyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio.

3.7 I gefnogi'r drefn yma yn ei ffurf bresennol ac yn y gorffennol hefyd cymerir y camau canlynol i dynnu sylw at y cais:

| | **Ymgynghorai** | **Dull ymgynghori ar gais cynllunio** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|
| **1** | Cymdogion | Llythyr drwy'r post –<br><br>Atodiad 2 (sydd yn cynnwys linc i'r cais) | Mewn amgylchiadau ble mae perchennog neu feddiannydd cyffiniol (hyn yn digwydd ar y mwyafrif o geisiadau ac yn seiliedig ar natur ac amgylchiadau'r datblygiad/safle). |
| **2** | Safle | Rhybudd safle - Atodiad 3 | Bob tro. |
| **3** | Y wasg | Yn y wasg leol (dibynnu ar yr ardal - Caernarfon & Denbigh/ Bangor Mail/ Cambrian News) -<br><br>Atodiad 4 | e.e. ceisiadau Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, ceisiadau mawr 'Major', ceisiadau sy'n destun Asesiad Amgylcheddol ac ati ble mae'r Gorchymyn yn gofyn rhoi hysbyseb yn y wasg. |
| **4** | Aelod Lleol | Drwy e-bost - Atodiad 5 (sydd yn cynnwys linc i'r cais) | Bob tro |
| **5** | Cyngor Cymuned | Drwy e-bost - Atodiad 6 (sydd yn cynnwys linc i'r cais) | Bob tro |
| **6** | Ymgynghorwyr statudol | Drwy e-bost - Atodiad 6 (sydd yn cynnwys linc i'r cais) | Pan yn berthnasol i'r datblygiad |
| **7** | Eraill | Drwy e-bost neu lythyr | Pan yn berthnasol i'r datblygiad |

3.8 Mae’n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio (ac eithrio rhai ceisiadau sy’n dod o fewn Adran 73) yn unol ag erthygl 12 o’r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2012. Mae’r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer 4 math sylfaenol o gyhoeddusrwydd:

i. Arddangos hysbysiad safle ar y tir mae’r cais yn ymwneud ag ef neu’n agos at y tir hwnnw
ii. Cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy’n cylchredeg yn y gymdogaeth
iii. Cyflwyno hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol
iv. Cyhoeddi gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)

3.9 Gyda’r mwyafrif o geisiadau cynllunio a dderbynnir gan yr ACLl mae gofyn statudol i gynnal cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio drwy:

i. arddangos rhybudd ar y safle mewn o leiaf un man ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, am gyfnod o ddim llai nag 21 diwrnod; **neu**
ii. drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol.

3.10 Mewn rhai amgylchiadau gall hefyd fod gofyn hysbysebu’r cais yn y wasg yn lleol (gweler y tabl uchod).

3.11 Fe bwysleisiwyd y drefn uchod wrth gyflwyno’r adroddiad am y Cynllun Dirprwyo newydd i’r Cyngor llawn, sef bod dibyniaeth ar aelodau lleol i fod yn fyw i faterion cynllunio yn eu hardal a chadw mewn cysylltiad â’r Gwasanaeth Cynllunio. Mae’r drefn yma wedi gweithio ers cryn dipyn o amser gydag aelodau profiadol a newydd yn cyfeirio materion i’r Pwyllgor. Dengys ystadegau fod oddeutu 11% o’r ceisiadau adroddwyd i’r Pwyllgor dan yr hen gynllun dirprwyo wedi ei gyfeirio gan Aelodau Lleol, gyda 7 cais wedi ei gyfeirio gan Aelodau Lleol ers gweithredu’r Cynllun Dirprwyo newydd. Mae hyn yn ogystal â’r drefn hysbysebu cymdogion a Chynghorau Cymuned, sydd nid yn unig gyfrwng i geisio adborth ond yn rhan o drefn o hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth am geisiadau.

3.12 Felly, yn ôl y cynllun dirprwyo rhoddir hawl i’r Pennaeth Amgylchedd yn gweithio drwy ei swyddogion cynllunio'r i benderfynu pob cais cynllunio ac eithrio'r rhai sydd yn disgyn o fewn y categorïau sydd yn gorfod mynd i Bwyllgor. Mae disgresiwn i anfon ceisiadau nad ydynt yn croesi’r rhiniogau yma i Bwyllgor beth bynnag. Ond, disgresiwn ydi hwn ac nid yw yn tynnu'r hawliau craidd yn ôl. Mae penderfyniad felly sydd yn unol â’r Cynllun Dirprwyo yn benderfyniad cynllunio dilys. Mae angen hyn er creu sicrwydd ynglŷn â phenderfyniadau o’r math yma ac nad yw yn agor y drws i her.

3.13 Pe cyfyd cwestiwn posib ynglyn ag addasu’r Cynllun Dirprwyo mae’r adroddiad Craffu yn pwysleisio fod newidiadau i’r Cynllun dirprwyo yn cael effaith ar ddyfarnu ceisiadau a llwyth gwaith y Pwyllgor. Mae gofyn i unrhyw gyfundrefn gyfarch yr angen am:

i. Eglurdeb a Phriodoldeb
ii. Effaith unrhyw newid ar lif gwaith
iii. Effaith ar lwyth gwaith y Pwyllgor

3.14 Er bod ceisiadau cynllunio yn dilyn prosesau cymharol debyg beth bynnag fo'i maint ag arwyddocâd, mae amrywiaeth sylweddol yn eu natur. Gall newid cymharol fychan i eiriad y cynllun olygu fod nifer anghymesur o geisiadau yn mynd i bwyllgor. Mae eisoes gofyn cyffredinol yn hawliau dirprwyedig y Cyngor, sydd yn berthnasol i bob swyddog wrth wneud penderfyniad i roi ystyriaeth a ddylai'r mater fynd i Bwyllgor:

> "2.4 Cyn gweithredu unrhyw bŵer dirprwyedig dylai bob prif swyddog ystyried a yw'r penderfyniad sydd i'w wneud yn gyfryw fel y dylid ei gyfeirio i'r Cabinet, bwyllgor neu is-bwyllgor priodol i'w benderfynu."

3.15 Felly, nid yn unig fod yr hawl gan y Prif Swyddog, mae'n ystyriaeth benodol ac nid oes dadl fod yr ystyriaeth yma wedi ei roi yn achos Plas Pistyll. Ond, o safbwynt y cynllun dirprwyo felly mae negeseuon amlwg ynglyn a gweithrediad y drefn yn deillio ar gyfer pob budd-ddeiliad.

## 4. ARGYMHELLION

1. Cwblhau'r monitro 12 mis ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo newydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu wedi hynny.
2. Gofyn i'r Pennaeth Adran Amgylchedd atgoffa aelodau o'r drefn dirprwyo a galw mewn.
3. Sicrhau fod hyfforddiant holl aelodau ar faterion cynllunio yn ymdrin â'r trefniadau uchod.

## 5. ATODIADAU

- Atodiad 1 – Adroddiad Cyngor Llawn 3 Mai 2018
- Atodiad 2 - Ymgynghoriad cymdogion
- Atodiad 3 – Rhybudd safle
- Atodiad 4 – Rhybudd i'r wasg
- Atodiad 5 – Ymgynghoriad Aelod Lleol
- Atodiad 6 – Ymgynghoriad Cyngor Cymuned ac ymgynghorai statudol

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **3ydd Mai 2018** |
| **TEITL** | **Diwygio’r Cyfansoddiad** |
| **CYFLWYNYDD** | **Cynghorydd Seimon Glyn – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **PWRPAS** | **Gweithredu argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau o ran addasu Cynllun Diprwy Cynllunio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Mabwysiadu'r addasiadau i’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â’r hyn a nodir yn Atodiad 1 o’r adroddiad.** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1 Mae’r adroddiad yma yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio elfen benodol o’r Cyfansoddiad, sef Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Mae’r addasiadau penodol i’w gweld yn Atodiad 1

2 Ym mis Mawrth 2017 cwblhawyd ymchwiliad Craffu Cymunedau ynglŷn â’r maes Cynllunio. Un o’r meysydd oedd dan ystyriaeth oedd nifer o geisiadau cynllunio oedd yn dod ger bron y Pwyllgor Cynllunio. Canfyddiad yr ymchwiliad oedd bod y nifer o geisiadau oedd ger bron y Pwyllgor yn uchel ac felly bod angen ystyried addasu’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Roedd hyn yn argymhelliad ffurfiol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Ymgynghorwyd yn anffurfiol gydag aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio hefyd ym mis Tachwedd ar y darpar addasiadau. Roedd cefnogaeth i’r awgrymiadau mewn egwyddor.

3 Ymgynghorwyd ymhellach gyda’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar yr 22ain Chwefror 2018 ynglŷn â geiriad y Cynllun dirprwyo newydd, a phenderfynwyd derbyn yr addasiadau**.** Mae’r adroddiad Pwyllgor Craffu i’w weld yn Atodiad 2, ac mae hwn yn nodi’r cefndir yn ei gyfanrwydd. Nodir manteision a buddion addasu’r Cynllun Dirprwyo a ystyriwyd o fewn rhan 7.2 o’r adroddiad Craffu. Y rhain yw’r ceisiadu sydd rhaid dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s16060/Planning%20Delegation%20Plan.pdf?LLL=1

**Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Amgylchedd**

4 Mae'r newidiadau arfaethedig i'w gweld yn benodol yn Atodiad 1. Mae nifer o'r newidiadau ynglŷn â sicrhau cysondeb a thacluso materion technegol. Mae'r newidiadau i'w crynhoi fel a ganlyn:

4.1 Mae rhif 2 yn ymdrin â cheisiadau cynllunio a gwrthwynebiadau gan Aelodau Etholedig neu staff Gwasanaeth Cynllunio. Mae hyn yn creu sicrwydd er mwyn ymdrin â materion yn dryloyw, a bod unrhyw geisiadau o'r math yn cael eu delio yn gyhoeddus gan y Pwyllgor. Mae rhif 3 yn ymdrin gyda sefyllfa gyffelyb o ran perthnasau agos.

4.2 Rhif 5 - wedi ei ddileu gan fod rhannau eraill o'r cynllun yn gallu ymdrin â cheisiadau o'r math yma.

4.3 Rhif 6 - Ar hyn o bryd mae trothwy o 3 gwrthwynebiad i gais gynllunio yn groes i argymhelliad swyddog yn golygu y bydd mater yn mynd ger bron Pwyllgor Cynllunio. Golygai fod derbyn unrhyw dri eitem o ohebiaeth yn rhoi'r eitem ar raglen y Pwyllgor heb unrhyw gyd-destyn. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu yn yr ymchwiliad yn 2017, roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth. Mae disgresiwn yr Aelod lleol i alw cais ger bron y Pwyllgor yn parhau (Rhif 1) a hefyd mae gan y Pennaeth y disgresiwn i alw ceisiadau i'r Pwyllgor fel bod yn ystyried yn briodol (Rhif 7).

4.4 Rhif 9 - Ni ystyrir fod angen gwahaniaethu rhwng datblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu ei natur sydd dros 500 meter sgwar a datblygiadau o adeilad neu adeiladau sydd yn fwy na 1000 meter sgwar neu fwy. Ystyrir fod yr addasiad yn cyfarch y rhain mewn un pwynt perthnasol gan osod trothwy o 1000 meter sgwar bu'r rhain yn adeiladau masnachol, adwerthu neu unrhyw ddatblygiad o fath arall. Mae hyn yn adlewyrchu y diffiniad statudol o Ddatblygiad Mawr.

4.5 Rhif 10 - mae hwn wedi ei gynnwys er mwyn cyfarch datblygiad tir sydd yn fwy na 0.5 hectar. Ystyrir fod y pwynt yma yn cyfarch nifer o geisiadau carafanau o sylwedd (rhif 11), ac unrhyw ddatblygiad arall all fod o sylwedd.

4.6 Mae rhif 11 a 12 wedi eu dileu ar y sail fod un ai un o'r penawdau eraill bellach yn eu cyfarch (Rhif 10), neu bod disgresiwn yr Aelod lleol galluogi galw'r mater i Bwyllgor os yw'n ystyried ei fod yn fater sydd o bwys cynllunio lleol.

4.7 Dylid nodi fod rhif 8 (datblygiadau o 5 neu fwy o dai) wedi ei gadw o fewn y cynllun.

**ARGYMHELLIAD:**

**Mabwysiadu'r addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.**

**Atodiad 1**

**Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd**

1. Ceisiadau cynllunio pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.

2. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan Aelodau Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.

3. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan berthynas agos i Aelod Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio. Diffinir "perthynas agos" yn y cyd-destun yma fel mam neu dad, gwr neu wraig, partner, plentyn,brawd neu chwaer, nain neu daid, wyr neu wyres.

4. Ceisiadau cynllunio y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm wrthynt.

5. ~~Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd a chynhwysedd o 32KV neu fwy.~~

6. ~~Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad y swyddogion.~~

7. Ceisiadau cynllunio y mae'r Pennaeth Amgylchedd yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.

8. Ceisiadau cynllunio am dai lle mae y nifer o dai sydd yn cael eu darparu yn 5 neu yn fwy

9. Ceisiadau cynllunio am ~~ddatblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu sydd dros 500metr sgwar~~ ddarpariaeth adeilad neu adeiladau ble mae'r gofod llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1000 metr sgwar neu fwy; neu

10. Ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau ar safle sydd yn 0.5 hectar neu fwy o ran maint

11. ~~Ceisiadau am fwy na 5 carafan.~~

12. ~~Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.~~

Diffinir 'ceisiadau cynllunio' fel: cais llawn, cais deiliaid ty, cais amlinellol, cais materion a gadwyd yn ol, cais adeilad rhestredig, cais Ardal Cadwraeth, cais i arddangos hysbysebion, cais mwynau a gwastraff, cais i ddiddymu neu amrywio amod(au), cais i ddiddymu neu amrywio Rhwymedigaeth Cynllunio, cais diwygiad ansylweddol.

**Atodiad 2**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | |
| **TEITL** | Gweithredu’r argymhelliad i addasu’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn sgil yr Ymchwiliad Craffu yn y maes Cynllunio. |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Cyflwyno’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio (Drafft) newydd i gynnwys yr addasiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu cyn ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn. |

1. **Cefndir:**

1.1 Mae’n fwriad gofyn i’r Cyngor Llawn gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Craffu i ddiwygio’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Bu i Ymchwiliad Craffu gael ei gynnal ar y maes cynllunio yn ystod 2016-17. Un o’r meysydd oedd yn rhan o’r ymchwiliad hwn oedd y Cynllun Dirprwyo Cynllunio, sef y Cynllun sydd yn nodi pa geisiadau sydd yn cael eu dirprwyo i swyddogion perthnasol i’w penderfynu a pha geisiadau sydd angen eu hadrodd i’r Pwyllgor Cynllunio i’w penderfynu.

1.2 Yn mis Mawrth 2017, ac yn sgil gwaith a chanfyddiadau’r Ymchwiliad Craffu, cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu i’r Aelod Cabinet y dylid addasu’r trothwyon yn y Cynllun Dirprwyo. Bydd addasu’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar argymhelliad y Swyddog Monitro gan ei fod yn fater cyfansoddiadol. Fel rhan o’r broses yma ceisir cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i ddiwygio’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn unol â’u hargymhellion gwreiddiol er mwyn sicrhau'r buddion a drafodwyd eisoes ac a amlinellir isod. Teimlir ei bod yn bwysig fod y Pwyllgor Craffu’n gweld allbwn gwaith yr ymchwiliad, cyn ei adrodd i’r Cyngor Llawn, gyda’r newidiadadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor eisoes, wedi ei hymgorffori mewn Cynllun Dirprwyo diwygiedig.

2. **Gwaith y Pwyllgor Craffu**

2.1 Un o’r meysydd gwaith roedd y Pwyllgor Craffu yn dymuno edrych arno oedd y rhan o’r Cynllun Dirprwyo sydd yn berthnasol i geisiadau cynllunio. Mae’n debyg fod hyn yn deillio o bryderon sydd yn cael eu codi yn gyson gan aelodau, Cadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am hyd yr rhaglenni, hyd y Pwyllgorau, y nifer a mathau o eitemau sydd yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio a pam fod rhai eitemau angen dod gerbron y Pwyllgor o gwbl. Mae pryder cyffredinol wedi ei fynegi nad yw’r drefn bresennol yn gwneud y defnydd gorau o amser y Pwyllgor a sicrhau eu bod yn delio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt.

2.2 Yn benodol i’r pwnc yma bu i’r ymchwiliad craffu ystyried:

1. Beth yw blaenoriaethu’r Pwyllgor Cynllunio o safbwynt y ceisiadau sydd yn dod gerbron a’r amser a’r arbenigedd sydd ar gael?

2. Ydy'r trefniadau presennol yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i ddelio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt?

3. Os oes angen newid cynnwys/trothwyon y Cynllun Dirprwyo, sut gellir gwneud hynny?

4. Beth fyddai'r budd i'r Pwyllgor Cynllunio…ac fyddai budd ehangach na budd i waith y Pwyllgor Cynllunio ei hun?

2.3 Er mwyn gwneud hyn fe ddarparwyd gwybodaeth i'r Ymchwiliad Craffu ei ystyried oedd yn ymwneud gyda:

3. **Trefniadau presennol y Pwyllgor Cynllunio**

3.1 Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cwrdd bob 3 wythnos ac ar gyfartaledd mae oddeutu 10 cais ar bob rhaglen ac yn ddiweddar roedd 16 cais ar yr agenda oedd yn golygu dechrau'r Pwyllgor yn y bore yn hytrach nac am 1yp. O ystyried y gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi eitemau Pwyllgor, yn ogystal â'r pwysau ar Aelodau a nifer uchel o swyddogion i baratoi o flaen llaw (a hyd cyfarfodydd) mae'n amlwg nad yw cael mwy na 10 eitem ar bob rhaglen yn ddelfrydol, yn enwedig os oes ceisiadau mawr ac/neu gynhennus. Mae'r meddylfryd hyn wedi ei gefnogi gan Gadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Dirprwyo Swyddog Monitro ac yn gyffredinol fe gredir mai'r nifer delfrydol ac eitemau ar yr agenda yw 8.

3.2 Oherwydd gofynion y Cynllun Dirprwyo presennol mae pob agenda draft yn dechrau gyda nifer uchel iawn o geisiadau arno (rhwng 20-25) gyda'r angen wedyn i flaenoriaethu pa geisiadau fydd ar yr agenda terfynol. Rhaid blaenoriaethu ar sail nifer o faterion a risgiau megis: gallu penderfynu o fewn cyfnod statudol er mwyn cwrdd targedau cenedlaethol; penderfynu o fewn cyfnod statudol oherwydd gall yr ymgeisydd ofyn am ad-dalu'r ffi cynllunio os na wneir hyn; risg o apêl am ddiffyg penderfyniad o fewn yr amserlen; oblygiadau economaidd/grantiau (er nad yw'n fater cynllunio, mae'n bwysig i'r datblygwr ac i gyflawni datblygiad); pwysau gwaith ar yr holl swyddogion sydd yn ymwneud gyda'r broses ac Aelodau'r Pwyllgor. O bryd i'w gilydd mae angen wedi codi am Bwyllgor ychwanegol er mwyn dal fyny neu fel a welwyd yn Rhagfyr 2017 cynhaliwyd Pwyllgor drwy'r dydd.

3.3 Yn ogystal mae'r gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi adroddiadau Pwyllgor wedi cynyddu yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a hynny oherwydd yr angen am adroddiadau manylach er mwyn lleihau risg i'r Cyngor, cwrdd a'r gofynion polisi lleol a chenedlaethol ac i sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol gan yr Aelodau wrth iddynt wneud eu penderfyniad. Cydnabyddir fod hefyd angen adroddiad mewn perthynas a materion dirprwyedig ond yn amlwg nid yw'r cyfyngiadau amserlen yn bodoli sy'n golygu fod penderfyniad amserol yn llawer mwy tebygol.

4. **Y Cynllun Dirprwyo Presennol**

4.1 Ar hyn o bryd, ac o safbwynt materion cynllunio yn unig, fe ddirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau perthnasol (a nodir yn y 'Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau') i'r Pennaeth Rheoleiddio (sydd erbyn hyn wedi ei newid i Bennaeth Amgylchedd), ac eithrio'r isod fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio (atodir copi llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol fel Atodiad 1):


- *Ceisiadau pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.*
- *Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.*
- *Ceisiadau y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm iddynt.*
- *Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd â chynhwysedd 32KV neu fwy.*
- *Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad swyddogion.*
- *Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.*
- *Ceisiadau am ddatblygiadau preswyl ar gyfer 5 annedd neu fwy.*
- *Ceisiadau am ddatblygiad diwydiannol, masnachol neu adwerthu sydd dros 500m sgwâr.*
- *Ceisiadau am fwy na 5 carafán.*
- *Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.*

*NODYN: fel mater o ymarfer da, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cyfeirio unrhyw gais gan berthynas agos i aelod o staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio i'r Pwyllgor ei benderfynu. I'r pwrpas yma diffinnir perthynas agos fel mam neu dad, gwr neu wriag, partner, plenty neu frawd neu chwaer.*

4.2 Dylid nodi fod cyfrifoldeb ar pob prif swyddog o dan hawliau cyffredinol Cynllun Dirprwyo Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad (Adran 13, Atodiad 3) i ystyried cyn penderfynu ar unrhyw gais dirprwyedig os dylid ei gyfeirio at Bwyllgor i'w benderfynu. Fydd y cyfrifoldeb yma yn parhau yn dilyn unrhyw newid penodol i'r cynllun dirprwyo Cynllunio.

4.3 Darparwyd siart i'r Pwyllgor Craffu oedd yn dangos y rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlygwyd mai'r rheswm mwyaf oedd derbyn 3+ o sylwadau yn groes i argymhelliad swyddog. Gall y gwrthwynebiadau hyn i gyd ddod o'r un cyfeiriad post neu e-bost ac/neu fod yn anhysbys ac o bosibl yn amherthnasol i'r achos neu i gynllunio. Mae hyn hefyd yn golygu fod datblygiadau bach megis estyniadau i dai ac ati'n gorfod cael eu penderfynu gan y Pwyllgor.

4.4 Yn ystod blwyddyn 2015/16 mae'r prif resymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor fel a ganlyn:




**Nodyn:** rhaid cofio nad yw'r trothwyon hyn (na'r rhai presennol) yn gweithredu'n unigol – mae'n bosib fod cais sydd gerbron y Pwyllgor ar yr agenda oherwydd e.e. nifer o dai, gwrthwynebiadau a'i fod wedi ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol.

5. **Y sefyllfa yn Genedlaethol a threfniadau sampl o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Ngogledd Cymru** -

5.1 Yn ystod 2016/17 a 2015/16 daeth 9% o holl geisiadau cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gerbron y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu gyda cyfartaledd Cymru oedd yn 6%. Mae hyn yn gyfystyr gyda oddeutu 100 o geisiadau'r flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor dros 15 o gyfarfodydd (gyda nifer o'r ceisiadau yma yn cael eu gohirio a'u hail-gyflwyno).

5.2 Edrychwyd ar drefniadau dirprwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y Gogledd a gwelwyd fod meini prawf sydd yn gyffredin ond ddim yn gwbl gyson rhwng bob ACLl megis:

1. Amgylchiadau ble gall Aelod Lleol alw'r cais gerbron y Pwyllgor
2. Amgylchiadau ble mae gan aelod o staff neu Aelod ddiddordeb personol yn y cais
3. Ceisiadau ble mae Asesiad o Effaith Amgylcheddol ynghlwm
4. Ceisiadau ble mae'r Pennaeth yn ystyried y dylid eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad
5. Fod y cais yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o gais 'mawr' (major)

6. Fod nifer benodol (sy'n amrywio o ACLl i ACLl) o wrthwynebiadau ysgrifenedig wedi eu derbyn
7. Fod y cais wedi ei gyflwyno gan y Cyngor neu ar dir y Cyngor

5.3 Nid yw'r mwyafrif o'r ACLl a edrychwyd arnynt yn nodi maint/math o ddatblygiad neu nifer o unedau fel trothwy fel mae ACLL Gwynedd yn ei wneud ond yn hytrach yn defnyddio'r diffiniad statudol o geisiadau 'mawr'. Mae trothwyon Cyngor Gwynedd yn is na hyn ac yn rhagnodol iawn o safbwynt niferoedd sylwadau, nifer o dai a charafanau ac mae'n debygol fod ei gynnwys wedi dyddio ac yn gyffredinol yn adlewyrchu'r amgylchiadau/diddordeb oedd yn bodoli ar adeg ei lunio. Erbyn hyn mae natur y ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r ACLl wedi newid cryn dipyn o safbwynt math, maint a nifer.

5.4 Wrth ystyried hyn amlygwyd fod modd cynnig newidiadau syml i'r trothwyon dirprwyo fyddai unai yn lleihau'r nifer ar bob agenda a'r holl waith cysylltiedig ac/neu yn sicrhau fod y ceisiadau sydd angen blaenoriaeth a sylw'r Pwyllgor ar yr agenda heb orfod oedi yn ddiangen gan leihau risgiau a sicrhau lefelau perfformiad. Byddai hefyd yn fodd i geisio lleihau'r nifer a gyflwynir i'r Pwyllgor er mwyn adlewyrchu y cyfartaledd Cenedlaethol ac hwyluso penderfyniadau cyflymach.

6. **Trafodaeth y Pwyllgor Craffu:**

6.1 Ar sail y canran uchel o geisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a'r effaith cysylltiedig o wneud hyn (fel a nodir uchod), cefnogwyd yr angen i sicrhau fod y Pwyllgor Cynllunio yn canolbwyntio ar ddelio gyda materion sydd o wir ddiddordeb iddynt yn unig ac y byddai hyn hefyd yn sicrhau'r defnydd gorau o'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael gan hefyd osgoi'r risgiau posibl a amlinellir uchod.

6.2 Er mwyn gwneud hyn, cefnogwyd y bwriad i newid y Cynllun Dirprwyo Cynllunio a'i selio ar drothwyon/diffiniad o geisiadau 'mawr' gyda addasiadau lleol o safbwynt nifer tai (5 yn lle 10) ac hefyd datblygiad ar safle o faint penodol (0.5 hectar yn lle 1 hectar). O safbwynt ceisiadau mwynau a gwastraff ni ystyrir fod angen nodi rhain yn unigol gan y bydd y trothwyon eraill a awgrymir yn golygu y bydd y ceisiadau mawr neu sydd o ddiddordeb yn dod gerbron y Pwyllgor beth bynnag.

6.3 Roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth oedd ei angen yn groes i argymhelliad y swyddog er mwyn cyflwyno cais i Bwyllgor, gan fod hyn wedi ei ddangos i fod yn cyfrannu yn sylweddol tuag at geisiadau oedd mynd gerbron y Pwyllgor, oedd heb fwy na diddordeb lleol iddynt. Cydnabuwyd a chefnogwyd fod hawl yr Aelod Lleol neu dau aelod arall i alw cais i Bwyllgor o dan amgylchiadau penodol yn parhau fel y sefyllfa bresennol ac ystyriwyd fod hyn yn dderbyniol. Yn ogystal, derbyniwyd y byddai'r holl ohebiaeth a dderbynnir ar gais ac sydd yn berthnasol i gynllunio yn parhau i gael sylw teilwng a phriodol fel rhan o'r asesiad dirprwyedig.

7. **Canfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu -**

7.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu gwnaethpwyd y canfyddiad fod '*trothwyon Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd i weld yn isel o'i gymharu gyda sefydliadau eraill ac fe amlygir hynny drwy nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio.*' Tystiolaethwyd hyn gan berfformiad cymharol Cymru 2015-16 (sydd hefyd yn wir ar gyfer 2016-17). Ar y sail yma

argymhellodd y Pwyllgor Craffu fod trothwyon y Cynllun Dirprwyo Cynllunio fel oedd wedi ei drafod a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu. Mae drafft o'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig cyflawn wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 ac mae hwn yn cyfeirio at yr hawliau i alw i mewn, cyfeirio ceisiadau gan staff ac aelodau, ymarfer da ac ati.

7.2 Rhagwelir y byddai buddion amlwg ac eang o weithredu'r newidiadau drwy:

- Llai o geisiadau ar yr rhaglen a pheidio gorfod blaenoriaethu cymaint
- Penderfyniadau mwy amserol yn debygol o:
  - Wella profiad y cwsmer
  - Lleihau'r risgiau i'r Cyngor (apel ac ad-dalu ffioedd)
- Llai o bwysau gwaith ar Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a chyfarfodydd byrrach
- Pwyllgor Cynllunio yn gallu delio a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt
- Llai o bwysau ar yr Uned Gyfieithu, Uned Gefnogol, Swyddogion Cynllunio a'r holl swyddogion eraill sydd yn cefnogi'r broses
- Alluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i gynnal a gwella perfformiad
- Ryddhau amser Swyddogion Cynllunio i ganolbwyntio ar geisiadau cynllunio eraill (sef 91% o'r holl geisiadau) er gwella profiad holl gwsmeriaid y Gwasanaeth Cynllunio

8. **Amserlen Berthnasol:**

8.1 Cyflwyno'r newid i'r Cyngor Llawn am eu cefnogaeth ar argymhelliad y Swyddog Monitro yn y cyfarfod blynyddol 3 Mai 2018.

8.2 Gweithredu'r newid yn fuan wedi hynny a chyn Medi 2018 gan fanteisio ar gyfnod yr Haf i godi ymwybyddiaeth a rhoi'r trefniadau priodol yn eu lle.

9. **Casgliadau**

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gadarnhau ac chefnogi'r Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig yn Atodiad 2, sydd yn cynnwys yr addasiadau sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth, cyn bod y cynllun yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawr ar argymhelliad y Swyddog Monitro.

10. **Atodiadau:**

Atodiad 1 – Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol

Atodiad 2 – Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig

CYMODOGION

**Adran Amgylchedd / *Environment Department***
**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd /**
***Planning and Public Protection Service***
**Uwch Reolwr / *Senior Manager* - Gareth Jones**

«MAILING_NAME_AND_ADDRESS»

Cais Rhif / *Application Number:* «Apn_Number»
Cofrestrwyd / *Registered*: «Registration_Date»
Swyddog / *Officer*: «Case_Officer»

«Current_Date»

Bwriad / *Proposal*: «Dev_L»
Lleoliad / *Location*: «Location»

Annwyl Syr/Madam,

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

Mae'r cais cynllunio a ddisgrifir uchod wedi ei dderbyn ac os ydych am wneud sylwadau ar y cais, dylech wneud o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwn unai ar-lein www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio neu yn ysgrifenedig. Dylai sylwadau ar geisiadau cynllunio gynnwys ystyriaethau materol cynllunio yn unig sy'n cynnwys; Cydymffurfio gyda'r Cynllun Datblygu, dylunio, effaith ar dai cyfagos megis colli golau neu breifatrwydd sylweddol, diogelwch ar y briffordd neu materion eraill a all fod yn ystyriaethau cynllunio o bwys. Nid ydynt yn cynnwys pethau megis; Colli golygfa, anghydfod ynghylch perchenogaeth tir, cymeriad yr ymgeisydd, materion moesol neu colli gwerth eiddo. Noder na fydd Swyddogion yn ymateb i sylwadau ar ymateb sydd yn cael ei gyflwyno ar gais Cynllunio.
Pwysleisir mai dogfennau cyhoeddus yw ffeiliau cynllunio ac, o'r herwydd, bydd eich sylwadau a'r holl wybodaeth yn gyhoeddus.

Gallwch weld manylion y cais ar safle Dilyn a Darganfod Ceisiadau Cynllunio'r Cyngor a gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio i gael gwybod os yw'r cais wedi ei benderfynu neu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad. Bydd y penderfyniad wedyn ar gael i'w weld ar y safle we. Os yw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, mae trefn wedi ei sefydlu ar gyfer siarad yn y Pwyllgor ac mae canllawiau ar gyfer hyn hefyd i'w gweld ar y we.

Rhoddir hawl i siarad i un person o blaid ac un person yn erbyn. Os bydd mwy nac un cais i siarad, y person cyntaf ysgrifennodd i ddatgan bwriad i siarad, (gwrthwynebwr neu gefnogwr), fydd gyda'r hawl i siarad os na fydd cytundeb ar siaradwr arall o'u grwp gwrthwynebu neu gefnogi, sydd hefyd wedi cyflwyno sylwadau. Dylid pwysleisio bod hawl ymgeisydd nei ei asiant yn goresgyn hawl siaradwr o blaid os dymunent siarad. Mae'n ofynnol i chwi ddatgan eich dymuniad i siarad yn ysgrifenedig, drwy lythyr i'r cyfeiriad isod neu ebost i Cynllunio@gwynedd.gov.uk cyn gynted a bo modd a dim hwyrach na 12:00 y dydd Gwener cyn y Pwyllgor.

Mae copïau o'r Canllawiau Gweithredol a Threfniant Pwyllgor sy'n egluro'n llawn y trefniant a'r weithdrefn ar gael ar safle we'r Cyngor; www.gwynedd.llyw.cymru/Cynllunio.

**Bydd manylion y cais ar gael ar safle Dilyn a Darganfod Ceisiadau Cynllunio'r Cyngor a bydd y manylion yn cael eu diweddaru yn rheolaidd gydag unrhyw newidiadau / diwygiadau / penderfyniad, neu gallwch weld y ffeil yn y Swyddfa Cynllunio drwy ffonio'r Gwasanaeth Cynllunio i drefnu dyddiad ac amser cyfleus.**

::::::::::::::::::::

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

*Dear Sir/Madam,*

***TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990***

*The planning application described above has been received and if you wish to make observations on the application, you should do so within 21 days of the date of this letter either on-line at www.gwynedd.llyw.cymru/Planning or in writing. Representations on planning applications should only include material planning matters which include; Compliance with the Development Plan, design, impact on neighbouring properties such as severe loss of light or privacy, highway safety or other matters which may be material planning considerations. However, they do not include things such as; loss of view, land ownership disputes, personal character of the applicant, moral issues or loss of value of property. Note that Officers will not respond to comments submitted on a planning application.*

*It is emphasized that planning files are public documents and as such your comments and all information will be public knowledge.*

*You can view the application on the Council's Track and Trace system and you can contact the Planning Service to find out if the application has been decided or is to be submitted to the Planning Committee to be decided. The decision will then be available to view on the website. If it is to be submitted to the committee, a procedure has been established for the right to speak at the committee and guidelines for this are also available on the web.*

*The right to speak is given to one person in support and one person against. If there is more than one application to speak, the first person who wrote informing of their intention to speak, (objector or supporter), will have the right to speak unless they agree to a speaker from within their group of objectors or supporters who has also submitted observations. It should be emphasised that the right of the applicant or their agent to speak over-rides the right of a supporter. It is essential that you declare your wish to speak in writing by letter to the address below or email Planning@gwynedd.gov.uk as soon as possible and no later than 12:00 on the Friday before the Committee.*

*Copies of the Operational Guidelines and Committee Procedure which explain in full the procedure are available on the Council's web site www.gwynedd.llyw.cymru/Planning*

***Details of the application will be available on the Council's Track and Trace system and the details will be updated regularly with any changes / amendments / decision or you can view the file at the Planning Office by phoning the Planning Service to arrange a convenient date and time.***

Yr eiddoch yn gywir / *Yours faithfully*

RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / *DEVELOPMENT MANAGEMENT MANAGER*

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000



Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

RHYBYDD
SAFLE

# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**GORCHYMYN (TREFN RHEOLAETH DATBLYGU CYFFREDINOL) (CYMRU) CYNLLUNIO GWLAD A THREF 2012 - RHYBUDD DAN ERTHYGL 12**
***TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL DEVELOPMENT MANAGEMENT PROCEDURE) (WALES) ORDER 2012 - NOTICE UNDER ARTICLE 12***

CAIS RHIF / *APPLICATION NUMBER:*
MATH O GAIS / *TYPE OF APPLICATION:* **Llawn - Cynllunio/Full - Planning**
BWRIAD / *PROPOSAL:*
LLEOLIAD / *LOCATION:*

**RHODDIR RHYBUDD TRWY HYN** bod cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd am ganiatad ar gyfer y bwriad uchod.

Gall aelodau'r cyhoedd archwilio copiau o'r cais, cynlluniau a dogfennau eraill a gyflwynwyd ar safle **Dilyn a Darganfod** Ceisiadau Cynllunio'r Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/Cynllunio) unai yn eich cartref neu yn unrhyw un o brif swyddfeydd y Cyngor neu Lyfrgelloedd a bydd y manylion yn cael eu diweddaru gydag unrhyw newidiadau / diwygiadau yn rheolaidd, neu gallwch weld y ffeil yn y Swyddfa Cynllunio drwy ffonio'r Gwasanaeth Cynllunio i drefnu dyddiad ac amser cyfleus.

Os ydych am wneud sylwadau neu gyflwyno tystiolaeth, dylech wneud o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y rhybydd hwn unai ar-lein www.gwynedd.llyw.cymru/Cynllunio neu yn ysgrifenedig i'r Gwasanaeth Cynllunio. Dylai sylwadau ar geisiadau cynllunio gynnwys ystyriaethau materol cynllunio yn unig ac mae copi o'r canllawiau sy'n egluro'n llawn y trefniant ar gael ar safle we'r Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/Cynllunio Noder y bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir ar gael i'w harchwilio yn gyhoeddus ac y bydd ymateb hwyr yn peryglu siawns i sylwadau gael eu ystyried wrth benderfynu'r cais.

::::::::::::::::::::

***NOTICE IS HEREBY GIVEN*** *that an application has been made to Gwynedd Council for consent in respect of the above proposal.*

*Members of the public may inspect copies of the application, the plans and other documents submitted on the Council's* ***Track and Trace*** *Planning Applications system www.gwynedd.llyw.cymru/Planning either at home or at any of the Council's main offices or Libraries and the details will be updated regularly including changes / amendments, or you can view the file at the Planning Office by phoning the Planning Service to arrange a convenient date and time.*

*If you wish to make observation or provide evidence, you should do so within 21 days of the date of this notice either on-line at www.gwynedd.llyw.cymru/Planning or in writing to the Planning Service. Observations on planning applications should only include material planning considerations and a copy of the guidance which explains the procedure in full, is available on the Council's website www.gwynedd.llyw.cymru/planning. It should be noted that any representation received will be available for public inspection and that failure to meet the deadline will jeopardise the chances of comments being taken into consideration in determining the application.*

RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / *DEVELOPMENT CONTROL MANAGER*
**DYDDIAD / *DATE:* 03/01/2019**

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

**Adran Amgylchedd**
**Environment Department**
Pennaeth / Head – Dafydd Wyn Williams

**Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990**
**Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990**
**Gorchymyn (Trefn Rheolaeth Datblygu Cyffredinol) (Cymru) Cynllunio Gwlad a Thref 2012 Rhybudd dan Erthygl 12**
**Town and Country Planning Act 1990**
**Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990**
**Town and Country Planning (Gen. Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 Notice under Article 12**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod cais/ceisiadau wedi'u cyflwyno i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â'r cynnig/ion canlynol
Notice is hereby given that application/s have been submitted to Gwynedd Council in respect of the following proposal/s:-

i) Cais Rhif/Application No:
ii)

Mae cais (i) o ddiddordeb cyffredinol/Application (i) is of general interest
Mae cais o fewn Ardal Cadwraeth/Application is within a Conservation Area
Mae cais yn ymwneud ag Adeilad Rhestredig/Application is in respect of a Listed Building

Gellir archwilio copi o'r cais/ceisiadau, cynlluniau a.y.y.b. yn y Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA drwy ffonio'r Gwasanaeth ar 01766 771000 i drefnu dyddiad ac amser cyfleus; neu yn www.gwynedd.llyw.cymru Bydd hefyd ar gael i'w harchwilio drwy ddefnydd system Dilyn a Darganfod Gwynedd yn Llyfrgelloedd Gwynedd am gyfnod o 21 diwrnod o ymddangosiad y rhybudd hwn. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud cynrychioliadau ynglyn â'r cais/ceisiadau, wneud hynny yn ysgrifenedig erbyn y dyddiad hwnnw at y Rheolwr Cynllunio i'r cyfeiriad uchod gan ddyfynnu rhif y cais perthnasol
Copy/ies of the application/s, plans etc. may be inspected at the Planning Service, Gwynedd Council, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA by phoning the Service on 01766 771000 to arrange a convenient date and time; or at www.gwynedd.llyw.cymru They will also be available for inspection via Gwynedd's Track & Trace system at Gwynedd Libraries for a period of 21 days from the appearance of this notice. Any person wishing to make representations regarding the proposal/s, should do so, in writing, by that date, to the Planning Manager, at the above address quoting the relevant application number.

AELOD LLEOL

**Adran Amgylchedd / *Environment Department***
**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd /**
***Planning and Public Protection Service***
**Uwch Reolwr / *Senior Manager* - Gareth Jones**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

«MAILING_NAME_AND_ADDRESS»

Cais Rhif: «Apn_Number»
Rhif A.O./*O.S. Reference:* «Easting» : «Northing»
Swyddog / *Officer*: «Case_Officer»

«Current_Date»

Bwriad / *Proposal*: «Dev_L»
Lleoliad / *Location:* «Location»

Annwyl Gynghorydd,

Mae'r cais cynllunio a ddisgrifir uchod wedi ei dderbyn a byddwn yn cymeryd os na chlywaf gennych yn ysgrifenedig i'r gwrthwyneb **o fewn 16 diwrnod** o ddyddiad y llythyr hwn **(erbyn «Current_Date_Plus_16_Days»)** eich bod yn cytuno i'r cais yma gael ei benderfynu dan y drefn dirprwyedig os byddwn yn tybio bod hynny yn addas. Mae croeso i chwi drafod y cais gyda'r swyddog achos os dymunwch.

Bydd manylion y cais ar gael ar ôl 1.00a.m. ar safle Dilyn a Darganfod Ceisiadau Cynllunio'r Cyngor a bydd y manylion yn cael eu diweddaru gydag unrhyw newidiadau / diwygiadau yn rheolaidd, neu gallwch weld y ffeil yn y Swyddfa Cynllunio drwy ffonio'r Gwasanaeth Cynllunio i drefnu dyddiad ac amser cyfleus. **Mi fydd y dogfennau ar gael i'w archwilio arlein y diwrnod ar ôl yr hysbysiad hwn.**

:::::::::::::::::::::

*Dear Councillor,*

*A planning application as described above has been received and I will assume that if I do not hear from you in writing to the contrary **within 16 days** of the date of this letter **(by «Current_Date_Plus_16_Days»)** that you agree for this application to be determined under the delegated procedure if I deem such a course of action to be appropriate. You are welcome to discuss the application with the case officer should you desire.*

*Details of the application will be available after 1.00 a.m. on the Council's Track and Trace system and the details will be updated regularly including changes / amendments, or you can view the file at the Planning Office by phoning the Planning Service to arrange a convenient date and time. **The documents will be available for inspection online the day after this notification***

Yr eiddoch yn gywir / *Yours faithfully*

RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / *DEVELOPMENT MANAGEMENT MANAGER*

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

CYNGOR CYMUNED/TREF + YMGYNGHORAI

**Adran Amgylchedd / *Environment Department***
**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd /**
***Planning and Public Protection Service***
**Uwch Reolwr / *Senior Manager* - Gareth Jones**

«MAILING_NAME_AND_ADDRESS»

Cais Rhif: «Apn_Number» «Current_Date»
Rhif A.O./*O.S. Reference:* «EASTING» : «NORTHING»
Swyddog / Officer: «Case_Officer»

Bwriad / *Proposal*: «Dev_L»
Lleoliad / *Location:* «Location»

Annwyl Syr/Madam,

Mae'r cais cynllunio a ddisgrifir uchod wedi ei dderbyn yn y swyddfa hon a byddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich sylwadau ar y cais o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwn (erbyn «Current_Date_Plus_21»).

Mae manylion y cais cynllunio ar gael drwy glicio ar y ddolen canlynol i system Dilyn a Darganfod y Cyngor. **Mi fydd y dogfennau ar gael i'w archwilio arlein y diwrnod ar ôl yr hysbysiad hwn.** Bydd y manylion sydd ar gael ar y ddolen yn cael eu diweddaru yn rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau/diwygiadau, yr adroddiad a'r penderfyniad ar y cais. Gallwch hefyd weld y cais ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu' neu gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i weld y ffeil yn y swyddfa.

::::::::::::::::::::::

*Dear Sir/Madam,*

*A planning application as described above has been received at this office and I would be grateful if you could provide me with your observations within 21 days of the date of this letter (by «Current_Date_Plus_21»).*

*Details of the planning application can be found by clicking on the following link to the Council's Track and Trace system.* ***The documents will be available for inspection online the day after this notification.*** *The details available on the link will be updated regularly to include changes/amendments, the report and the decision pertaining to the application. Alternatively, the application can be viewed on the Council's website by following the links from the heading 'Planning and Building Control' or the file can be viewed at the Planning Office by phoning the Planning Service to arrange a convenient date and time.*

Yn gywir / *Yours faithfully,*

RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / *DEVELOPMENT MANAGEMENT MANAGER*

**Rhif cais cysylltiedig / *Associated application number:***
«Associated_Planning_Apn_H»
**Cyfyngiadau / *Constraints***
«Cnst_H»
**Cais/Ceisiadau blaenorol / *Previous application (s)***
«NOTES_PAREGISTER»

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA